

# Adroddiad Caerdydd Heddiw



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English



---

# Cynnwys

---

|                                                                       |    |
|-----------------------------------------------------------------------|----|
| Beth yw Adroddiad Caerdydd Heddiw?                                    | 3  |
| Demograffeg                                                           | 4  |
| Iechyd a Lles                                                         | 10 |
| Amcan Lles 1: Mae Caerdydd yn lle gwyh i gael eich magu               | 17 |
| Amcan Lles 2: Mae Caerdydd yn lle gwyh i dyfu'n hŷn                   | 29 |
| Amcan Lles 3: Cefnogi pobl allan o dlodi                              | 35 |
| Amcan Lles 4: Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus                      | 41 |
| Amcan Lles 5: Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru                     | 49 |
| Amcan Lles 6: Mae Caerdydd yn Tyfu mewn Ffordd Gadarn                 | 56 |
| Amcan Lles 7: Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus | 66 |
| Atodiad A: Y Data a'r Llenyddiaeth a Adolygwyd                        | 69 |

## Beth yw Adroddiad Caerdydd Heddiw?

Mae dyletswydd ar [Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus \(BGC\)](#) Caerdydd, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i gyhoeddi Cynllun Lles diwygiedig bob pum mlynedd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal. Bydd y cynllun nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023.

Fel sail ar gyfer datblygu'r cynllun diwygiedig, rhaid i'r BGC gynnal asesiad lles lleol i nodi lle mae'r ddinas yn perfformio'n dda, lle mae angen iddi wella a'i heriau allweddol.

Mae'r asesiad o les lleol Caerdydd yn cael ei ddwyn ynghyd yn yr adroddiad hwn dan y themâu canlynol ac yn ôl amcanion lles (ALI) y BGC:

- Demograffeg
- Iechyd a Lles
- ALI 1: Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
- ALI 2: Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
- ALI 3: Cefnogi pobl allan o dlodi
- ALI 4: Cymunedau diogel, hyderus a grymus
- ALI 5: Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
- ALI 6: Mae Caerdydd yn Tyfu mewn Ffordd Gadarn
- ALI 7: Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

Yn ogystal â dadansoddi setiau data allweddol, tueddiadau dros amser a pherfformiad o gymharu â meysydd eraill, megis Awdurdodau Lleol Cymru a Dinasoedd Craidd y DU, mae'r asesiad yn defnyddio corff helaeth o ddata a llenyddiaeth, gan gynnwys nifer o adroddiadau pwysig fel y'u crynhoir yn **Atodiad A**.

Cyfeiriwch at yr [Adroddiad Cefndir](#) i gael rhagor o wybodaeth am y dull a ddefnyddir ar gyfer yr asesiad a'r sylfaen dystiolaeth sy'n ei gefnogi, gan gynnwys crynodeb o'r adolygiadau a'r asesiadau statudol sy'n cael eu hystyried.



---

# Demograffeg

---



## Trosolwg

Yn 2020, roedd 369,202 o bobl yn byw yng Nghaerdydd; mae'r boblogaeth wedi tyfu'n sylweddol dros y 25 mlynedd diwethaf, gyda chynnydd o 68,438 o drigolion ers 1995. Er bod twf y boblogaeth yn arwydd clir o lwyddiant, mae wedi cynyddu'r pwysau ar seilwaith ffisegol a chymdeithasol y ddinas gan gynnwys system drafnidiaeth y ddinas, a seilwaith gwyrdd y ddinas. Mae hefyd wedi cynyddu'r galw ar wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig i ddiwallu'r angen am fwy o ddarpariaeth iechyd a thai.

Yn benodol, mae effeithiau amgylcheddol twf y boblogaeth yng nghyd-destun yr argyfyngau hinsawdd a natur yn her hirdymor fawr i'r ddinas. Bydd mwy o bobl yn golygu bod angen adeiladu mwy o dai, bod mwy o deithiau'n cael eu gwneud, bod mwy o ynni'n cael ei ddefnyddio a bod mwy o wastraff yn cael ei greu. Mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei reoli mewn ffordd wydn a charbon isel. Bydd angen i Gaerdydd addasu hefyd i helpu i liniaru'r effeithiau posibl o newid yn yr hinsawdd sy'n eang eu cwmmpas ac sy'n cynnwys: mwy o berygl o lifogydd a thywydd poeth a mwy o achosion; dirywiad mewn cydnheredd ecosystemau; dirywiad rhywogaethau a mwy o achosion o blâu a chlefydau, gan effeithio ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd a mynediad at fwyd iach ar raddfa genedlaethol a byd-eang.

Mae twf poblogaeth yng Nghaerdydd wedi'i ysgogi gan newid naturiol – y gwahaniaeth rhwng genedigaethau a marwolaethau, a chan lefelau mudo net – y gwahaniaeth rhwng y mudo i mewn a'r mudo allan. Fodd bynnag, ers 2013, mae nifer y genedigaethau blyneddol wedi gostwng yng Nghaerdydd, sy'n cyfateb i'r duedd ledled Cymru. Bu'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus ystyried y dirywiad hwn, yn enwedig yng nghyd-destun newidiadau i flaenoriaethau/cynlluniau buddsoddi, megis ysgolion.

Yn gyffredinol, mae amcanestyniadau poblogaeth yn dangos y bydd y twf yn arafu dros y 25 mlynedd nesaf (2018-2043). Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu gan 24,642 o hyd. Er hynny, nid yw'r twf a ragwelir yn gyfartal – mae amcanestyniadau poblogaeth yn dangos twf mewn pobl 65 oed a hŷn, ond gostyngiad yn y grŵp oedran 0-15. Rhagwelir cynnydd yn y categori oedran 16-64, ond bydd yn cyfrif am ganran lai o gyfanswm y boblogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd gyfran uchel o oedolion ifanc (18-35) sy'n cyfrannu at ei phoblogaeth, sy'n adlewyrchu, yn rhannol, nifer y myfyrwyr yng Nghaerdydd. Bydd angen gwaith i sicrhau bod y ddinas yn parhau i fod yn lle deniadol i bobl ifanc fyw a gweithio ynddo. At hynny, bydd poblogaeth oed ysgol sy'n dirywio yn gofyn am gynnal adolygiad o leoedd/dalgylchoedd ysgolion. Bydd y twf parhaus ym mhoblogaeth hŷn y ddinas yn arwain at angen cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal, ac felly galw cynyddol am y gwasanaethau hyn. Bydd yn rhaid i bob partner fynd i'r afael â'r pwysau ar ddarparu gwasanaethau, boed hynny o ran addasu gwasanaethau presennol i fod yn fwy hyblyg neu drwy ddarparu seilwaith a chyfleusterau gwell.

Mae cyfanswm mudo net Caerdydd wedi bod yn positif ers nifer o flynyddoedd, wedi'i sbarduno gan lefelau uchel o fudo rhyngwladol net. Mae gan Gaerdydd gyfran sylweddol uwch o drigolion a anwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig na chyfran Cymru gyfan. Mae'n ddinas amrywiol, lle siaredir dros 100 o ieithoedd ac mae 15.3% o'r boblogaeth yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig, sy'n sylweddol uwch na chyfran Cymru gyfan.


At hynny, mae nifer y siaradwyr Cymraeg 3 oed a hŷn yng Nghaerdydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blyneddau diwethaf, wedi'u hysgogi'n bennaf gan siaradwyr Cymraeg yn mudo o ranbarthau eraill yng Nghymru yn ogystal ag ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg. Fodd bynnag, mae nifer yr oedolion sy'n dweud eu bod yn 'siarad Cymraeg' ond yn gwella fymryn.

## Strwythur Poblogaeth Presennol

Yn 2020, roedd 369,202 o bobl yn byw yng Nghaerdydd. Mae'r newid yn y boblogaeth yn ystod y blyneddau diwethaf wedi'i ysgogi gan y grŵp oedran 16-64, sy'n cyfrif am 67.3% o'r boblogaeth. Mae'r boblogaeth 0-15 oed yn 18.4% o boblogaeth gyfan Caerdydd ac mae 14.3% yn 65 oed a hŷn.

Mae poblogaeth hŷn Caerdydd wedi'i chanoli'n fwy yng ngogledd y ddinas ar hyn o bryd, gyda niferoedd uchel yn Rhiwbeina, Llanisien, a'r Eglwys Newydd a Tongwynlais. Ardal Gogledd Caerdydd sydd â'r ganran uchaf a'r nifer fwyaf o bobl 65 oed a hŷn, sef 20% (32,128 o bobl). Fodd bynnag, mae niferoedd y bobl ifanc (0-25 oed) yn fwy dwys yng nghanol y ddinas ac o'i hamgylch, gyda niferoedd arbennig o uchel o bobl ifanc yn byw yn Cathays (16,721), y gellir eu priodoli i'r boblogaeth fawr o fyfyrwyr.

**Poblogaeth Caerdydd yn ôl Grŵp Oedran, 1991-2020 (Amcangyfrifon Canol Blwyddyn)**



Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

<sup>1</sup> Yn cynnwys wardiau Creigiau/Sain Ffagan, Cyncoed, y Tyllgoed, y Mynydd Bychan, Llys-faen, Llandaf, Ystum Taf, Llanisien, Pentwyn, Pentrych, Pen-y-lan, Pontprennau/Pentref Llanelwyr, Radur, Rhiwbeina, yr Eglwys Newydd a Thongwynlais

## Newid Disgwyliedig yn y Boblogaeth

Mae amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar ddata 2018 yn rhagweld y twf yn y boblogaeth yn arafu. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu gan 24,642 o hyd. Mae amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer Caerdydd yn dangos twf yn y rhai 65 oed a hŷn, gan gynyddu o 14.1% o'r boblogaeth gyfan yn 2018 i 17.6% yn 2043, er bod hyn yn parhau i fod yn is na'r ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, bydd twf cyflymach yng Nghaerdydd yn nifer y bobl 65 oed a hŷn (cynnydd o 33.2%) erbyn 2043 nag yng Nghymru.

Yn gymesur, rhagwelir y bydd cyfran y boblogaeth o'r categorïau oedran 0-15 a 16-64 yn gostwng 1.7 ac 1.8 pwynt canran yn y drefn honno ac mewn termau absoliwt rhagwelir y bydd nifer y rhai 0-15 oed yn gostwng 2,045.


Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd yn cael ei baratoi ar gyfer Caerdydd ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod digon o gartrefi a swyddi newydd yn cael eu creu i ddiwallu twf parhaus y ddinas. Mae sicrhau bod cartrefi newydd o ansawdd uchel, yn gynaliadwy ac yn effeithlon o ran ynni, a bod swyddi'n cyd-fynd â'r strategaeth economi werdd, yn hanfodol wrth symud ymlaen. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar 3 senario twf:

**Opsiwn A (Llinell Sylfaen):** Cyfanswm o tua 19,000 o gartrefi newydd (gofyniad gweddilliol am 2,140 o gartrefi newydd); cyfanswm o tua 30,000 o swyddi newydd.

**Opsiwn B:** Cyfanswm o tua 24,000 o gartrefi newydd (gofyniad gweddilliol am 7,640 o gartrefi newydd); cyfanswm o tua 32,300 o swyddi newydd.

**Opsiwn C:** Cyfanswm o tua 30,500 o gartrefi newydd (gofyniad gweddilliol am 14,790 o gartrefi newydd); cyfanswm o tua 43,000 o swyddi newydd.

**Poblogaeth Caerdydd yn ôl Grŵp Oedran, 2018-2043 (Rhagamcanion ar sail data 2018)**



Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru


## Ffactorau sy'n Sbarduno Newid Yn y Boblogaeth

### Genedigaethau

Ers 2013, mae nifer y genedigaethau blynyddol wedi gostwng yng Nghaerdydd, sy'n cyfateb i'r sefyllfa ledled Cymru. Mae'r gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol yng Nghaerdydd hefyd wedi gostwng ychydig dros 12 pwynt canran ers 2013 ac ar hyn o bryd mae 7 pwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru.

Rhagwelir y bydd cynnydd bach o tua 10% yng Nghaerdydd o ran nifer y genedigaethau y flwyddyn yn yr ardal erbyn 2043, gyda chynnydd graddol bob blwyddyn. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o tua 5% ledled Cymru ar draws yr un cyfnod.


**Cydrannau Newid Poblogaeth: Genedigaethau Yn Ystod y Cyfnod - Rhagamcanion ar Sail Data 2018**



Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth, Cydrannau Newid, yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru



## Cydrannau Newid Poblogaeth: Marwolaethau yn Ystod y Cyfnod - Rhagamcanion ar Sail Data 2018



## Marwolaethau

Ers 2013, cafwyd cynnydd yn nifer y marwolaethau bob blwyddyn yng Nghaerdydd a rhagwelir y byddant yn parhau i ddilyn tuedd ar i fyny rhwng 2018 a 2043, er bod cyfradd y twf yn is nag ar gyfer Cymru gyfan. O ran cyfradd marwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran, mae Caerdydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.


*Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth, Cydrannau Newid, yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru*

## Mudo


Mae cyfanswm mudo net Caerdydd wedi bod yn bositif ers nifer o flynyddoedd, wedi'i sbarduno gan lefelau uchel o fudo rhyngwladol net. Mae hyn wedi gwrthbwysu all-lif net o bobl o ran mudo mewnol dros lawer o'r 20 mlynedd diwethaf.

Rhagwelir y bydd gan Gaerdydd fudo net cadarnhaol am y 15 mlynedd nesaf, ac yna 10 mlynedd o ymfudo net negyddol. Bydd lefelau cyson o ymfudo tramor net yn cael eu gwrthbwysu gan all-lifau o bobl drwy fudo net negyddol yn y DU.

Mae Brexit, yn arbennig, yn debygol o gael effaith ar fudo, oherwydd newidiadau i'r system fewnfudo, yn ogystal â gwladolion o'r AEE sy'n dewis gadael y DU.



## Canran Cyfanswm y Boblogaeth sy'n Perthyn i Grŵp Lleiafrifoedd Ethnig yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI), Cyfrifiad 2011



*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

## Ethnigrwydd

Mae Caerdydd yn ddinas amrywiol a chynhwysol iawn. Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 15.3% o boblogaeth Caerdydd yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig, mae hyn yn uwch na'r gyfran yng Nghymru gyfan. Mae'r ganran hon yn uwch wrth ystyried poblogaeth ifanc y ddinas: mae 22.4% o'r rhai 0-19 oed yn nodi eu bod yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd. Mae amcangyfrifon cyfres amser yn dangos bod canran y bobl yng Nghaerdydd sydd o gefndir lleiafrifoedd ethnig wedi bod yn gymharol sefydlog rhwng 2012 a 2021, er bod y ffigur wedi parhau i fod yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae canran uchel o bobl sy'n nodi eu bod yn dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn wardiau canol y ddinas.



## Iaith


Siaredir dros 100 o ieithoedd yng Nghaerdydd. Cymraeg neu Saesneg yw 91.7% o brif iaith preswylwyr, a'r gyfran isaf yng Nghymru o bell ffordd.

Yn 2020/21, roedd cyfanswm o 89,600 o siaradwyr Cymraeg (3 oed a hŷn) yng Nghaerdydd, sef 24.8% o'r boblogaeth 3+. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu gan 32,500 o siaradwyr, neu tua 57%, ers mis Mehefin 2015; mae cyfanswm canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi codi 8.0 pwynt canran dros yr un cyfnod.

Fel yn 2015, mae Caerdydd yn parhau'n drydydd yng Nghymru ar gyfer cyfanswm y siaradwyr Cymraeg, y tu ôl i Wynedd a Sir Gaerfyrddin, ond mae'r blwch hwn wedi'i leihau'n sylweddol a gallai cyfraddau Caerdydd ddod yn uwch na'r ddwy sir yn y dyfodol.

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o les diwylliannol yng Nghymru. Cydnabyddir nad ffordd o gyfathrebu yn unig yw'r Gymraeg – mae'n rhan annatod o bwy ydym ni fel cenedl, ein diwylliant a'n ffordd o fyw. Gweledigaeth y ddinas yw gwneud Caerdydd yn brifddinas wirioneddol ddwyieithog i Gymru, yn ogystal â dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050.

**Nifer y Bobl (3+ oed) sy'n gallu siarad Cymraeg, Blwyddyn sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2021 (Awdurdodau Lleol Cymru)**



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, StatsCymru





## CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL

- **Twf poblogaeth yn parhau, ond yn arafu:** Mae Caerdydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 25 mlynedd diwethaf. Er bod amcanestyniadau poblogaeth yn dangos y bydd y twf yn arafu dros y 25 mlynedd nesaf (2018-2043), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu gan 24,642 o hyd, gyda'r gyfradd twf uchaf ymhlith pobl 65 oed a hŷn. Bydd y twf parhaus ym mhoblogaeth hŷn y ddinas yn arwain at angen cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal, ac felly galw cynyddol am y gwasanaethau hyn.

Rhagwelir cynnydd yn y categori oedran 16-64 hefyd, ond bydd yn cyfrif am ganran lai o gyfanswm y boblogaeth. Bydd angen gwaith i sicrhau bod y ddinas yn parhau i fod yn lle deniadol i fyw a gweithio ynddo. At hynny, rhagwelir y bydd gostyngiad yn y grŵp oedran 0-15, a fydd yn arwain at oblygiadau o ran cynllunio system ysgolion y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus eraill i blant a phobl ifanc yn y tymor hir.

- **Darparu ar gyfer cartrefi a swyddi newydd:** Mae twf parhaus ym mhoblogaeth y ddinas yn golygu bod angen darparu ar gyfer cartrefi a swyddi newydd. Mae sicrhau bod cartrefi newydd o ansawdd uchel, yn gynaliadwy ac yn effeithlon o ran ynni, a bod swyddi'n cyd-fynd â'r strategaeth economi werdd, yn hanfodol wrth symud ymlaen. Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd yn cael ei baratoi ar gyfer Caerdydd ar hyn o bryd, a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar 3 senario twf poblogaeth. Mae'r opsiynau'n caniatáu ystyried gwahanol lefelau o dwf mewn swyddi a chartrefi:

- **Opsiwn A (Llinell Sylfaen):** Cyfanswm o tua 19,000 o gartrefi newydd (gofyniad gweddilliol am 2,140 o gartrefi newydd); cyfanswm o tua 30,000 o swyddi newydd.
- **Opsiwn B:** Cyfanswm o tua 24,000 o gartrefi newydd (gofyniad gweddilliol am 7,640 o gartrefi newydd); cyfanswm o tua 32,300 o swyddi newydd.
- **Opsiwn C:** Cyfanswm o tua 30,500 o gartrefi newydd (gofyniad gweddilliol am 14,790 o gartrefi newydd); cyfanswm o tua 43,000 o swyddi newydd.

- **Rheoli effeithiau amgylcheddol twf poblogaeth:** Mae effeithiau amgylcheddol twf poblogaeth a newid yn yr hinsawdd yn her hirdymor fawr i'r ddinas. Bydd angen i Gaerdydd addasu i helpu i liniaru'r effeithiau posibl sy'n eang eu cwmpas ac sy'n cynnwys: mwy o berygl o lifogydd a thywydd poeth a mwy o achosion; dirywiad mewn cydnerthedd ecosystemau; dirywiad rhywogaethau a mwy o achosion o blâu a chlefydau, gan effeithio ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd a mynediad at fwyd iach ar raddfa genedlaethol a byd-eang.

- **Darlun ansicr ar fudo rhyngwladol:** Mae cyfanswm mudo net Caerdydd wedi bod yn bositif ers nifer o flynyddoedd, wedi'i sbarduno gan lefelau uchel o fudo rhyngwladol net, sy'n gwrthbwyso all-lif net o bobl o ran mudo mewnol. Mae darlun mudo rhyngwladol y dyfodol yn ansicr, o ystyried y newidiadau diweddar i'r system fewnfudo ac effaith Covid-19.

- **Proffil oedran ar draws y ddinas:** Mae poblogaeth hŷn Caerdydd wedi'i chanoli'n fwy yng Ngogledd y ddinas ar hyn o bryd; ardal Gogledd Caerdydd sydd â'r ganran uchaf a'r nifer uchaf o bobl 65 oed a hŷn, sef 20% (32,128 o bobl). Fodd bynnag, mae niferoedd y bobl ifanc (0-25 oed) yn fwy dwys yng nghanol y ddinas ac o'i hamgylch, gyda niferoedd arbennig o uchel o bobl ifanc yn byw yn Cathays (16,721), y gellir eu priodoli i'r boblogaeth fawr o fyfyrwyr.

- **Poblogaeth sy'n gynyddol amrywiol:** Mae 15.3% o boblogaeth Caerdydd yn dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru o 4.4%, a'r uchaf o bell ffordd ymhlith awdurdodau lleol Cymru. Mae yna hefyd fwy o amrywiaeth ymysg poblogaeth ifanc y ddinas: yng Nghaerdydd, mae 22.4% o'r rhai 0-19 oed yn nodi eu bod yn dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig.

Mae canran uchel o bobl sy'n nodi eu bod yn dod o grŵp lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn wardiau canol y ddinas.

- **Nifer cynyddol o siaradwyr Cymraeg:** Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o les diwylliannol yng Nghymru. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg 3 oed a hŷn yng Nghaerdydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi'u hysgogi'n bennaf gan siaradwyr Cymraeg yn mudo o ranbarthau eraill yng Nghymru yn ogystal ag ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg. Disgwylir y gallai Caerdydd symud o'r trydydd safle i'r cyntaf yng Nghymru o ran cyfanswm y siaradwyr Cymraeg yn y blynyddoedd i ddod.

---

lechyd a Lles

---



## Trosolwg

Mae lefelau iechyd cyffredinol yng Nghaerdydd yn uchel; mae disgwyliad oes dynion, yn ogystal â chyfran eu bywyd a dreulir mewn iechyd da, wedi cynyddu dros amser ac wedi symud yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae disgwyliad oes menywod wedi amrywio dros amser, ond mae wedi bod yn cynyddu ers 2015-17. Mae cyfran eu bywyd a dreulir mewn iechyd da hefyd yn cynyddu'n gyson ac mae bellach yn debyg i gyfartaledd Cymru. Fodd bynnag mae anghydraddoldebau iechyd clir ar draws y ddinas, a'r wardiau yn yr 'Arc Ddeheuol' - sef ardal sy'n ymestyn o Drelái yn y Gorllewin i Laneirwg yn y Dwyrain gyda phoblogaeth o bron i 160,000 o bobl - yw'r rhai mwyaf difreintiedig o ran iechyd.

O ran ffyrdd iach o fyw, mae Caerdydd yn cymharu'n dda ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru ar draws ystod o ddangosyddion, gan berfformio'n uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, nid yw dwy ran o dair o oedolion yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd; mae bron i draean yn actif llai na 30 munud yr wythnos; nid yw 4 o bob 10 yn actif am 150 munud yr wythnos; a dywedir bod dros hanner y boblogaeth oedolion dros bwysau neu'n ordew. Mae ffordd o fyw yn cyfrannu'n sylweddol at y tebygolrwydd o ddioddef cyflyrau cronig yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae ansawdd yr aer a anadlwn hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar ein hiechyd. Gall nifer o wahanol lygryddion aer achosi problemau, ond mae dau yn arbennig – deunydd gronynnol (PM) a nitrogen deuocsid (NO2) – yn peri pryder. Mae llygredd aer yn un o brif achosion salwch a marwolaethau y gellir eu hosgoi, gyda thrafnidiaeth petrol a disel yn gyfrannwr mawr yng Nghaerdydd.

At hynny, mae cysylltiad rhwng lefelau NO2 uwch ac amddifadedd, gydag lefelau uwch o'r llygrydd i'w gweld mewn ardaloedd o amddifadedd uwch. Mae pobl mewn ardaloedd o amddifadedd uwch hefyd yn fwy tebygol o ddioddef cyflyrau cronig (fel clefyd yr ysgyfaint), sy'n eu gwneud yn fwy agored i ddioddef effeithiau llygredd. Clefyd anadlol yw un o'r elfennau blaenllaw sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes yn seiliedig ar amddifadedd yng Nghymru.

Mae'n berthnasol nodi hefyd, nad yw effaith lawn pandemig Covid-19 ar iechyd cyffredinol poblogaeth Caerdydd wedi'i chofnodi a'i deall yn llwyr eto, disgwyliar y bydd cyflyrau hirdymor wedi gwaethgu i lawer o bobl yn ystod y pandemig. Mae pryderon ynghylch effaith oedi wrth wneud diagnosis, oherwydd prinder gwasanaethau iechyd 'nad ydynt yn hanfodol', ac effeithiau canlyniadol hynny wrth ailddechrau gwasanaethau'r GIG, yn ogystal â'r effeithiau posibl ar iechyd meddwl hirdymor, megis anhwylder straen wedi trawma, iselder a gorbryder. Mae hyn yng nghyd-destun y risg barhaus o ddal y haint a chanlyniadau hynny, megis Covid hir.


Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu sut mae anghydraddoldebau presennol, megis amddifadedd, mynediad i fannau gwyrdd a chwarae yn yr awyr agored, incwm isel, a thai gwael yn gysylltiedig â risg uwch o fynd yn sâl gyda'r clefyd. Mae canlyniadau iechyd a lles hirdymor argyfwng economaidd Covid-19 hefyd yn debygol o gael eu dosbarthu'n anghyfartal yn seiliedig ar y ffactorau hyn, gan waethgu anghydraddoldebau iechyd yn enwedig i unigolion o gefndiroedd tlotach a difreintiedig, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau difreintiedig.

## Disgwyliad Oes Iach adeg Geni

### Dynion

Mae disgwyliad oes iach (DOI) adeg geni i ddynion yng Nghaerdydd wedi cynyddu dros amser ac ar hyn o bryd dyma'r drydedd uchaf ymhlith 'Dinasoedd Craidd' y DU a Chaeredin. Fel canran o gyfanswm y disgwyliad oes, y DOI i ddynion yw'r ail uchaf ymhlith y 'Dinasoedd Craidd' a Chaeredin ond mae ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn is na chyfartaledd y DU.

*Dynion – Disgwyliad Oes Iach adeg Geni*



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol




## Menywod

I fenywod, mae disgwyliad oes adeg geni wedi gostwng yn gyffredinol o sefyllfa 2011-13 ond mae wedi bod yn cynyddu'n gyson o lefel isel yn 2015-17.

Mae sefyllfa Caerdydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, ond yn is na chyfartaledd Cymru gyfan fel canran o gyfanswm disgwyliad oes. Caerdydd yw'r drydydd uchaf hefyd ymhlith 'Dinasoedd Craidd' y DU a Chaeredin, ond mae yn y canol o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

### Menywod - Disgwyliad Oes Iach Adeg Geni



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Cyfran Bywyd a Dreulir mewn Iechyd Da

Mae cyfran bywyd dynion a dreulir mewn iechyd da wedi cynyddu dros amser ac wedi symud yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae cyfran bywyd menywod a dreulir mewn iechyd da wedi dod yn debyg i gyfartaledd Cymru (75.3%), ar ôl bod yn is na chyfartaledd Cymru ers 2014.


Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau iechyd clir ar draws y ddinas, a'r wardiau yn yr 'Arc Ddeheuol' yw'r rhai mwyaf diffreintiedig o ran iechyd.

## Ffyrdd o Fyw Iach

### Gweithgarwch Corfforol a Bwyta'n Iach

Caerdydd yw'r Awdurdod Lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran nifer yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd. Fodd bynnag, nid yw dwy ran o dair o oedolion yn bwyta pum dogn y dydd.

**Canran yr Oedolion sy'n Bwyta 5 Dogn neu Fwy o Ffrwythau neu Llysiau y Dydd, 2016-17 a 2017-18 i 2018-19 a 2019-20 (wedi'i safoni yn ôl oedran)**



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

### Gweithgarwch Corfforol

Mae Caerdydd yn y chwarter uchaf ar gyfer lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae 29% yn egniol am lai na 30 munud yr wythnos.

Ledled Cymru, Caerdydd sydd â'r gyfran uchaf ond un o bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith yr wythnos (37.8%). Mae Caerdydd wedi dilyn y duedd ledled Cymru ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd yng nghyfran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith yr wythnos.

Mae Caerdydd hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn actif am 150 munud yr wythnos (56.9%). Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad yw 4 o bob 10 person yn egniol am 150 munud yr wythnos.



## Pwysau Iach

Mae 46.2% o oedolion sy'n gweithio (16 i 64 oed) yng Nghaerdydd o bwysau iach. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 38% a'r ganran uchaf ymhlith Awdurdodau Lleol Cymru.


Caerdydd sydd â'r drydedd ganran isaf o oedolion sy'n ordew o gymharu ag Awdurdodau Lleol Cymru ac mae wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru ers 2017/18. Fodd bynnag, mae canran yr oedolion gordew sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd bron ddwywaith y ganran sy'n byw yn y rhai lleiaf difreintiedig.

Yng Nghaerdydd a'r Fro, mae Cynllun Partneriaeth Symud Mwy, Bwyta'n Dda a ddatblygwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd, BGC Bro Morgannwg a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) (Caerdydd a'r Fro), yn darparu ymateb rhanbarthol i sut y gallwn annog pobl i fod yn fwy actif a chael deiet

iachach. Ar draws Caerdydd a'r Fro mae mecanweithiau darparu arloesol sefydledig ar waith drwy waith Bwyd Caerdydd, Bwyd y Fro, Chwaraeon Caerdydd a Thîm Byw'n Iach y Fro.



## Oedolion o Oedran Gweithio o Bwysau Iach, Canran, Pobl 16 i 64 oed, Awdurdodau Lleol Cymru, 2017/18-2019/20



Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru (LIC)

## Camddefnyddio sylweddau

Mae camddefnyddio sylweddau yn cyfeirio at ddefnyddio sylweddau mewn ffordd sy'n niweidiol neu'n beryglus i iechyd a lles meddyliol, gan gynnwys alcohol a chyffuriau anghyfreithlon. Mae camddefnyddio sylweddau nid yn unig yn effeithio ar fywydau unigolion ond ar deuluoedd, gan gynnwys plant

a phobl ifanc a gall achosi ac arwain at ddigartrefedd. At hynny, mae pobl sy'n byw mewn amddifadedd yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau camddefnyddio sylweddau. Yng Nghymru, roedd cyfran yr holl gleifion a dderbyniwyd ar gyfer cyflyrau sy'n benodol i alcohol sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 2.7 gwaith yn uwch na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn 2019. O ran defnyddio cyffuriau

anghyfreithlon, cododd y ffigur hwn i 5.2 gwaith yn uwch mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru. Fel y nodir yn [Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro 2022](#), mae gwaith ac ymgysylltiad sylweddol ac arloesol ar y gweill, sy'n canolbwyntio ar leihau'r niwed sy'n deillio o gamddefnyddio sylweddau, er mwyn osgoi stigma a sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf posibl â gwasanaethau cymorth.

## Camddefnyddio alcohol

Mae Caerdydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran nifer yr oedolion sy'n yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfran uwch o oedolion yn ardaloedd lleiaf difreintiedig y ddinas ac o amgylch canol y ddinas yn yfed mwy o alcohol na'r hyn a argymhellir. Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o unigolion a aseswyd ar gyfer camddefnyddio alcohol (692) yng Nghymru hefyd. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng dros 10% rhwng 2014 a 2018.

## Camddefnyddio cyffuriau

Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o unigolion a aseswyd ar gyfer camddefnyddio cyffuriau (603) yng Nghymru. Fodd bynnag, o ran marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau, ar lefel ranbarthol, mae sefyllfa Caerdydd a'r Fro wedi gwella o gymharu â'r 7 Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Yn 2019, Caerdydd a'r Fro oedd â'r gyfradd isaf ond un o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau ac roedd yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru.

Mae Caerdydd yn y canol ymhlith Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer canran yr unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau sy'n nodi gwelliant yn ansawdd eu bywydau. Bu cynnydd bach o 81% i 83% yn 2020/21 ers 2016/17.

## Effaith Covid-19

Yn ôl arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd oedd yn hysbysu [Asesiad Caerdydd a'r Fro o Anghenion y Boblogaeth 2022](#), ers mis Mawrth 2020, canfuwyd bod bron i un o bob pedwar o'r 508 o ymatebwyr yn teimlo bod eu cymeriant alcohol wedi cynyddu, tra bod un o bob chwech yn teimlo ei fod wedi gostwng. Er bod tafarndai, clybiau a bwytai wedi bod ar gau am tua 31 wythnos yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol, roedd cyfanswm yr alcohol a ryddhawyd i'w werthu yn ystod y pandemig yn debyg i flynyddoedd cyn y pandemig, gan awgrymu bod pobl yn yfed mwy gartref (325). Gellir tybio hefyd y bydd llai o achosion o gamddefnyddio sylweddau yn cael eu canfod oherwydd yr amhariad i wasanaethau cyhoeddus wyneb yn wyneb gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol.

## Meysydd Allweddol o Angen

Er mwyn lleihau niwed o gamddefnyddio sylweddau, mae'r meysydd allweddol o angen a nodwyd yn Asesiad Drafft Caerdydd a'r Fro o Anghenion y Boblogaeth 2022, yn cynnwys darparu cymorth iechyd meddwl ar ddiagnosis, gan adeiladu ar gydweithio agosach rhwng gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau sydd wedi cyflymu yn ystod Covid-19 a'r cysylltiad rhwng camddefnyddio sylweddau a phlant a phobl ifanc yn cael eu rhoi mewn gofal. Ym mis Mawrth 2018, nodwyd bod camddefnyddio sylweddau yn ffactor ymhlith rhieni 36% o Blant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru.

## Ysmygu

Caerdydd sydd â'r lefel isaf ond un o bobl sy'n ysmygu (14%) ar draws Awdurdodau Lleol Cymru, y tu ôl i Wynedd. Ar draws Clystyrau Meddygon Teulu Caerdydd, mae'r nifer uchaf o bobl sy'n ysmygu yn ardaloedd Canol a De Caerdydd a De-ddwyrain Caerdydd a'r lleiaf yng Ngorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd.



## Bwyd Iach a Chynaliadwy

Mae mynediad at fwyd maethlon o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer cynnal ffordd iach o fyw. Er mwyn ateb y galw am fwyd yn 2050, amcangyfrifir y bydd angen i gynhyrchu amaethyddol byd-eang gynyddu 50 y cant o lefelau 2012. Mae'r system fwyd fyd-eang yn gyfrifol am rhwng 21 a 37 y cant o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn seiliedig

ar ddulliau presennol o gynhyrchu, prosesu, storio, cludo a pheccynnu bwyd, disgwylir i'r allyriadau hyn gynyddu i rhwng 30 a 40 y cant erbyn 2050 ochr yn ochr â'r dirywiad ecolegol ychwanegol posibl y maent yn ei achosi ar hyn o bryd.

Mae lefelau uwch o CO2 yn bygwth gostwng gwerth maethol y bwyd sydd ar gael, a gwelir bod rhai cynyddau'n cynhyrchu lefelau is o sinc,

haearn, protein a fitaminau lluosog pan fyddant yn cael eu tyfu mewn amgylcheddau sydd â lefelau uchel o CO2. Bydd hyn yn cyfrannu at amcangyfrif o 138 miliwn o bobl sydd mewn perygl o ddiffyg sinc erbyn 2050. Mae angen cymryd camau i ddatblygu systemau bwyd gwydn a chynaliadwy sy'n diogelu'r cyflenwad bwyd ac yn diogelu iechyd tra'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

## Ansawdd Aer

Mae llygredd aer yn un o brif achosion salwch a marwolaethau y gellir eu hosgoi, gyda thrafnidiaeth petrol a disel yn gyfrannwr mawr. Hefyd, mae ansawdd aer gwael yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth oherwydd lefelau Deunydd Gronynnol.

Ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae rhagamcan o nifer y marwolaethau oherwydd llygredd aer hirdymor oddeutu 178-227 y flwyddyn. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017), mae aer llygreddig yn lleihau disgwyliad oes cyfartalog ledled y DU gan 7-8 mis.

Nid oes unrhyw lefelau o lygredd aer yn 'ddiogel'. Er bod ansawdd aer gwael yn effeithio ar bob un ohonom, mae rhai pobl yn fwy agored i niwed. Y bobl sy'n dioddef fwyaf o ansawdd aer gwael yn aml yw'r rhai ifanc iawn, y bobl hen

iawn a'r rhai sydd eisoes yn dioddef o afiechyd. Ledled Cymru, mae cysylltiad rhwng llygredd aer ac amddifadedd, gyda lefelau uwch o lygredd i'w gweld mewn ardaloedd o amddifadedd uwch. Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uwch yn fwy tebygol o ddioddef cyflyrau cronig, fel defyd yr ysgyfaint, sy'n eu gwneud yn fwy agored i ddioddef effeithiau llygredd. Mae aelwydydd mewn ardaloedd mwy difreintiedig hefyd yn llai tebygol o fod yn berchen ar gerbydau, gan gyfrannu'n gymesur llai at lygredd aer.

Caerdydd sydd â'r lefelau llygredd NO2 a Deunydd Gronynnol (PM2.5 a PM10) uchaf yng Nghymru.

Mae pedair Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) ar draws Caerdydd hyn o bryd sydd wedi'u dynodi gan fod y lefel NO2 yn uwch na'r Safon Ansawdd Aer gymedrig flynyddol (40ug/m3), y gwyddys bod hyn yn ganlyniad i dtrafnidiaeth ar y ffyrdd.

## Lles Meddyliol

Problemau iechyd meddwl sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r holl broblemau iechyd. Gallant gael effaith sylweddol ar unigolion, cymdeithas, a'r economi yn gyffredinol a gallant ddechrau'n gynnar mewn bywyd.

Mae lles meddyliol oedolion yng Nghaerdydd yn dda o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru (Caerdydd yn drydydd) ac mae'r gyfradd wedi gwella ers 2016/17 yn fwy na'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru gyfan.

Mae'n berthnasol nodi, fodd bynnag, bod y pandemig wedi cael effaith negyddol sylweddol yng Nghymru ar iechyd meddwl a lles, gydag unigrwydd, arwahanrwydd a straen ar rieni yn cyfrannu at hyn. Mae ymateb i arolwg Holi Caerdydd 2020 yn tynnu sylw at hyn, gyda'r unigolyn yn nodi, "Rwy'n gweld eisiau cyswllt dynol."



## CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL

- **Mae lefelau iechyd cyffredinol yng Nghaerdydd yn dda:**

Mae disgwyliad oes dynion, yn ogystal â chyfran eu bywyd a dreulir mewn iechyd da, wedi cynyddu dros amser ac wedi symud yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae disgwyliad oes menywod wedi amrywio dros amser, ond mae wedi bod yn cynyddu ers 2015-17. Mae cyfran eu bywyd a dreulir mewn iechyd da hefyd yn cynyddu'n gyson ac mae bellach yn debyg i gyfartaledd Cymru.

- **Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau clir ar draws y ddinas:**

Wardiau yn yr 'Arc Ddeheuol' sydd fwyaf difreintiedig o ran iechyd. Mae digon o dystiolaeth bod ffactorau cymdeithasol, gan gynnwys addysg, statws cyflogaeth, lefel incwm, rhywedd ac ethnigrwydd yn cael dylanwad amlwg ar ba mor iach yw unigolyn.

- **Mae trigolion Caerdydd, yn gyffredinol, yn byw bywyd iach, ond mae problemau o hyd:**

Mae Caerdydd yn cymharu'n dda ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru ar draws ystod o ddangosyddion ffordd iach o fyw, gan berfformio'n uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag:

- Nid yw traean o oedolion yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd
- Mae bron i draean yn egniöl llai na 30 munud yr wythnos
- Nid yw 4 pherson o bob 10 yn egniöl am 150 munud yr wythnos
- Dywedodd dros hanner y boblogaeth oedolion yng Nghaerdydd eu bod dros bwysau neu'n ordew.

- **Yfed alcohol:** Mae Caerdydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran nifer yr oedolion sy'n yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfran uwch o oedolion yn ardaloedd lleiaf difreintiedig y ddinas, ac o amgylch canol y ddinas, yn yfed mwy o alcohol na'r hyn a argymhellir.

- **Ansawdd aer:** Caerdydd sydd â'r lefelau llygredd NO<sub>2</sub> a Deunydd Gronynnol (PM<sub>2.5</sub> a PM<sub>10</sub>) uchaf yng Nghymru. Mae llygredd aer yn un o brif achosion salwch a marwolaethau y gellir eu hosgoi, gyda thrafnidiaeth petrol a disel yn gyfrannwr mawr. Hefyd, mae ansawdd aer gwael yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth oherwydd lefelau Deunydd Gronynnol.

Er bod ansawdd aer gwael yn effeithio ar bob un ohonom, mae rhai pobl yn fwy agored i niwed. Y bobl sy'n dioddef fwyaf o ansawdd aer gwael yn aml yw'r rhai ifanc iawn, y bobl hen iawn a'r rhai sydd eisoes yn dioddef o afiechyd. Mae cysylltiad hefyd rhwng lefelau uwch o lygredd aer, ac amddifadedd.

- **Iechyd a Lles Plant a Phobl Ifanc:** Trafodir iechyd a lles plant a phobl ifanc Caerdydd yn y bennod: Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu. Yn gryno, mae lefelau cyffredinol iechyd plant yng Nghaerdydd yn dda, fodd bynnag, mae dros un o bum plentyn (4 neu 5 oed) dros bwysau neu'n ordew; nid yw bron hanner plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd cerrig milltir datblygiadol 3 oed; ac mae'r nifer sy'n manteisio ar frechlynnau plentyndod yn is na'r targed ar gyfer y rhan fwyaf o'r brechlynnau imiwneiddio a drefnwyd. Mae lles meddyliol plant (11-16 oed) yn debyg ar draws Awdurdodau Lleol Cymru, ond mae'r pandemig wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dioddef problemau emosiynol ac iechyd meddwl.

- **Iechyd a Lles Pobl Hŷn:** Trafodir iechyd a lles pobl hŷn Caerdydd yn y bennod: Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn. Yn gryno, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod â chyflyrau hirdymor ac anghenion gofal cymhleth, ac angen aros yn yr ysbyty am hirach ac yn amlach. Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yng Nghaerdydd yn cynyddu dros y 25 mlynedd nesaf, gan arwain at: dwf rhagamcanol yn nifer y bobl hŷn ag anghenion gofal cymhleth (gan gynnwys dementia difrifol); cynnydd yn y galw am wasanaethau yn seiliedig ar eiddilwch; a'r angen am ragor o lety i bobl hŷn.

## Effaith Covid-19:

- Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu sut mae anghydraddoldebau presennol, megis amddifadedd, incwm isel, a thai gwael yn gysylltiedig â risg uwch o fynd yn sâl gyda'r clefyd.
- Yn ogystal â'r effeithiau uniongyrchol amlwg, mae'r pandemig wedi cael effaith anuniongyrchol sylweddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghaerdydd (yn unol â gweddill Cymru) sydd â mynediad cyfyngedig at atal, diagnosis, triniaeth ac adsefydlu, ac mae wedi'i ddwysáu gan yr aflonyddwch ar dderbyniadau i'r ysbyty, gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol.
- Mae canlyniadau iechyd a lles hirdymor argyfwng economaidd Covid-19 hefyd yn debygol o gael eu dosbarthu'n anghyfartal yn yr un modd, gan waethgu anghydraddoldebau iechyd i unigolion o gefndiroedd tlotach a difreintiedig, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau difreintiedig.
- Mae adroddiad diweddaraf Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag annhegwch a blaenoriaethu atal wrth adfer o Covid-19. Mae'r adroddiad yn nodi 5 maes gweithredu â blaenoriaeth er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd wrth ddod allan o'r pandemig:

1. **Imiweiddio Plant:** Mae'r pandemig wedi effeithio ar amseroldeb brechu, yn enwedig ymhlith plant o oedran cyn ysgol a phlant o oedran ysgol uwchradd. Mae rhai arwyddion o adferiad, ond mae gwaith i'w wneud i sicrhau bod plant yn cael eu brechlynnau ar yr adeg briodol, yn ogystal â chynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu yn gyffredinol.
2. **Iechyd Meddwl Plant:** Mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol sylweddol yng Nghymru ar iechyd meddwl a lles, gydag unigrwydd, arwahanrwydd a straen ar rieni yn cyfrannu at hyn. Fodd bynnag, effeithiwyd yn arbennig ar blant a phobl ifanc, gyda'r pandemig yn arwain at fwy o alw a chymhlethdod ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac ymyrraeth argyfwng i blant a phobl ifanc yn lleol. Er i atgyfeiriadau i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol (CAMHS) ostwng ar adeg cyflwyno'r cyfnod clo, cynyddodd atgyfeiriadau i'r gwasanaeth 108% ar ôl i'r ysgolion ailagor ym mis Medi 2020.

3. **Sgrinio:** Ym mis Mawrth 2020, er mwyn cefnogi'r ymateb i Covid-19, cafodd llawer o raglenni sgrinio oedolion eu hoedi dros dro. Ailddechreuodd y cyfan ymhen 6 mis, ond mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar lefel Cymru yn awgrymu y bydd y rhaglenni'n cymryd rhwng 10-48 mis i adfer yn llwyr. Cyn y pandemig, roedd BIP Caerdydd a'r Fro wedi'i sgorio yr 'ail isaf' o ran y nifer sy'n manteisio ar yr holl raglenni sgrinio oedolion o gymharu â Byrddau Iechyd eraill, ar wahân i sgrinio'r fron, a oedd wedi'i sgorio 'yr isaf' o gymharu â Byrddau Iechyd eraill.
4. **Gweithgarwch Corfforol a Bwyta'n Iach:** Er bod yr effeithiau'n dal i ddod i'r amlwg, mae'r pandemig yn debygol o fod wedi effeithio ar allu pobl i fwyta'n dda a bod yn gorfforol actif. Mae data arolwg cenedlaethol a lleol sy'n dod i'r amlwg wedi tynnu sylw at y ffaith mai pobl o gymunedau difreintiedig yw'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan eu bod yn gwneud llai o weithgarwch corfforol, yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau ac effeithiwyd ar y gallu i fforddio bwyd.
5. **Ansawdd Aer:** Gostyngodd lefelau NO2 yn sylweddol o ganlyniad i'r cyfnodau clo a gyflwynwyd yn ystod pandemig Covid-19. Roedd hyn yn gysylltiedig â gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn teithio mewn ceir i'r gwaith a chanolfannau siopa, a chynnydd mewn cerdded a beicio yn ystod y cyfnodau hyn. Nid yw'n glir ar hyn o bryd beth fydd y patrymau teithio yn y tymor canolig a'r tymor hir wrth i ni ddod allan o'r pandemig.



Amcan Lles 1

---

Mae Caerdydd yn lle  
gwych i gael eich magu

---

## Trosolwg

Mae Caerdydd eisoes yn lle da i lawer o'i phlant a'i phobl ifanc gael eu magu ynddo, gyda system ysgol sy'n gwella'n gyflym ochr yn ochr â'r manteision y mae prifddinas yn ei chynnig fel amrywiaeth eang o gyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Mae gan Gaerdydd hefyd dreftadaeth gyfoethog o seilwaith gwyrdd sy'n caniatáu i blant gysylltu â'r byd natur a chwarae. Drwy ymrwymiad ein dinas i ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant, mae Caerdydd yn arwain y ffordd wrth sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael lleisio ei farn ac yr ystyrir ei anghenion, gydag ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau'r plentyn wedi ei ymgorffori yn y system ysgolion, ond hefyd ar draws pob agwedd ar wasanaethau cyhoeddus a bywyd dinesig.

Mae cyrhaeddiad addysgol wedi codi bob blwyddyn yng Nghaerdydd ers 2012 ac mae ysgolion Caerdydd bellach ymhlith y rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru. Fodd bynnag, fel yn genedlaethol, mae bwlch sylweddol o hyd mewn canlyniadau addysgol rhwng disgyblion o deuluoedd incwm isel a'r rheini o gefndiroedd mwy cefnog yng Nghaerdydd.

Er mai Caerdydd yw calon fasnachol economi Cymru ac mae'n cynnwys llawer o gymunedau mwyaf llewyrchus y wlad, mae un o bob pump o blant o dan 16 oed yn byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol. Gall tyfu mewn tldi effeithio'n negyddol ar gyfle plentyn yn y dyfodol a'i les; a gall profiadau plentyn yn gynnar, cyn mynd i'r ysgol arwain at oedi yn natblygiad sgiliau iaith, emosiynol a chymdeithasol ac iechyd wael yn gyffredinol.

Mae iechyd a lles ym mlynnyddoedd cynnar plentyndod yn effeithio'n arbennig ar ganlyniadau hirdymor. Er bod lefelau iechyd cyffredinol plant yng Nghaerdydd yn dda, mae plant sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o ddioddef canlyniadau iechyd gwaeth heddiw a dangos symptomau sy'n awgrymu iechyd gwael yn y dyfodol, megis gordewdra a chyfraddau imiwneiddio isel.

Fel bob awdurdod lleol ledled y DU, mae Gwasanaethau Plant Caerdydd wedi bod yn destun pwysau difrifol a sbardunwyd gan ystod o ffactorau, yn enwedig y problemau fwyfwy cymhleth sy'n wynebu teuluoedd, yn enwedig mewn amgylchedd trefol.

Mae cefnogi pobl ifanc i mewn i waith, addysg bellach neu hyfforddiant yn brif flaenoriaeth i'r ddinas. Nid yw'r gost o beidio â mynd i'r afael â'r mater hwn yn gost economaidd yn unig; mae hefyd yn effeithio ar lefelau diweithdra, trosedd, iechyd a lles. Mae nifer y rhai sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn cymharu'n ffafriol â Dinasoedd Craidd eraill ac mae ar duedd tuag i lawr. Mae nifer y rhai sy'n gadael ysgol Blwyddyn 11 ac sy'n NEET yn parhau i fod yn rhy uchel ond mae'n gostwng.

At hynny, er nad yw effaith lawn pandemig Covid-19 ar blant Caerdydd wedi'i chofnodi na'i deall yn llawn eto ac er bod plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn llai agored i Covid-19 yn gyffredinol nag oedolion, mae'r feirws wedi tarfu'n sylweddol ar eu bywydau bob dydd. Mae plant a phobl ifanc yn arbennig wedi profi newidiadau sylweddol i addysg, wrth i ysgolion gau am nifer o gyfnodau estynedig gan arwain at ddysgu ar-lein, gwahanu oddi wrth ffrindiau a theuluoedd estynedig, a diffyg mynediad at weithgareddau hamdden a chwaraeon yr oeddent yn eu mwynhau o'r blaen.

## Poblogaeth: Plant a Phobl Ifanc

Amcangyfrifir bod 67,995 o bobl iau (0-15 oed) yn byw yng Nghaerdydd, sef 18.4% o'r boblogaeth. Mae nifer y plant a phobl ifanc (0-15 oed) wedi'u crynhoi'n fwy yn wardiau deheuol allanol Caerdydd, gyda niferoedd arbennig o uchel yn Grangetown (4,410), Trowbridge (4,227) a Threlái (4,156). At hynny, mae amrywiaeth cynyddol ym mhoblogaeth ifanc y ddinas, gyda 22.4% o'r rhai 0-19 oed yn nodi eu bod yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig.

Mae amcanestyniadau poblogaeth cyffredinol yn rhagweld y bydd twf yn arafu dros y 25 mlynedd nesaf, gyda gostyngiad yn y categori oedran 0-15. Rhagwelir cynnydd yn y categori oedran 16-64, ond bydd yn cyfrif am ganran lai o gyfanswm y boblogaeth.

Rhagwelir y bydd heriau digonolrwydd lleol wrth i nifer y dysgwyr mewn ysgolion uwchradd gyrraedd ei lefel uchaf, gyda heriau tymor byr i ganolig i ddiwallu anghenion darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).



## <sup>2</sup> Digonolrwydd Gofal Plant a Meithrinfeydd

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Cyngor Caerdydd ei Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Meithrinfeydd drafft ar gyfer ymgynghori.

Mae canfyddiadau cychwynnol Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant drafft Caerdydd yn dangos bod digon o ofal plant ar draws Caerdydd ar y cyfan i ddiwallu anghenion rhieni fel y gallant weithio a/neu ymgymryd â hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos bod rhywfaint o alw heb ei fodloni mewn

rhai ardaloedd, mewn gwasanaethau gofal plant penodol ac mewn mathau penodol o ddarpariaeth gofal plant. Mae hefyd yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i hyrwyddo'r cymorth ariannol sydd ar gael i helpu i dalu am ofal plant a sicrhau bod mwy o sectorau a lleoliadau yn gwbl ymwybodol o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'u cyfrifoldebau. Mae'n codi pryderon ynghylch recriwtio a chadw staff gofal plant cymwysedig ledled y ddinas.

O ran y galw heb ei fodloni, mae lefelau is o ddarpariaeth gofal plant yn Nwyrain Caerdydd o gymharu â

Caerdydd yn gyffredinol. Mae pocedi eraill hefyd o alw posibl heb ei fodloni am wasanaethau penodol mewn pedair Ardal Cynllunio Cymdogaethau arall: Gogledd Caerdydd, Canol a De Caerdydd, De Orllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd.

Mae'r data hefyd yn nodi bod galw posibl heb ei fodloni am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg (sesiynau bore) yng Ngogledd Caerdydd, gofal diwrnod llawn a sesiynau Cylch Meithrin yng Ngorllewin Caerdydd a gofal ar ôl ysgol yng Nghanol a De Caerdydd, De-orllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd.

## Ysgolion Caerdydd

Mae Caerdydd yn cynnal 127 o ysgolion:

- 3 ysgol feithrin
- 98 ysgol gynradd
- 18 ysgol uwchradd
- 7 ysgol arbennig

Ym mis Ebrill 2021, roedd 56,943 o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd, cynnydd o 3,169 ers mis Ionawr 2016. O'r rhain:

- Roedd 25.05 % yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cynnydd o 19.28 % yn 2016)
- Roedd gan 16.59 % Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) cofrestredig
- Roedd gan 3.76 % (22.69 % o'r garfan AAA) ddatganiad
- Roedd Saesneg yn iaith ychwanegol i 23.2 %
- Roedd 35.14 % yn dod o Grŵp Lleiafrifoedd Ethnig
- Cofnodwyd 164 o ieithoedd cyntaf




<sup>2</sup> Mae gofal plant yn cyfeirio at ddarparwyr gofal plant, megis gwarchodwyr plant, gofal dydd llawn, clybiau ar ôl ysgol, gofal dydd sesiynol, a darparwyr gofal plant yn y cartref (nanis).



## Ysgol Gynradd

Mae perfformiad ysgolion cynradd yn y Cyfnod Sylfaen wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae canran y disgyblion o 7 i 11 oed (Cyfnod Allweddol 2) y mae disgwyl iddynt gyflawni'r canlyniadau disgwyledig bellach yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Yn 2017, cyflawnodd 89.4% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 y L4+ disgwyledig<sup>3</sup>, gan roi Caerdydd yn safle rhif 14 allan o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru.

**Canran y Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 sy'n Cyflawni'r Lefel Ddisgwyledig (L4+) yn y Dangosydd Pwnc Craidd, 1999-2017**



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## Cyrhaeddiad Addysgol


Mae cyrhaeddiad addysgol yng Nghaerdydd wedi'i nodweddau gan welliant parhaus o flwyddyn i flwyddyn, gyda lefelau cyrhaeddiad bellach yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer nifer o ddangosyddion allweddol. Er bod cyflwyno fframwaith perfformiad cenedlaethol newydd yn golygu nad oes data cymharu cenedlaethol o flwyddyn i flwyddyn ar gael, mae perfformiad cyffredinol ysgolion Caerdydd wedi dangos gwelliant nodedig dros y pum mlynedd diwethaf. Ceir tystiolaeth o hyn yng ngoleuni canlyniadau arolwg Estyn, categoreiddio cenedlaethol a chyrhaeddiad ar draws pob cyfnod allweddol o addysg o gymharu â Chonsortium Canolbarth y De (CCD) a chyfartaleddau



## Ysgol Uwchradd

Mae perfformiad TGAU hefyd yn parhau i wella. Yn 2018/19<sup>4</sup>, cyflawnodd 58.2% y Trothwy Lefel 2, gan roi Caerdydd yn y chwarter uchaf.

**Canran y Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n Cyrraedd Trothwy Lefel 2, gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg, yng Nghaerdydd, 2018/19**



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru



<sup>3</sup> Nid yw'r dangosydd hwn yn cael ei gyhoeddi mwyach.

<sup>4</sup> Ni ellir cymharu data â blynyddoedd blaenorol mwyach oherwydd newidiadau i ddiffiniadau.

## Bylchau mewn Deilliannau

Mae'r data'n nodi'n glir bod rhai grwpiau o ddysgwyr nad ydynt yn cyflawni'r deilliannau disgwylidig. Er bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud o ran gwella deilliannau addysgol grwpiau allweddol o ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni, mae'r deilliannau ar gyfer rhai grwpiau yn parhau'n rhy isel.


**Plant sy'n Derbyn Gofal:** Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, cyflawnodd 34 o'r 48 o blant sy'n derbyn gofal gan Gyngor Caerdydd y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) (70.83%). Mae hyn yn cymharu â 32 allan o 38 o blant yn 2018 (84.2%). O'r plant a addysgwyd yn ysgolion Caerdydd (36 o'r 48), cyflawnodd 27 y DPC (75%).

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, cyflawnodd 6 o'r 78 o blant sy'n derbyn gofal gan Gyngor Caerdydd y trothwy Lefel 2+ (7.7%). Mae hyn yn cymharu â 7 allan o 49 yn 2018 (14.3%). Roedd 52 (o'r 78) mewn ysgolion Caerdydd a chyflawnodd 5 y trothwy Lefel 2+ (9.6%). Cyflawnodd 14 o'r 52 disgybl (27%) dros 353 o bwyntiau yn y mesur Capio 9 newydd.

**Prydau Ysgol Am Ddim:** Er bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgyblion hynny o deuluoedd incwm isel a'r rhai o gefndiroedd mwy cefnog wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwahaniaeth o 13 pwynt canran o hyd mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (disgyblion PYADd) a disgyblion nad

ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r bwlch hyd yn oed yn fwy, gyda gwahaniaeth o 32 pwynt canran rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 32.2%.

### Canran y disgyblion yng Nghaerdydd a gyflawnodd y Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2: Prydau Ysgol am Ddim v Ddim yn Gymwys am Brydau Ysgol, 2010-2017



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Bwlch Rhwng y Rhywiau:** Yn y cyfnod cynradd, roedd merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob pwnc/maes dysgu craidd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, fel sy'n wir yn genedlaethol. Yng Nghyfnod Allweddol 4, roedd merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob un o'r mesurau newydd eleni. Y bylchau mwyaf mewn perfformiad yw

Llythrennedd, lle cyflawnodd merched radd 0.85 yn uwch na bechgyn, a'r Dystysgrif Her Sgiliau lle cyflawnodd merched bron i radd yn uwch na bechgyn. Mae perfformiad Bechgyn Gwyn Prydeinig sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn arbennig o nodedig yng Nghyfnod Allweddol 4, sy'n arbennig o isel.

**Disgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY):** Mae nifer y disgyblion AHY yng Nghaerdydd dros y pum mlynedd diwethaf wedi cynyddu 52.4%, o 204 yn 2015 i 311 yn 2019<sup>5</sup>.

Mae rhagor o wybodaeth am berfformiad a deilliannau addysg dysgwyr yng Nghaerdydd i'w gweld yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol Addysg (2018/19) diweddaraf.

## Presenoldeb mewn Addysg

Mae'n anodd mesur tueddiadau presenoldeb, yn enwedig o ganlyniad i bandemig Covid-19 – ers mis Mawrth 2020, nid yw Hysbysiadu Cosb Benodedig wedi'u rhoi i rieni a gofalwyr, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd presenoldeb yn 2020/21 yn parhau i fod yn gymysg ar draws ysgolion o ganlyniad i'r pandemig, gyda mwy o achosion o'r Coronafeirws a nifer y dysgwyr yn gorfod ynysu.




<sup>5</sup> Mae'r nifer hon yn cynnwys disgyblion AHY sydd ond wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol, y rhai a addysgir yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol gydag ysgolion.

## Gwaharddiadau Ysgol<sup>6</sup>

### Gwaharddiadau Parhaol

Mae gwaharddiadau parhaol yng Nghaerdydd wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall ers 2016/17. Yn 2019/20, Caerdydd oedd â'r chweched gyfradd uchaf o waharddiadau parhaol ymhlith Awdurdodau Lleol Cymru, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.

**Gwaharddiadau Parhaol o Ysgolion a Gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (Cyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion), 2019/20<sup>7</sup>**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Gwaharddiadau Tymor Penodol

Yn 2019/20, Caerdydd oedd â'r gyfradd isaf ond un o waharddiadau cyfnod penodol a oedd yn para 5 diwrnod neu lai ymhlith Awdurdodau Lleol Cymru. Mae'r gyfradd wedi bod yn dilyn tuedd ar i lawr ac mae wedi aros yn llawer is na ffigur Cymru ers 2016/17.

**Gwaharddiadau Cyfnod Penodol (5 Diwrnod neu Lai) o Ysgolion a Gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (Cyfradd am bob 1,000 o ddisgyblion), 2011/12 i 2019/20**



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


## Nifer y Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

### Blwyddyn 11

Cyfradd y bobl a adawodd ysgol ym Mlwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant oedd 2.1%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 1.7%. O 2008, gwelodd Caerdydd duedd ar i lawr yn nifer y rhai sy'n gadael ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – yn unol â'r duedd ar draws Cymru gyfan. Gostyngodd y gyfradd o 10.6% yn 2008 i 1.6% yn 2017.

### Blwyddyn 13

Yn wahanol i'r rhai sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11, mae canran Caerdydd o'r rhai sy'n gadael ysgol ym mlwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ymhell islaw cyfartaledd Cymru (2.6% o gymharu â 3.5%).



<sup>6</sup> O ganlyniad i'r pandemig, caewyd ysgolion rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mehefin 2020. Roedd hyn yn golygu nad oedd bron unrhyw waharddiadau yn ystod y cyfnod hwnnw, sydd wedi effeithio ar niferoedd y gwaharddiadau cyffredinol.

<sup>7</sup> Mae'r ffigurau ar gyfer Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Powys, Bro Morgannwg wedi'u datgelu.



## Plant o Deuluoedd Incwm Isel

Caerdydd sydd â'r drydedd ganran isaf o blant o deuluoedd incwm isel cymharol ymhlith Dinasoedd Craidd y DU. Fodd bynnag, mae un plentyn ym mhob pump dan 16 oed yn byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol. Ers 2016/17, mae'r ganran wedi cynyddu, gyda chynnydd amlwg yn 2019/20 (o 18.7% i 20.7%).

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant o deuluoedd incwm isel yn fwy tebygol o fod â theimladau o unigedd, cael eu tynnu i mewn i ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau neu ddioddef effeithiau troseddau. Mae plant o deuluoedd incwm isel hefyd yn fwy tebygol o ddioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac mae cyfraddau'r plant yr ystyrir iddynt fod mewn perygl, sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant, neu sy'n cael eu rhoi mewn gofal, yn llawer uwch yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas.

## Iechyd Plant


Cydnabyddir bod y blynyddoedd cynnar yn hanfodol o ran gosod y sylfeini ar gyfer iechyd, cyflawniad a lles ar gyfer y dyfodol. Gall profiad a pherthynas plentyn yn eu blynyddoedd ffurfiannol, yn ogystal â'r hyn y maent yn ei fwyta a'i iechyd cyffredinol, gael effeithiau hirdymor enfawr.

## Plant o Bwysau Iach

Mae data'r Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol ar gyfer 2018/19 yn dangos bod y rhan fwyaf o blant 4-5 oed o bwysau iach yng Nghaerdydd (76%). Mae Caerdydd yn perfformio'n dda o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru (mae Caerdydd yn bedwerydd o ran canran y plant 4-5 oed o bwysau iach) ac mae wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru yn gyson ers 2012. Fodd bynnag, mae dros un rhan o bump o blant 4 neu 5 oed yng Nghaerdydd dros eu pwysau neu'n ordew (24%).

Mae gwahaniaeth o 11 pwynt canran wrth gymharu cymunedau lleiaf/mwyaf difreintiedig Caerdydd, gyda'r bwlch yn cynyddu o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Canran y Plant (dan 16 oed) sy'n Byw mewn Teuluoedd Incwm Isel Cymharol, 2014/15 – 2019/20



Ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau/CThEM

## Brechiadau yn Ystod Plentyndod


Mae tueddiadau hirdymor o ran nifer y plant sy'n cael eu brechu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro yn parhau i fod yn weddol sefydlog; mae'r nifer sy'n cael eu brechiadau yn gyson is na'r targed o 95% ar gyfer y rhan fwyaf o'r brechiadau.

Wrth edrych ar ddata 2019 i 2020, ar draws pob grŵp oedran yng Nghaerdydd a'r Fro, mae cysylltiad rhwng plant sy'n byw mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol mwy difreintiedig a llai o bobl yn dewis brechu eu plant. Mae anghydraddoldeb mewn perthynas ag oedran hefyd o ran nifer y bobl sy'n cael eu brechu; o gymharu â gweddill Cymru, mae'r nifer sy'n cael eu brechu yn eu harddegau yng Nghaerdydd a'r Fro yn sylweddol is.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar amseroldeb brechu, er bod arwyddion bod hyn yn dechrau gwella.

O ran y brechiad MMR2, Caerdydd sydd â'r cyfraddau isaf yng Nghymru, sef 87.4%. Nid oes yr un awdurdod lleol yng Nghymru yn cyrraedd y targed o 95% ar hyn o bryd. Mae lefelau arbennig o isel o frechu yng nghlwstwr Meddygon Teulu Canol a De Caerdydd a gwelwyd gostyngiad yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r dystyrau sy'n perfformio orau yng Nghaerdydd yn dal i fod yn is na'r targed cenedlaethol.

Brechlyn MMR2 mewn Plant sy'n troi'n 4 oed rhwng 01/04/2019 a 31/03/2020 ac yn preswyllo ar 31/03/2020 (%), 2019/20 (Awdurdodau Lleol Cymru)



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Plant sy'n Cyrraedd neu'n Rhagori ar eu Cerrig Milltir Datblygiadol

Mae Caerdydd ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan o ran canran y plant Dechrau'n Deg sy'n rhagori ar eu cerrig milltir datblygiadol yn 3 oed (49%). Mae hyn yn golygu nad yw bron i hanner plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd cerrig milltir datblygiadol yn 3 oed.

## Beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau

Mae Caerdydd yn cymharu'n dda â Dinasoedd Craidd ac Awdurdodau Lleol Cymru, gyda lefel isel o ferched sy'n beichiogi dan 18 oed (13.9 fesul 1,000 o fenywod). Mae Caerdydd wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn merched sy'n beichiogi dan 18 oed dros amser (i lawr o bron i 50 fesul 1,000 yn 2008)

Mae cyfradd uwch o ferched sy'n beichiogi dan 18 oed yn 'Arc Ddeheuol' Caerdydd o gymharu â gweddill y ddinas.

## Lles Meddyliol

Mae lles meddyliol mewn plant 11-16 oed yn debyg ar draws Awdurdodau Lleol Cymru. Mae Caerdydd yn hafal i gyfartaledd Cymru gyfan.

Mae'n berthnasol nodi, fodd bynnag, bod y pandemig wedi cael effaith negyddol sylweddol yng Nghymru ar iechyd meddwl a lles. Yn cyd-daro ag ailagor ysgolion yn dilyn y cyfnod clo diweddaraf

yn sgil Covid-19 (a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2021), bu cynnydd sylweddol yn nifer y Plant a Phobl Ifanc sy'n datgan problemau iechyd emosiynol a meddyliol, gyda chynnydd mewn derbyniadau deifion mewnol ac atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasod (CAMHS) a'r Gwasanaethau Plant. Yn ogystal, mae nifer uchel o bobl ifanc sy'n ymwneud â gwaith ieuencid ar y stryd sy'n nodi iechyd fel pryder.

## Plant yn Beicio neu'n Cerdded i'r Ysgol

Ers 2014, mae canran y plant sy'n beicio neu'n cerdded i'r ysgol wedi cynyddu'n gyson. Mae ychydig dros hanner y plant yng Nghaerdydd yn teithio'n llesol i'r ysgol (51.5%).

Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i hyrwyddo a chefnogi teithio llesol yn y ddinas. Mae gan bron bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol ar waith erbyn hyn, sy'n benodol i bob ysgol, ac mae dros 11km o lonydd beicio newydd wedi'u creu ers 2017. Mae'r cynlluniau'n chwarae rhan allweddol wrth helpu plant, rhieni a staff i feddwl am ffyrdd eraill o hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno heb orfod dibynnu ar y car. Mae'r dull hwn sydd wedi'i deilwra yn chwarae rhan allweddol wrth newid y ffordd y mae pobl yn teithio o amgylch y ddinas, yn helpu i lanhau'r aer ac yn lleihau'r effaith y mae Caerdydd yn ei chael ar yr argyfwng hinsawdd.


Mae hyrwyddo teithio llesol hefyd yn annog plant i dreulio amser a chwarae yn yr awyr agored, mewn mannau gwyrdd o safon y ddinas. Gwelwyd bod cysylltiad cynyddol â natur, yn ogystal â mwy o weithgarwch corfforol, yn arwain at nifer o fanteision iechyd a lles.

## Data'r Gwasanaethau Plant

### Dadansoddiad o Lwyth Achosion

Ers 2017, bu cynnydd yn y llwyth achosion ar draws y Gwasanaethau Plant, o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd at y Gofrestr Amddiffyn Plant a nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal. Ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, bu cynnydd penodol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth.

Dadansoddiad o Lwyth Achosion Dros Amser, 2017-2021



Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd

<sup>8</sup> Gellir cymharu Awdurdodau Lleol gan ddefnyddio Graddfa Lles Meddyliol Fer Warwick Caeredin (SWEMWBS).

## Digonolrwydd Lleoliadau

Cydnabyddir bod angen symud cydbwysedd y gofal o ofal maeth preswyl, diogel, cost uchel, wedi'i brynu i ymyrraeth gynnar lle mae nifer gynyddol o blant yn cael eu cefnogi i aros gyda'u rhieni a'u teulu estynedig


yn ddiogel neu, os oes angen, gofalwyr maeth Cyngor Caerdydd.

Mae dadansoddiad o'r data yn cyfeirio at dueddiadau calonogol o ran y newid yng nghydbwysedd y gofal yng Nghaerdydd. Bu cynnydd yn nifer y gofalwyr sy'n berthnasau a gofalwyr

maeth mewnol, yn enwedig o ran nifer y maethu mewnol ar gyfer plant oedran cyn ysgol a chynradd. Fodd bynnag, mae problemau o hyd o ran cynyddu lleoliadau preswyl i bobl ifanc yn eu harddegau sydd â phroblemau cymhleth iawn.


### Cyfanswm y Plant sy'n Derbyn Gofal yn ôl Math o Leoliad, 2016 v 2021

2016



Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd

2021




Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd



## Nifer y bobl 16-24 oed sy'n hawlio budd-daliadau

Cyfradd y bobl ifanc 16-24 oed sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghaerdydd yw'r pedwerydd isaf ymhlith Dinasoedd Craidd y DU ac Awdurdodau Lleol Cymru ac mae'n is na chyfartaledd Cymru. Mae'n hanner y cyfraddau a geir yn Birmingham a Chasnewydd.

Nifer y Bobl sy'n Hawlio Budd-daliadau (Poblogaeth 16-24 oed), Hydref 2021 (Dinasoedd Craidd y DU)



## Pobl ifanc a Throseddau

Cydnabyddir bod plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn darged meithrin perthnasau amhriodol ar-lein a chamfanteisio, yn enwedig os ystyrir eu bod mewn mwy o berygl neu'n agored i niwed. Mae ymatebion i'r

Arolwg Caerdydd sy'n Dda i Blant yn gyson yn rhoi ofn troseddau – yn enwedig troseddau cyllyll – fel un o'r prif resymau dros deimlo'n anniogel mewn cymdogaethau. Yn arolwg 2019, cafodd 'Rhoi terfyn ar droseddau cyllyll' ei raddio gan ymatebwyr fel y mater pwysicaf i Gymru.

Mae nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuencid am y tro cyntaf – plant 0 i 17 oed sy'n cael eu rhybudd ieuencid cyntaf neu ddedfryd llys yn ystod cyfnod penodol – wedi gostwng ers 2016/17, gyda gostyngiad sylweddol yn 2020/21.

Yn ôl Asesiad Anghenion Strategol y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid (2021-2022), mae sawl ffactor sy'n ymddangos fel petaent yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd person ifanc yn ymwneud â throseddau. Mae hyn yn cynnwys:

**Bod yn wrywaidd;** dynion sydd ynghlwm wrth 84% o'r holl achosion


**Byw yn 'Arc Ddeheuol' Caerdydd;** mae'r rhain yn ardaloedd o amddifadedd uwch, yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Mae cydberthynas rhwng preswylfa troseddau ifanc a lefelau uwch o amddifadedd.

**Ymwneud â'r Gwasanaethau Plant;** Mae Plant sy'n Derbyn Gofal 6 gwaith yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuencid.

**Cael dedfryd neu gollfarn flaenorol;** mae tua 27% o'r ad-droseddau yn gyfrifol am dros hanner yr arestadau.

**Dioddef Profiadau Plentyndod Negyddol (PPN);** mae bron i hanner (49%) y troseddau mynych yn dod o deulu sydd â hanes o drais.

Y nifer sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuencid am y tro cyntaf, 2016/17 i 2020/21



Ffynhonnell: Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd

**Yn ymwneud â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyffuriau,** a all arwain at gysylltiad pellach ag ymddygiad treisgar fel troseddau cyllyll.

Ceir mewnwelediad pellach i ddata aildroseddau drwy Asesiad o Anghenion Uned Atal Trais Cymru, ar ôl i'r Uned gomisiynu Barnardo's a Phrifysgol Caerdydd i gyd-gynhyrchu'r asesiad gyda phobl ifanc. Dywedodd y troseddau

ifanc fod aildroseddau yn fwy tebygol ar ôl eu rhyddhau os na allant drosglwyddo i garchar sy'n fwy lleol i'w cartref. Heb fynediad at gymorth, mae'n debygol y byddant yn dychwelyd i'w ffordd o fyw droseddol flaenorol, gan eu bod yn teimlo nad oes dewis arall. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth parod, hawdd ei gyrraedd ac ystyrlon i'r garfan hon.

## CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL

- **Twf poblogaeth plant a phobl ifanc yn arafu:** Ym mis Ebrill 2021, roedd 56,943 o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd, cynnydd o 3,169 ers mis Ionawr 2016. Fodd bynnag, mae amcanestyniadau poblogaeth cyffredinol yn rhagweld y bydd twf yn arafu dros y 25 mlynedd nesaf, gyda gostyngiad yn y categori oedran 0-15. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd heriau digonolrwydd lleol wrth i nifer y dysgwyr mewn ysgolion uwchradd gyrraedd ei lefel uchaf, gyda heriau tymor byr i ganolig i ddiwallu anghenion darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- **Gwella amrywiaeth ym mhoblogaeth ifanc y ddinas:** Yng Nghaerdydd, mae 22.4% o'r rhai rhwng 0 a 19 oed yn nodi eu bod yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig.
- **Digonolrwydd gofal plant:** Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn dangos bod digon o ofal plant ar y cyfan ledled Caerdydd i ddiwallu anghenion rhieni fel y gallant weithio a/neu gymryd rhan mewn hyfforddiant. Fodd bynnag, mae rhywfaint o alw nas diwallwyd mewn rhai ardaloedd, ac mae angen gwneud gwaith i hyrwyddo'r cymorth ariannol sydd ar gael i helpu i dalu am ofal plant.
- **Cynnydd da mewn cyrhaeddiad addysgol, ond mae bylchau o hyd i grwpiau penodol o ddysgwyr:** Mae cyrhaeddiad addysgol wedi codi bob blwyddyn yng Nghaerdydd ers 2012 ac mae ysgolion Caerdydd bellach ymhlith y rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae bwlch sylweddol o hyd mewn deilliannau addysg grwpiau poblogaeth penodol, gan gynnwys:
  - Disgyblion o deuluoedd incwm isel
  - Plant sy'n Derbyn Gofal
  - Plant sy'n Cael eu Haddysg Heblaw yn yr Ysgol
  - Bechgyn Gwyn Prydeinig o Ardaloedd o Amddifadedd Uwch
- **Effaith Tlodi Plant:** Mae un rhan o bump o blant dan 16 oed yn byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol yng Nghaerdydd. Mae effaith hyn yn amlwg wrth ystyried deilliannau addysgol is disgyblion o deuluoedd incwm isel yng Nghaerdydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant o deuluoedd incwm isel yn fwy tebygol o fod â theimladau o unigedd, cael eu tynnu i mewn i ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau neu ddioddef effeithiau troseddau. Mae plant o deuluoedd incwm isel hefyd yn fwy tebygol o ddioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod ac mae cyfraddau'r plant yr ystyrir iddynt fod mewn perygl, sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant, neu sy'n cael eu rhoi mewn gofal, yn llawer uwch yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas.
- **Iechyd Plant:** Gall profiadau a pherthnasoedd plentyn yn eu blynyddoedd ffurfiannol gael effeithiau hirdymor. Er bod lefelau cyffredinol Iechyd Plant yn dda yng Nghaerdydd:
  - Mae dros un rhan o bump o blant 4 neu 5 oed yng Nghaerdydd dros eu pwysau neu'n ordew
  - Nid yw bron hanner plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd cerrig milltir datblygiadol 3 oed.
  - Mae'r nifer sy'n cael brechiadau plentynod yn gyson is na'r targed o 95% ar gyfer y rhan fwyaf o'r imiweiddiadau sydd wedi'u hamserlennu. Mae cysylltiad hefyd rhwng plant sy'n byw mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol mwy difreintiedig a llai o bobl yn dewis cael eu brechu. At hynny, mae nifer y plant yn eu harddegau sy'n cael eu brechu yng Nghaerdydd a'r Fro yn sylweddol is o gymharu â gweddill Cymru.
- **Llwyth achosion cynyddol y Gwasanaethau Plant:** Ers 2017, bu cynnydd mewn llwyth achosion, o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd at y Gofrestr Amddiffyn Plant a nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.
- **Cefnogi pobl ifanc i mewn i waith, addysg neu gyflogaeth:** Mae cefnogi pobl ifanc i mewn i waith, addysg bellach neu hyfforddiant yn brif flaenoriaeth i'r ddinas. Rhaid i'r ddinas barhau i feithrin perthynas gref rhwng ysgolion, cyflogwyr a phartneriaid addysg bellach Caerdydd i gefnogi pobl ifanc i gael swyddi a gyrfaedd da.
- **Pobl ifanc a throseddau:** Cydnabyddir bod plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn darged meithrin perthnasau amhriodol ar-lein a chamfanteisio, yn enwedig os ystyrir eu bod mewn mwy o berygl neu'n agored i niwed. Mae sawl ffactor sy'n dueddol o gynyddu'r tebygolrwydd y bydd person ifanc yn ymwneud â throseddau, gan gynnwys:
  - Bod yn wrywaidd
  - Byw yn 'Arc Ddeheuol' Caerdydd/ ardaloedd o amddifadedd uwch
  - Yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant
  - Wedi cael dedfryd neu gollfarn yn flaenorol
  - Wedi dioddef Profiad Plentynod Niweidiol (PPN)
  - Yn ymwneud â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyffuriau, a all arwain at gysylltiad pellach ag ymddygiad treisgar fel troseddau cylllyl.

## Effaith Covid-19:

- Er bod plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn llai agored i Covid-19 yn glinigol ar y cyfan nag oedolion, mae'r feirws wedi tarfu yn sylweddol ar eu bywydau bob dydd. Mae plant a phobl ifanc yn arbennig wedi profi newidiadau sylweddol i addysg, wrth i ysgolion gau am nifer o gyfnodau estynedig gan arwain at ddysgu ar-lein, gwahanu oddi wrth ffrindiau a theuluoedd estynedig, a diffyg mynediad at weithgareddau hamdden a chwaraeon yr oeddent yn eu mwynhau o'r blaen. Fel y nododd un ymatebydd i Ymgynghoriad Cyllideb 2021, *"Nid ydym yn siŵr o gyfanswm yr effaith y bydd COVID yn ei chael ar blant o bob oed yng Nghaerdydd. Mae ysgolion fy mhiant wedi gwneud gwaith anhygoel, ond rhaid inni barhau i'w cefnogi i helpu ein plant. Bydd angen mwy o wasanaethau cymorth, TG a newidiadau i adeiladau ysgolion i gael mwy o le ar blant."*
- I blant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed y ddinas, mae effaith y pandemig wedi bod yn fwy, gan ehangu anghydraddoldebau ymhellach. Mae plant sydd fwyaf agored i niwed yn cynnwys: plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig; dysgwyr cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref; plant nad oes ganddynt fynediad at y rhyngwrwyd; plant ag oedi datblygiadol; a phlant o ardaloedd difreintiedig, yn enwedig y rhai nad oes mannau awyr agored ar gael iddynt. Mae'r pandemig wedi cynyddu amlygiad plant Cymru i Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (VAWDASV), a adlewyrchir gan gynnydd mewn galwadau i linellau cymorth.
- Mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol sylweddol yng Nghymru ar iechyd meddwl a lles, gydag unigrwydd, arwahanrwydd a straen ar rieni yn cyfrannu at hyn. Yn cyd-daro ag ailagor ysgolion yn dilyn y cyfnod clo diweddaraf, bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n datgan problemau iechyd emosiynol a meddyliol. Roedd pobl ifanc yn fwy agored i effeithiau cyfyngiadau'r pandemig ar iechyd meddwl na phlant iau neu oedolion hŷn; yn ogystal â phobl ifanc nad oeddent mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, a phobl o ardaloedd mwy difreintiedig.



Amcan Lles 2

---

Mae Caerdydd yn lle  
gwych i dyfu'n h n

---

## Trosolwg

Mae sut mae cymdeithas yn trin pobl wrth iddynt heneiddio yn adlewyrchu ei gwerthoedd a'i hegwyddorion, ac yn anfon neges bwysig i genedlaethau'r dyfodol. Uchelgais Caerdydd yw i'r ddinas fod yn lle gwyh i heneiddio, lle mae pobl hŷn wedi'u grymuso'n fwy, lle maent yn iachach ac yn hapusach, gan dderbyn cymorth gan wasanaethau cyhoeddus a chymunedol rhagorol a lle maent yn rhan o bob agwedd ar fywyd gymunedol. Mae hyn hefyd yn cynnwys cydnabod ac adeiladu ar y cryfderau y mae pobl hŷn yn eu cynnig i gymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli, rhannu gwybodaeth a sgiliau, yn ogystal ag ymdeimlad o gymuned.

Wrth i'r boblogaeth sy'n hŷn barhau i dyfu, mae'r ddinas wedi cydnabod pwysigrwydd cynllunio cymunedau newydd mewn ffordd sy'n diwallu anghenion pobl hŷn, gan ddatblygu opsiynau tai sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol, yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain cyhyd ag y bo modd. Mae 86.7% o bobl hŷn 65 oed a hŷn yn teimlo eu bod yn byw mewn

cartref sy'n cefnogi eu lles orau, gyda bron i bedair rhan o bump yn teimlo eu bod yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth. Mae Gwasanaeth Byw'n Annibynnol Caerdydd wedi bod yn arbennig o hanfodol o ran helpu pobl hŷn i gael gafael ar y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo ac mae wedi hwyluso ymyriadau ataliol sy'n grymuso pobl hŷn i heneiddio'n dda a byw eu bywydau eu hunain, yn eu cartrefi eu hunain.

Er y gellir gweld llwyddiant yn y meysydd hyn, mae'r pandemig Covid-19 wedi bod yn risg fawr i bobl hŷn yn y ddinas, a nhw sydd wedi dioddef fwyaf yn ei sgil. Mae hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid i lawer o bobl hŷn yn y ddinas, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Er mwyn ymateb i'r her y mae'r pandemig wedi'i chyflwyno, ac i sicrhau bod pobl hŷn y ddinas yn gallu parhau i gael cymorth yn ddiogel, mae gwasanaethau wedi'u hail-lunio a mesurau gofal a chymorth ychwanegol wedi'u rhoi ar waith, gyda gwaith partneriaeth ac

integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y ddinas yn cael eu cymryd i lefel newydd.

Yn ogystal â'r lefel uwch o risg uniongyrchol o Covid-19, mae pobl hŷn yn aml wedi dioddef lefelau uwch o unigrwydd ac allgâu cymdeithasol o ganlyniad i'r cyfnod clo, gyda'r gwahaniad hwn oddi wrth anwyliad yn effeithio'n ddifrifol ar y rhai sy'n dioddef o glefydau fel dementia a'u teuluoedd.

Wrth i Gaerdydd wella o'r pandemig, bydd gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi pobl hŷn y ddinas, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r pwysau o ran galw a'r costau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio yn sylweddol felly, ac ni fyddant yn lleihau. Bydd dod o hyd i atebion i'r heriau hirdymor hyn yn golygu y bydd angen i'r gwasanaethau cyhoeddus weithio mewn partneriaeth agosach fyth i helpu pobl hŷn i gadw'n ddiogel, mor iach ac annibynnol â phosibl, ac i fyw bywydau sydd â gwerth, ystyr a phwrras.

## Poblogaeth: Pobl Hŷn

Amcangyfrifir bod 52,807 o bobl hŷn (65 oed a hŷn) yn byw yng Nghaerdydd, sef 14.3% o'r boblogaeth. Gogledd Caerdydd sydd â'r ganran uchaf a'r nifer fwyaf o bobl 65-84 oed (17% - 16,003 o bobl). I'r gwrthwyneb, De-ddwyrain Caerdydd sydd â'r ganran isaf o bobl 65-84 oed (sef 5.5%), ond Canol a De Caerdydd sydd â'r niferoedd isaf o bobl 65-84 oed (2,475). O edrych ar y boblogaeth 85 oed a hŷn, gweler patrwm clwstwr tebyg i bobl 65-84 oed, ond gyda niferoedd a chanrannau is. Yn gyffredinol, Gogledd Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o bobl hŷn (65 oed a hŷn).

Yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth 2018, rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yn cynyddu i 68,364 yn 2043. Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n 85 oed neu hŷn yn cynyddu hyd yn oed yn fwy sydyn, a disgwylir i'r niferoedd ddyblu yn yr 20 mlynedd nesaf – i 11,156 yn 2043.


Bydd y twf parhaus ym mhoblogaeth hŷn y ddinas yn arwain at angen am fwy o wasanaethau iechyd a bydd yn rhoi mwy o alw ar wasanaethau iechyd a gofal.

## Bodddhad Bywyd

Mae bodddhad bywyd ymhlith pobl hŷn yng Nghaerdydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.

Yn Arolwg Holi Caerdydd 2020, fodd bynnag, sgoriodd cyfran uwch o bobl hŷn (65 oed a hŷn), o gymharu â phobl dan 65 oed, eu bodlonrwydd bywyd yn 7 neu uwch allan o 10.

**Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi ar eich bywyd y dyddiau hyn? (Sgôr yn ôl Grŵp Oedran), 2020, (0-10; 0 = isaf, 10 = uchaf)**




Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd

## Cymorth yn y Gymuned

O ran pobl hŷn a gynorthwyr yn y gymuned yng Nghaerdydd, mae'r gyfradd wedi gostwng dros amser, o ychydig dros 50% yn 2006 i ychydig dan 40% yn 2019.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Pobl hŷn a gefnogir yn y gymuned, fesul 1,000 o'r boblogaeth 65+ oed, 2015




## Penderfyniadau a Wneir ynghylch Gofal a Chymorth

O ran canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth, mae bron i bedair rhan o bump yn teimlo eu bod yn cymryd rhan weithredol.

Mae'r ganran wedi aros yn weddol sefydlog ers 2017/18 - yn 2017/18 dywedodd 76.8% eu bod wedi teimlo eu bod yn cymryd rhan weithredol o gymharu â 78.9% yn 2019/20.

Canran y Bobl 65+ oed sy'n dweud eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw Benderfyniadau a Wneir am eu Gofal a'u Cymorth



Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Caerdydd


## Byw yn y Cartref Cywir

Mae gan boblogaeth sy'n heneiddio Caerdydd oblygiadau penodol o ran maint, math a lleoliad y llety sy'n benodol i'w hanghenion. Gall tai gwael neu anaddas amharu'n anghyfartal ar iechyd corfforol a meddyliol, annibyniaeth a lles pobl hŷn. Fel y dywedodd un ymatebydd i'r Ymgynghoriad ar Gyllideb 2021, "Mae pobl hŷn yn haeddu byw mewn urddas. Felly dylai byw yn eu cartrefi eu hunain fod yn flaenoriaeth a gall eu galluogi i wneud hynny mewn ffordd gefnogol fod yn fuddiol."

Amcangyfrifodd asesiad o lety tai pobl hŷn, a gynhaliwyd ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2018, fod angen 3,051 o unedau ychwanegol o lety i bobl hŷn erbyn 2035 yng Nghaerdydd, cymysgedd o dai, tai â gofal a gofal nyrsio.

Yn 2019/20, dywedodd 86.7% o ymatebwyr i Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cyngor Caerdydd eu bod yn byw yn y cartref cywir ar eu cyfer. Mae hyn yn cymharu ag 89.2% yn 2017/18.

Canran y Bobl 65+ oed sy'n dweud eu bod yn Byw yn y Cartref Cywir ar eu cyfer, 2019/20



Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Caerdydd



## Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Nod Grant Cyfleusterau i'r Anabl yw rhoi gwell rhyddid i breswylwyr symud o amgylch eu cartref. Mae'r grant yn helpu i dalu'r gost o addasu cartrefi i ddiwallu anghenion pobl.

Cafodd dros 1,000 o anheddau eu gwella drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yng Nghaerdydd yn 2018/19, y nifer uchaf yng Nghymru.

## Gwybodaeth a Chyngor

Mae bron i bedair rhan o bump o bobl 65 oed a hŷn yn teimlo eu bod yn cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo angen.

Mae'r ganran wedi gostwng ychydig ers 2017/18 - yn 2017/18 dywedodd 82.5% eu bod yn cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo angen o gymharu â 77.7% yn 2019/20.

## Unigrwydd

O ran canran y bobl 65 oed a hŷn a ddywedodd eu bod yn unig, ar gyfartaledd, dywedodd 84.9% o'r ymatebwyr eu bod yn hapus gyda'r gefnogaeth gan deulu, ffrindiau a chymdogion rhwng 2017/18 a 2019/20 (cyn y pandemig).

## Data'r Gwasanaethau Oedolion

Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn darparu ac yn trefnu gwasanaethau gofal i oedolion sydd angen cymorth, gofal neu amddiffyniad, gan gynnwys pobl sy'n gadael yr ysbyty a gofaliwyr mewn sefyllfaoedd anodd. Mae'r gwasanaethau hefyd yn darparu cymorth i helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol, fel addasiadau i'r cartref, offer cymunedol, gweithgareddau a gefnogir, yn ogystal â gwybodaeth a chyngor.

## Pecynnau Gofal a Chymorth

Mae Pecynnau Gofal a Chymorth ar gael i unrhyw un sydd angen gofal neu ofal i rywun arall.

Mae nifer y Pecynnau Gofal a Chymorth a ddarperir gan y Gwasanaethau Oedolion yng Nghaerdydd wedi gostwng yn raddol ers 2017. Ym mis Medi 2021, nifer y pecynnau Gofal a Chymorth a ddarparwyd oedd 4,425.

Nifer y Pecynnau Gofal a Chymorth, 2017-2021



Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd

## Gofal Cartref

Gelwir gofal cartref hefyd yn ofal yn y cartref. Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2019, roedd tuedd ar i lawr yn gyffredinol yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth Gofal Cartref. Rhwng mis Mawrth 2019 a mis Tachwedd 2019, cynyddodd nifer y defnyddwyr gwasanaeth rywfaent (gan gyrraedd y brig ym mis Tachwedd 2019), cyn gostwng eto tan fis Mai 2020. Ers mis Mai 2020, mae nifer y defnyddwyr gwasanaeth wedi cynyddu'n gyffredinol, o 2,349 i 2,485 ym mis Medi 2021, gan dynnu sylw at gynnydd yn y galw ers i'r pandemig ddechrau.

Dros yr un cyfnod, mae nifer yr oriau gofal a ddarperir wedi gostwng yn gyffredinol, gyda gostyngiad amlwg rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Chwefror 2021.

Gofal Cartref: Nifer y Defnyddwyr Gwasanaeth ac Oriau Gofal a Ddarperir




Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd

## Gofal Preswyl a Nyrsio

Mae cyfanswm nifer y bobl sydd angen gofal preswyl a nyrsio wedi gostwng yn raddol ers 2017. Fodd bynnag, yn 2021 gwelwyd cynnydd yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth newydd.

Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd

### Nifer y Defnyddwyr Gwasanaeth Gofal Preswyl a Nyrsio, 2017-2021



## Iechyd Pobl Hŷn

Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod â chyflyrau hirdymor ac anghenion gofal cymhleth, ac angen aros yn yr ysbyty am hirach ac yn amlach. Gall iechyd gwael ymysg pobl hŷn gyfrannu at fwy o allgáu cymdeithasol, sy'n gwahanu pobl hŷn oddi wrth eu cymunedau.

Mae ychydig dros hanner y bobl hŷn 65 oed a hŷn yng Nghaerdydd (56.1%) yn ystyried eu bod mewn iechyd da (ffigyrâu

2018/19). Dengys data cyfres amser (sydd ar gael hyd at 2014/15) yn dangos gwelliant dros y blynyddoedd diweddar.

Dengys data hanesyddol, ar lefel ward, fod y bwlch anghydraddoldeb disgwyliad einioes iach yn 65 oed yn 10.5 blwyddyn i wrywod a 12.1 blwyddyn i fenywod. Gall gwrywod yn Adamsdown ddisgwyl treulio chwarter (24.8%) o weddill eu bywydau mewn iechyd da o gymharu â disgwyliad dwy ran o dair (65.4%) i'r sawl sy'n byw yn Llysfaen. I fenywod, y ffigyrâu yw

23.5% a 56.9%. Nid oes data ar gael am hyn y tu hwnt i 2013.

At hynny, gan fod gan Gaerdydd boblogaeth amrywiol iawn, gyda phobl o lawer o wahanol ddiwyllianau a chefnidiroedd, cydnabyddir y gall anghenion fod yn wahanol fyth ar draws y boblogaeth. Mae angen i wasanaethau allu addasu ac ymateb i'r amrywiaeth hon, ac i'r cenedlaethau nesaf o bobl hŷn a fydd ag anghenion gwahanol, a chynnig asedau gwahanol i'r gymuned.

## Oedolion Hŷn o Bwysau Iach

Mae 37.3% o oedolion hŷn (65+ oed) o bwysau iach yng Nghaerdydd; y mae hyn fymryn islaw'r cyfartaledd am Gymru (38.1%).

## Torri Clun

Mae Caerdydd yr un fath a'r cyfartaledd am Gymru o ran nifer y bobl ym mhob 100,000 sy'n torri clun.


Bu Caerdydd yn is na chyfartaledd Cymru am lawer blwyddyn, a thros y blynyddoedd diwethaf, mae wedi dod yr un fath (yn uwch na chyfartaledd Cymru o 3.7 ym mhob 100,000).

Mae cyfraddau torri clun yn amrywio ledled y ddinas gyda rhai ardaloedd a chyfraddau uwch o lawer na chyfartaledd Cymru, a rhai gyda chyfraddau is o lawer.

## Rhagfynegiadau Dementia

Mae'r risg o ddatblygu dementia yn seiliedig ar oedran. Wrth i ddisgwyliaid oes gynyddu, bydd nifer y bobl sydd â dementia hefyd yn cynyddu. Dros yr 20 mlynedd nesaf, rhagwelir y bydd nifer y bobl 65+ oed gyda dementia yn cynyddu o bron i ddwy ran o dair. Rhagwelir y bydd nifer y bobl â dementia difrifol bron yn dyblu.

### Rhagamcan o Nifer y Bobl 65+ Oed â Dementia yng Nghaerdydd, 2020-2040



Ffynhonnell: Daffodil

## Eiddilwch a Chwyrpiadau

Gallu corfforol oedd y mater mwyaf o bell ffordd oedd yn atal y bobl hŷn a ymatebodd i'r arolwg Asesiad Anghenion y Boblogaeth rhag bod mewn rheolaeth o'u bywydau bob dydd (62.9%). Gall eiddilwch achosi chwyrpiadau, ac mae chwyrpiadau yn bryder iechyd cyhoeddus allweddol i bobl hŷn.

Cynhaliodd Teleofal Caerdydd ddadansoddiad o gleientiaid a gwyrpodd yn ystod 2020-21 a chanfu fod 84% o'r rhai a gwyrpodd wedi gwneud hynny'n flaenorol, h.y. roeddent wedi cwmpo mwy nag unwaith. Nodwyd mai colli cryfder a chydbywedd oedd y rheswm dros y rhan fwyaf o'r chwyrpiadau hyn, ac yna cyflyrau iechyd hirdymor.

Rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau sy'n seiliedig ar lefelau eiddilwch yn cynyddu oherwydd y nifer gynyddol o bobl hŷn yn y dyfodol. Mae modelu blaenorol wedi rhagweld cynnydd yn y galw o hyd at 31% yng Nghaerdydd a'r Fro rhwng 2015 a 2025.

## CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL

- **Poblogaeth sy'n heneiddio:** Gan ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth 2018, rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yng Nghaerdydd yn cynyddu ychydig dros 33% erbyn 2043, i 68,364. Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed a hŷn yn codi hyd yn oed yn fwy sydyn, gan ychydig dros 52% i 11,156 yn 2043.

Mae'r boblogaeth hŷn wedi'i chanoli'n fwy yng Ngogledd Caerdydd ar hyn o bryd; ardal Gogledd Caerdydd sydd â'r ganran uchaf a'r nifer uchaf o bobl 65 oed a hŷn, sef 20% (32,128 o bobl).

Bydd y twf parhaus ym mhoblogaeth hŷn y ddinas yn arwain at angen am fwy o wasanaethau iechyd a bydd yn rhoi mwy o alw ar wasanaethau iechyd a gofal.
- **Bodddhad bywyd i bobl hŷn:** Mae cyfran uwch o bobl hŷn (65 oed a hŷn) yng Nghaerdydd yn rhoi sgôr o 7 neu fwy allan o 10 o ran bodddhad bywyd, o gymharu â grwpiau demograffeg eraill, er bod bodddhad bywyd ymhlith pobl hŷn yng Nghaerdydd ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.
- **Nifer gynyddol o bobl ag anghenion gofal cymhleth:** Mae'r twf a ragwelir yn nifer y bobl hŷn ag anghenion gofal cymhleth (gan gynnwys dementia difrifol) yn debygol iawn o arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau iechyd a gofal, er enghraifft, rhagwelir y bydd nifer yr oedolion hŷn sy'n byw gyda dementia difrifol yn dyblu erbyn 2040 yng Nghymru.
- **Eiddilwch a chwympiadau:** Rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau sy'n seiliedig ar lefelau eiddilwch yn cynyddu oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl hŷn yn y dyfodol, ac mae modelu blaenorol wedi rhagweld cynnydd yn y galw o hyd at 31% yng Nghaerdydd a'r Fro rhwng 2015 a 2025. Gallu corfforol oedd y mater mwyaf o bell ffordd oedd yn atal y bobl hŷn a ymatebodd i'r arolwg Asesiad Anghenion y Boblogaeth rhag bod mewn rheolaeth o'u bywydau bob dydd (62.9%). Gall eiddilwch achosi cwympiadau, ac mae cwympiadau yn bryder iechyd cyhoeddus allweddol i bobl hŷn. Cynhaliodd Teleofal Caerdydd ddadansoddiad o gleientiaid a gwmpodd yn ystod 2020-21 a chanfu fod 84% o'r rhai a gwmpodd wedi gwneud hynny'n flaenorol, h.y. roeddent wedi cwmpo mwy nag unwaith. Nodwyd mai colli cryfder a chydbwysedd oedd y rheswm dros y rhan fwyaf o'r cwympiadau hyn, ac yna cyflyrau iechyd hirdymor.
- **Tai:** Mae gan boblogaeth sy'n heneiddio Caerdydd oblygiadau penodol o ran maint, math a lleoliad y llety sy'n benodol i'w hanghenion. Gall tai gwael neu anaddas amharu'n anghyfartal ar iechyd corfforol a meddyliol, annibyniaeth a lles pobl hŷn. Amcangyfrifodd asesiad o lety tai pobl hŷn, a gynhaliwyd ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2018, fod angen 3,051 o unedau ychwanegol o lety i bobl hŷn erbyn 2035 yng Nghaerdydd, cymysgedd o dai, tai â gofal a gofal niysio.

- **Anghenion amrywiol:** Mae gan Gaerdydd a'r Fro boblogaeth amrywiol, gyda phobl o lawer o wahanol ddiwylliannau a chefnidiroedd, sy'n ased gwyb i'n cymunedau, ond mae hefyd yn golygu y gall anghenion amrywio ar draws y boblogaeth. Mae angen i wasanaethau allu addasu ac ymateb i'r amrywiaeth hon, ac i'r cenedlaethau nesaf o bobl hŷn a fydd ag anghenion gwahanol, a chynnig asedau gwahanol i'r gymuned. Er enghraifft, bydd mwy yn gyfarwydd â thechnoleg ddigidol yn y dyfodol.

## Effaith Covid-19:

- **Iechyd corfforol a mynediad at ofal iechyd:** Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar bobl hŷn, o safbwynt marwolaethau ac afiechyd yn ogystal ag iechyd meddwl a chorfforol. Mae ymchwil wedi dangos bod oedran yn cynyddu'r risg o farw o Covid-19 oherwydd bod systemau imiwedd yn dirywio ac mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod â chyflyrau hirdymor. Yn yr un modd, mae symudedd ac amodau cylchrediad y gwaed pobl hŷn wedi dirywio yn sgil y cyfnod do ac mae dad-gyflyru wedi digwydd, a allai arwain at berygl o gwympo.
- **Iechyd meddwl a lles:** Mae'r pandemig wedi arwain at beryglon cynyddol o bryder, panig ac iselder yn ymwneud ag iechyd ymysg pobl hŷn, yn enwedig y rhai mewn sefydliadau. Mae Covid-19 wedi cael effaith andwyol ar les pobl hŷn mewn cartrefi gofal, er enghraifft, cyfyngiadau ar gyswllt cymdeithasol oherwydd atal ymweliadau dan do. Mae unigrwydd ac arwahanrwydd wedi gwaethgu i lawer o bobl hŷn, fel y mae un ymatebydd i arolwg Holi Caerdydd 2020 wedi egluro, "Y newid mwyaf i mi yw methu gweld teulu a ffrindiau fel y mynnaf (dwi'n byw ar fy mhen fy hun) a pheidio gallu mynd i'r sinema a'r theatr. Rydw i wedi ymddeol felly mae'r pethau hyn yn rhan fawr o'm bywyd." Mae teimladau o bryder ac ofn wedi dod i'r amlwg hefyd oherwydd y pandemig a'r cyfyngiadau symud. Roedd pobl a oedd gynt yn hunangynhaliol yn cael eu hunain angen cymorth. Mae llawer o bobl hŷn wedi ei chael hi'n anodd cael cymorth wrth adael yr ysbyty, gan arwain weithiau at aros yn yr ysbyty am hirach.
- **Allgáu digidol:** Er bod llawer mwy o bobl dros 55 oed wedi gallu defnyddio'r we, mae'r gagendor digidol wedi ehangu yn ystod y pandemig, gyda mwy o wasanaethau'n symud i weithredu ar-lein yn unig. Mae allgáu digidol wedi bod yn broblem i lawer o bobl hŷn o ran cael gafael ar wasanaethau cymorth hanfodol, nid yn unig oherwydd diffyg offer, ond diffyg hyder neu ofn defnyddio gwasanaethau ar-lein hefyd.
- **Datblygiadau cadarnhaol mewn ymateb i Covid-19:** Bu'n rhaid i wasanaethau addasu, ac, mewn rhai achosion, mae hyn wedi golygu bod mwy o bobl wedi gallu cael gafael arnynt, ac mae gwasanaethau wedi gweithredu ffyrdd hyblyg ac ystwyth o weithio. Mae cysylltiadau newydd wedi'u gwneud, ac mae llawer o bobl wedi gwirfoddoli yn eu cymunedau i gefnogi pobl hŷn gyda siopa, casglu presgripsiynau neu fod yn gyfaill i rywun dros y ffôn. Fel yr amlygwyd, mae Covid-19 hefyd wedi annog datblygiadau mewn atebion digidol. Mae staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi defnyddio technoleg i gysylltu pobl â'u teuluoedd, er enghraifft, cyfrifiaduron llechen mewn cartrefi gofal a wardiau ysbytai fel y gall teuluoedd ac anwyliad siarad. Mae hyn wedi bod o gymorth os yw teulu unigolyn ymhell i ffwrdd ac ni fyddai fel arall yn gallu gweld ei berthnasau'n hawdd.



Amcan Lles 3

---

Cefnogi pobl allan  
o dlodi

---

## Trosolwg

Byddai trosolwg syml o berfformiad y ddinas ar draws y deilliannau yn yr adroddiad hwn yn awgrymu fod Caerdydd yn perfformio'n dda o gymharu â Dinasoedd Craidd a rhannau eraill o Gymru ar draws amred o ffactorau a all effeithio ar les trigolion. Ond er hynny, fel gyda dinasoedd eraill yn y DU, mae anghydraddoldebau dwys a gwreiddiedig yn bodoli yng Nghaerdydd. Hefyd, er nad ydym eto wedi llawn fesur a deall effaith pandemig Covid-19 ar boblogaeth Caerdydd, fe wyddom ei fod wedi gwneud anghydraddoldebau oedd yn bodoli eisoes yn waeth, ac y mae angen gwaith i ofalu y gall Caerdydd adfer yn gryf ac yn decach.

Mae lefelau iechyd cyffredinol yng Nghaerdydd yn dda. Er hynny, mae anghydraddoldebau clir ar draws y ddinas; mae Caerdydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran y gyfran o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHiau) yn y 10% ardal mwyaf difreintiedig Nghymru, ond y mae hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran

cyfran yr ACEHiau yn y 50% ardal lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

Er bod perfformiad ysgolion ledled y ddinas wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae 14% o'r ACEHiau yng Nghaerdydd wedi eu graddio yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru am ddeilliannau addysgol, y gyfran sydd bumed uchaf o Awdurdodau Lleol Cymru. Hefyd, mae 27.8% o ACEHiau yn yr 'Arc Ddeheuol' yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

O ran amddifadedd incwm, mae bron i un o bob pump o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghaerdydd ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru, y gyfran drydedd uchaf o holl Awdurdodau Lleol Cymru. Tra bod canran yr aelwydydd mewn tlodi (amddifadedd materol) wedi disgyn ers 2016-17, mae Caerdydd yn dal ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan. Hefyd, er mai gan Gaerdydd y mae'r ganran drydedd isaf o aelwydydd di-waith o holl Awdurdodau Lleol Cymru ac y bu gostyngiad cyson yng nghanran y plant

sy'n byw ar aelwydydd di-waith ers 2016, mae un o bob pump o blant dan 16 oed yn byw mewn teuluoedd incwm cymharol isel.

Achosodd effaith y pandemig ar ddiweithdra i gyfradd cyfrif yr hawlwyd yng Nghaerdydd ddyblu yng ngwanwyn 2020, er mai tuag i lawr y bu'r ffigur hwn ers Mai 2021 a'i fod yn awr yr un fath a chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, erys yn uwch nag yr oedd cyn y pandemig. Nid yw diweithdra yn taro'n gyfartal ar draws y ddinas, gyda'r gyfradd cyfrif hawlwyd 7.8 pwynt canran yn uwch i bumed rhan fwyaf difreintiedig y boblogaeth o gymharu â'r bumed rhan lleiaf difreintiedig.

Mae tai, cydran ganolog o ansawdd bywyd, yn dal yn gymharol anodd eu fforddio yng Nghaerdydd o gymharu â dinasoedd mawr eraill Prydain ac y mae'r gyfradd o bobl sy'n cysgu allan ymysg yr uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, Caerdydd yw'r Awdurdod Lleol Cymreig sy'n perfformio orau o ran cyfradd yr aelwydydd sy'n cael eu hatal rhag digartrefedd am o leiaf 6 mis.


## Anghydraddoldeb: Incwm

Yng Nghaerdydd, gellid dod o hyd i gymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru o fewn ychydig filltiroedd o'i gilydd. Mae bron i un o bob pump (19.2%), neu 41 o 214 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHiau) yng Nghaerdydd ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dyma'r gyfran drydedd uchaf o holl Awdurdodau Lleol Cymru.

Ceir yr ACEHiau hyn yn bennaf yn 'Arc Ddeheuol' y ddinas. Mae dros draean (35.6%) o'r ACEHiau yn yr 'Arc Ddeheuol' ymysg y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n fwy na Chasnewydd (20.0%), sydd â'r gyfran uchaf ymysg Awdurdodau Lleol Cymru. Pe bai 'Arc Ddeheuol' Caerdydd yn un awdurdod lleol, dyma fyddai'r mwyaf difreintiedig o bell ffordd yng Nghymru.

Mae sut i sicrhau bod pob dinesydd yn elwa ar dwf economaidd y brifddinas yn un o'r heriau mwyaf cymhleth ac anodd sy'n wynebu Caerdydd dros y blynyddoedd sydd i ddod.

### 2019 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Caerdydd – Maes Incwm



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru

## Aelwydydd mewn Tlodi

Mae lefelau amddifadedd materol - a ddiffinnir fel anallu i fforddio adnoddau sylfaenol - yng Nghaerdydd wedi gostwng o 16% yn 2016-17 i 13% yn 2019-20, ychydig uwchben cyfartaledd Cymru gyfan. Mae tlodi ar ei waethaf yn 'Arc Ddeheuol' y ddinas.

## Aelwydydd Di-waith

Caerdydd sydd â'r drydedd ganran isaf o aelwydydd di-waith o holl Awdurdodau Lleol Cymru. Ers 2016, disgynnodd y ganran islaw cyfartaledd Cymru gyfan, o 17.7% i 12.9% yn 2020. Bu tuedd tuag i lawr hefyd yng nghanran y plant sy'n byw ar aelwydydd di-waith, o 18.6% yn 2016

i 11.0% yn 2019, y ganran wythfed isaf ymysg Awdurdodau Lleol Cymru. Yn 2020, gan Gaerdydd yr oedd y ganran ail isaf ymysg Awdurdodau Lleol Cymru (5.3%), ond oherwydd maint bychan y sampl, nid yw'r ffigurau am eleni mor ddibynadwy, felly dylid bod yn ofalus wrth eu trin.


## Cyfradd Cyfrif Hawlwyr<sup>9</sup>

Roedd canran y bobl o oedran gweithio a oedd yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yn gymharol sefydlog rhwng 2016 a 2018, cyn gostyngiad graddol dros y ddwy flynedd ganlynol.

Mae'r gyfradd cyfrif hawlwr i ddynion yng Nghaerdydd wedi bod yn gyson ac arwyddocaol uwch na'r gyfradd i fenywod dros y ddegawd a aeth heibio, er i'r bwlch hwn ddechrau cau o 2015 tan ddechrau'r pandemig, sy'n cyfrif am y pegynau sydyn ar ddechrau 2020.


Ffynhonnell: Nifer yr Hawlwyr

Canran y Rhai sy'n Hawlio Budd-daliadau yng Nghaerdydd yn ôl Rhyw, Ionawr 2011 - Hydref 2021



Mae'r gyfradd cyfrif hawlwr yn Adamsdown, ward Caerdydd sydd â'r gyfradd uchaf, yn fras 7 gwaith yn uwch nag yn Radur, y ward sydd â'r gyfradd isaf (9.2% v 1.3%), sy'n datgelu problem barhaol gydag anghydraddoldeb gofodol yng Nghaerdydd.

Canran y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra fesul ward, Hydref 2021



Ffynhonnell: Nifer yr Hawlwyr



**CAERDYDD**  
**AR WAITH**  
**CARDIFF**  
**WORKS**



gwasanaeth  
cynghori  
**i mewn**  
**i waith**  
**into work**  
advice  
service



**Volunteer**  
Cardiff

<sup>9</sup> Mesur yw'r Cyfrif Hawlwyr o nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn bennaf am eu bod yn ddi-waith, yn seiliedig ar ddata gweinyddol o'r system fudd-daliadau. Nid yw'r Cyfrif Hawlwyr yn ceisio mesur diweithdra: serch hynny, oherwydd bod y bobl sy'n hawlio budd-daliadau fel arfer yn is-set o'r di-waith, gall y Cyfrif Hawlwyr fod yn fuddiol o ran rhoi syniad o sut mae diweithdra yn debyg o amrywio rhwng ardaloedd a thros amser. Seilir y Cyfrif Hawlwyr ar dabliad o ddetholion misol o systemau gweinyddol yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh).




## Anghydraddoldeb: Iechyd

Cardiff has clear health inequalities across the city. Cardiff is above the Wales average in the proportion of Lower Super Output Areas (LSOAs) in the 10% most deprived areas in Wales, but also exceeds the Wales average in terms of the proportion of LSOAs in the 50% least deprived areas in Wales.

There is ample evidence that social factors, including education, employment status, income level, gender and ethnicity have a marked influence on how healthy a person is. The lower an individual's socio-economic position, the higher their risk of poor health.

The impact of the pandemic is expected to widen existing health inequalities over the years to come. There will therefore be a number of short, medium and long-term priorities that will require joint action in order to address widening health inequalities coming out of the pandemic.

## 2019 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Caerdydd – Maes Iechyd



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru

## Tlodi Bwyd

Mae perfformiad Caerdydd o ran aelwydydd sy'n profi tlodi bwyd wedi'i raddio tua'r canol i'r isaf ymhlith Dinasoedd Craidd y DU. Fodd bynnag, amcangyfrifir bod 1 o bob 10 aelwyd

yn dweud ei bod yn hepgor neu'n lleihau maint prydau bwyd neu'n ceisio cymorth allanol. Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar fforddiadwydd bwyd hefyd, gydag effeithiau ar gynnyrch cynydau yn arwain at gynnydd mewn prisiau bwyd

yn y DU. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar iechyd pobl sy'n byw mewn tlodi neu aelwydydd ag incwm isel gan y gallai allyriadau CO2 uwch oherwydd newid yn yr hinsawdd effeithio ar werth maethol rhai cynydau ac felly'r gallu i gael gafael ar fwyd iach.

## Lles Personol

O ran lles personol ar draws y Dinasoedd Craidd, mae Caerdydd:

- Yn ail o ran 'Boddhad Bywyd', ond yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU.
- Wedi graddio tua'r canol o ran 'Teimlo'n Werth Chweil', ond yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU.
- Yn ail o ran 'Hapusrwydd', ond yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU.
- Wedi ei graddio orau o ran 'Gorbryder', sy'n cyfateb i ffigur y DU ac yn cymharu'n ffafriol â gweddill Cymru.

Ar draws yr ystod o fesurau, mae lles personol yn dirywio wrth i amddifadedd gynyddu.




## Anghydraddoldeb: Addysg

Mae deilliannau addysgol ledled y ddinas yn amrywio'n fawr. Mae 14%, neu 30 o 214 o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHiau) yng Nghaerdydd ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dyma'r gyfran bumed uchaf o holl Awdurdodau Lleol Cymru. Ceir yr ACEHiau hyn yn bennaf yn 'Arc Ddeheuol' y ddinas.

Ar y cyfan, gwelodd ysgolion Caerdydd gyfnod o welliant cyson, gyda chyrhaeddiad addysgol yn codi bob blwyddyn ers 2012 nes bod ysgolion Caerdydd bellach ymhlith y perfformwyr gorau yng Nghymru. Fodd bynnag, erys amrywiaeth mawr o hyd mewn perfformiad rhwng ysgolion ac y mae angen mwy o waith i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Caerdydd – Maes Addysg



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru

## Fforddiadwyedd Tai

Mae tai yn allweddol i safon byw. Mae cartrefi da, carbon isel yn gysylltiedig â'r holl ganlyniadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Tai yng Nghaerdydd yw'r ail leiaf fforddiadwy ymhlith Dinasoedd Craidd y DU, ychydig y tu ôl i Fryste; ar gyfartaledd mae costau eiddo dros saith gwaith a hanner yr enillion blyneddol gros canolrifol. Ar

ôl bod y chweched awdurdod lleol lleiaf fforddiadwy yng Nghymru yn 2019, mae Caerdydd bellach yn ail, ychydig y tu ôl i Fro Morgannwg ac yn llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.


## Digartrefedd

Mae bod heb gartref yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd rhywun, o'i allu i gynnal swydd neu gael swydd i'w iechyd a'i berthnasau. Mae'r effaith y mae digartrefedd yn ei gael ar bobl yn syth ac yn y tymor hir yn effeithio'n sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus, gan roi pwysau ychwanegol ar iechyd, gwasanaethau cymorth, yr heddlu a'r system farnwrol.

Yn 2019-20 (yn ôl cyfnod 2-wythnos o arolwg ym mis Hydref 2019), amcangyfrifir mai gan Gaerdydd yr oedd y gyfradd drydedd uchaf o gysgwyr allan o holl ALLau Cymru, y tu ôl i Gasnewydd a Cheredigion. Rhwng 2018-19 a 2019-20, ni fu fawr o newid yn amcangyfrif y niferoedd o gysgwyr allan yng Nghaerdydd, gan ostwng fymryn o 100 i 92.

O ran cyfran yr aelwydydd lle llwyddwyd i atal digartrefedd am o leiaf 6 mis, yn ôl pob 10,000 o aelwydydd, Caerdydd sydd yn perfformio orau o holl Awdurdodau Lleol Cymru.

## Cyfradd Aelwydydd lle Llwyddwyd i Atal Digartrefedd am o leiaf 6 Mis am bob 10,000 o Aelwydydd, 2019-20 (Awdurdodau Lleol Cymru)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL

- **Pe bai 'Arc Ddeheuol' Caerdydd yn un awdurdod lleol, dyma fyddai'r mwyaf difreintiedig o bell ffordd yng Nghymru:** O ran amddifadedd incwm, mae dros draean (35.6%) o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHiau) yn yr 'Arc Ddeheuol' – wedi'u rhestru yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron i un rhan o bump o'r ACEH i yng Nghaerdydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, y drydedd gyfran uchaf o holl Awdurdodau Lleol Cymru. Mae sut i sicrhau bod pob dinesydd yn elwa ar dwf economaidd y brifddinas yn un o'r heriau mwyaf cymhleth ac anodd sy'n wynebu Caerdydd dros y blynyddoedd sydd i ddod.

- **Effaith amddifadedd ar iechyd a lles:** Mae anghydraddoldebau iechyd clir ar draws y ddinas, ac mae wardiau yn yr 'Arc Ddeheuol' yn fwy difreintiedig o ran iechyd yn gyffredinol. Mae digon o dystiolaeth bod ffactorau cymdeithasol, gan gynnwys addysg, statws cyflogaeth, lefel incwm, rhywedd ac ethnigrwydd yn cael dylanwad amlwg ar ba mor iach yw unigolyn. Po isaf yw sefyllfa economaidd-gymdeithasol unigolyn, po uchaf yw ei risg o ddioddef iechyd gwael.

Yn yr un modd, ar draws ystod o fesurau lles personol (lefelau hapusrwydd, boddhad, pryder a theimlo'n werth chweil), mae lles yn dirywio wrth i amddifadedd gynyddu yng Nghaerdydd.

- **Tlodi Plant:** Trafodir tlodi plant yn y bennod: Mae Caerdydd yn lle gwyh i gael eich magu. Yn gryno, mae un rhan o bump o blant dan 16 oed yn byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol yng Nghaerdydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant o deuluoedd incwm isel yn fwy tebygol o fod â theimladau o unigedd, cael eu tynnu i mewn i ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu neu ddioddef effeithiau troseddau. Mae plant o deuluoedd incwm isel hefyd yn fwy tebygol o ddioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod ac mae cyfraddau'r plant yr ystyrir iddynt fod mewn perygl, sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant, neu sy'n cael eu rhoi mewn gofal, yn llawer uwch yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas.
- **Mae lefelau diweithdra cyffredinol yng Nghaerdydd yn isel, ond mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws y ddinas:** Roedd canran y bobl o oedran gweithio a oedd yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yn gymharol sefydlog rhwng 2016 a 2018, cyn gostyngiad graddol dros y ddwy flynedd ganlynol. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2020, dechreuodd hawliadau gynyddu'n sydyn, gan gyd-daro â dechrau'r pandemig. Ers hynny mae'r gyfradd wedi gostwng ond mae'n parhau'n uwch na lefelau cyn y pandemig. Mae canran y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra yng Nghaerdydd yn datgelu problem barhaus gydag anghydraddoldeb gofodol yng Nghaerdydd. Mae canran y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn Adamsdown tua 7 gwaith yn uwch nag yn Radur.
- **Gwella fforddiadwydd tai:** Tai yng Nghaerdydd yw'r ail leiaf fforddiadwy ymhlith Dinasoedd Craidd y DU, ychydig y tu ôl i Fryste; mae costau eiddo dros saith gwaith a hanner yr enillion blynyddol gros canolrifol. Ar ôl bod y chweched awdurdod lleol lleiaf fforddiadwy yng Nghymru yn 2019, mae Caerdydd bellach yn ail, ychydig y tu ôl i Fro Morgannwg ac yn llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

- **Digartrefedd a Chysgu ar y Stryd:** Caerdydd sydd â'r drydedd gyfradd uchaf o bobl yn cysgu ar y stryd ar draws Awdurdodau Lleol Cymru, y tu ôl i Gasnewydd a Cheredigion. Fodd bynnag, Caerdydd yw'r Awdurdod Lleol Cymreig sy'n perfformio orau o ran cyfradd yr aelwydydd sy'n cael eu hatal rhag digartrefedd am o leiaf 6 mis.

### Effaith Covid-19:

- Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael, ac yn parhau i gael, effaith uniongyrchol a gwahaniaethol ar gymunedau yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a ddangosir gan gyfraddau 'Covid hir' a marwolaethau cynamserol. Mae canlyniadau gwaeth yn gysylltiedig â chyflyrau iechyd sylfaenol ac anabledd, lefelau amddifadedd, amodau tai, galwedigaeth, incwm a bod o gymuned lleiafrifoedd ethnig.
- Mae canlyniadau iechyd a lles hirdymor Covid-19 – fel Covid hir, yn ogystal ag effeithiau oedi wrth gael diagnosis, triniaeth ac adsefydlu, oherwydd diffyg argaeledd/ llai o bobl yn ceisio cymorth gan wasanaethau iechyd 'nad ydynt yn hanfodol' yn ystod y pandemig – yn debygol o fod wedi'u dosbarthu'n anghyfartal yn yr un modd, gan waethgu anghydraddoldebau iechyd.
- Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar economi Caerdydd, gan achosi sectorau allweddol sy'n cyflogi niferoedd uchel o ddinasyddion y ddinas, gan gynnwys lletygarwch, manwerthu, hamdden, y sector diwylliannol a digwyddiadau, i gau am gyfnodau estynedig. Mae'r pandemig wedi effeithio fwyaf ar y rhai sy'n cael eu cyflogi gan y sectorau hyn – pobl ifanc, menywod a phobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig fel arfer.

Er bod y sectorau hyn wedi cymryd camau mawr tuag at adferiad ac mae nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas wedi dychwelyd i lefelau ychydig yn is na'r hyn a gafwyd yn 2019 (cyn y pandemig), mae'r sefyllfa'n parhau'n ansicr ac yn fregus, yn bennaf oherwydd bygythiad parhaus y feirws a'r mesurau sydd eu hangen i atal ei ledaeniad.

- Dyblodd canran y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra yng Nghaerdydd ar ddechrau'r pandemig. Ers hynny mae wedi gostwng, ond mae'n parhau'n uwch na'r lefelau cyn y pandemig.
- Yn ystod tair wythnos gyntaf y cyfnod clo cychwynnol ym mis Mawrth 2020, darparwyd llety priodol i 140 o bobl, gan gynnwys rhai o'r cysgwyr ar y stryd mwyaf hirsefydlog, lle gallent hunan-warchod neu hunanynysu'n ddiogel. Mae'r cyflawniadau hyn bellach yn cael eu hymgorffori mewn dull ataliol hirdymor, gyda chefnogaeth yr holl bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus, fel y gall y ddinas leihau'n barhaol nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd a phrofi digartrefedd.



Amcan Lles 4

---

Cymunedau Diogel,  
Hyderus a Grymus

---

## Trosolwg

Mae Caerdydd yn ddinas gymharol ddiogel gyda'r gyfradd troseddau isaf ond un ymhlith dinasoedd tebyg yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, yng Nghymru, Caerdydd sydd â'r gyfradd droseddau uchaf ond un fesul mil o'r boblogaeth.

Pan roedd y pandemig ar ei anterth, gwelodd Caerdydd ostyngiad sylweddol yn nifer y troseddau cyffredinol. Fodd bynnag, ers llacio'r cyfyngiadau ym mis Mehefin 2021, mae lefelau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi dychwelyd i'r lefelau cyn Covid, gan arwain at gynnydd sylweddol mewn galwadau nad ydynt yn rhai brys i'r Heddlu. Mae hyn wedi rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau'r adran damweiniau ac achosion brys o ran derbyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â Covid.

Mae'n debygol y bydd cyfnodau do a chyfyngiadau Covid-19 wedi arwain yn arbennig at dan-adrodd am drais domestig ac anawsterau iechyd meddwl. Mae nifer yr atgyfeiriadau cam-drin domestig a dderbynnir yn cael eu monitro'n ofalus a'u huwchgyfeirio fel y bo'n briodol i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Caerdydd sydd â'r gyfradd uchaf o aildroseddau (37%) o gymharu â dinasoedd tebyg yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol Cymru. Gall effaith aildroseddau fod yn ddinistriol a hirdymor, nid yn unig i ddiodefwyr troseddau a'u teuluoedd a'r gymuned ehangach, ond hefyd i'r troseddwr a'i deulu.

O ran ofn troseddau, mae Caerdydd wedi gostwng am y tro cyntaf mewn tair blynedd yn is na chyfartaledd Cymru o ran teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio. Mae pobl yn teimlo'n lleiaf diogel wrth gerdded yng nghanol y ddinas, yn enwedig pobl ag anabledd a menywod. At hynny, mae ymatebwyr sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas yn fwy tebygol o deimlo'n annogel o gymharu â'r rhai sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig y ddinas.

Gydag un o'r cymunedau ethnig amrywiol hynaf ym Mhrydain, mae Caerdydd yn enwog am ei hamrywiaeth a'i bywiogrwydd diwylliannol. O ran canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; fod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch, mae Caerdydd yn

uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a hi yw'r Awdurdod Lleol trefol Cymreig sydd uchaf. Fodd bynnag, mae bwlch o fewn y ddinas, gyda phobl o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o gytuno. Mae gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gefnogi cydlynw a chydlyniant cymunedol yn hanfodol, yn enwedig yn yr ardaloedd hyn.

Mae gan Gaerdydd sylfaen gref i adeiladu arno o ran ymgysylltiad dinesig gydag ychydig dros chwarter o bobl yng Nghaerdydd yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd gwirfoddol. Mae gwirfoddoli yn gwneud cymunedau yn fwy gwydn, yn helpu pobl i ennill hyder, dysgu sgiliau a rhoi'n ôl i'r rheiny o'u cwmmpas, sydd o fudd i gydlynw cymunedol.

Mae hefyd lefelau uchel o ddiddordeb mewn dylanwadu ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar y ddinas yn gyffredinol. Roedd canran o 42.7% a bleidleisiodd yn Etholiadau Lleol Cymru yn 2017 fymryn uwchlaw'r cyfartaledd Cymreig. Yn ychwanegol, pleidleisiodd mwy yn Etholiad Cyffredinol 2019 ac Etholiad y Senedd yn 2021 na'r cyfartaledd Cymreig.


## Trosedd yn Gyffredinol

Mae llawer o effeithiau ynghlwm wrth ymddygiad troseddol. Gall dioddef hyd yn oed o 'fân' droseddau gael effaith ar iechyd meddyliol neu gorfforol, gallu i weithio a pherthynas bersonol. Gall y gymuned gyfan deimlo'r effaith o ran eu canfyddiadau am ddiogelwch lle maen nhw'n byw a gweithio.

Mae'r gyfradd troseddau yng Nghaerdydd wedi parhau i ostwng ers 2002/03 ac, o'i gymharu â Dinasoedd Craidd eraill y DU, Caerdydd sydd â'r gyfradd troseddau gyffredinol isaf ond un. Caerdydd hefyd sydd â'r gyfradd isaf o Droseddau Trais yn Erbyn y Person (fesul mil o'r boblogaeth) o'r holl Ddinasoedd Craidd, ac mae'r gyfradd yn is na chyfartaledd Cymru. Yng Nghymru, fodd bynnag, Caerdydd sydd â'r drydedd gyfradd troseddau uchaf fesul mil o'r boblogaeth, y tu ôl i ardaloedd dinesig Casnewydd a Wrecsam.

Mae lefelau troseddau yn uwch yn ne a dwyrain Caerdydd lle ceir crynodiadau o amddifadedd, gan effeithio ar ansawdd bywyd ac iechyd meddwl y rhai sy'n byw yn y cymunedau hyn.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Caerdydd – Maes Diogelwch Cymunedol



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2019

## Trais yn erbyn y person

Gall dioddef o drosedd dreisgar gael goblygiadau nid yn unig o ran lles corfforol ond hefyd i iechyd meddwl. Gallai dioddefwyr ddatblygu pryder, iselder, anhwylder pryder ôl-drawmatig neu broblemau camddefnyddio sylweddau. Yn eu tro, gall y canfyddiadau hyn effeithio ar eu perthnasoedd personol a gwaith.

Caerdydd sydd â'r gyfradd isaf o drais yn erbyn y person mewn dinasoedd tebyg yng Nghymru a Lloegr. Syrthiodd y gyfradd islaw cyfartaledd Cymru yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, ac y mae'n wythfed isaf o Awdurdodau Lleol Cymru.

## Difrod Troseddol

Mae difrod troseddol yn cynnwys difrod i eiddo, o graffiti a fandaliaeth i losgi bwriadol. Gall gael effeithiau tebyg i ymddygiad gwrthgymdeithasol ar bobl a chymunedau.

Mae gan Gaerdydd y gyfradd ail isaf o ddifrod troseddol mewn dinasoedd tebyg yng Nghymru a Lloegr. Mae modd canfod gwelliant yn y duedd, ond arhosodd y gyfradd uwchlaw cyfradd Cymru a chyfradd Cymru a Lloegr ers 2016/17. Gan Gaerdydd y mae'r gyfradd seithfed uchaf o Awdurdodau Lleol Cymru ond y mae'n cymharu'n dda â Chasnewydd a Blaenau Gwent, sydd â'r cyfraddau uchaf. Gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn troseddau yn ystod 2020/21 - cyfnod y pandemig (o 4070 i 3233 o droseddau).



## Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys sawl math o ymddygiad sy'n achosi neu sy'n debyg o achosi aflonyddu, dychryn neu loes. Gallai gael effaith ddifrifol ar ddiodefwyr a chymunedau, gan wneud i bobl deimlo'n anniogel yn eu cartrefi eu hunain a'r ardaloedd cyfagos.

Gan Gaerdydd y mae'r gyfradd uchaf o ymddygiad gwrthgymdeithasol (am bob 100 o bobl) o holl Awdurdodau Lleol Cymru. Fodd bynnag, wrth edrych ar ddata Heddlu De Cymru, ers 2016/17, gwelodd Caerdydd ostyngiad graddol mewn digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol (o 12,039 i 9307 yn 2019/20). Yr oedd y cynnydd sylweddol yn 2020/21 i'w briodoli i dorri canllawiau Covid-19 yn cael eu cofnodi fel digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol.


Ceir crynodiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 'Arc Ddeheuol' y ddinas.

Digwyddiadau o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng Nghaerdydd: Data



Ffynhonnell: Heddlu De Cymru / Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Troseddau Dwyn oddi wrth Bobl yng Nghaerdydd: Siart Tueddiadau Misol



## Dwyn

Ers 2016/17, mae dwyn oddi ar bobl wedi amrywio yng Nghaerdydd (yn amrywio o 588 i 725). Yn 2021, roedd bron i hanner cymaint o ladradau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd y pandemig (o 725 i 307). Dengys Ffigur 38 fod nifer y troseddau yn cynyddu fel arfer ym misoedd y gaeaf.

Ffynhonnell: Heddlu De Cymru



## Troseddau Ieuentid

Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 y prif droseddau y cafodd ieuentid eu harestio ar eu cyfer oedd Troseddau yn Erbyn y Drefn Gyhoeddus, Trais Heb Anafiadau a Masnachu Cyffuriau. O'r rhai a arestiwyd ar gyfer pob categori o drosedd, roedd 80% rhwng 16 a 18 oed a chafodd 27% eu hystyried yn ad-droseddwy. Er bod y rhan fwyaf o Blant a Phobl Ifanc sy'n cael eu harestio yn cyflawni mân droseddau, cydnabyddir bod y rhai yr ystyrir eu bod mewn perygl neu'n agored i niwed yn fwy tebygol o fod yn dargedau meithrin perthnasau amhriodol ar-lein a chamfanteisio. Mae sawl ffactor wedi'u nodi sy'n dueddol o gynyddu'r tebygolrwydd y bydd person ifanc yn ymwneud â throsedd, gan gynnwys:

- Bod yn wrywaidd
- Byw yn 'Arc Ddeheuol' Caerdydd/ ardaloedd o amddifadedd uwch
- Yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant
- Wedi cael dedfryd neu gollfarn yn flaenorol
- Wedi dioddef Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Yn ymwneud â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyffuriau, a all arwain at broblemau pellach sy'n gysylltiedig ag ymddygiad treisgar fel troseddau cyllyll.

Mae nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuentid am y tro cyntaf – plant 0 i 17 oed sy'n cael eu rhybudd ieuentid cyntaf neu ddedfryd llys yn ystod cyfnod penodol – wedi gostwng ers 2016/17, gyda gostyngiad sylweddol yn 2020/21. Fodd bynnag, dylid ystyried effaith y Coronafeirws<sup>10</sup>.


## Cam-drin Domestig

Mae cam-drin domestig yn cwmpasu camdriniaeth emosiynol, seicolegol, ariannol neu rywiol o fewn teulu neu berthynas agos yn ogystal â thrais corfforol. Mae'r goblygiadau'n fawr, yn effeithio ar bopeth o les meddyliol a chorfforol y dioddefwr i'w sefyllfa ariannol, ei berthnasau â theulu a ffrindiau, a'i allu i gadw swydd.

Rhwng 2016/17 a 2018/19, bu cynnydd cyson yn nifer y digwyddiadau domestig a gofnodwyd (o 7777 i 8605). Mae'n debyg fod y gostyngiad dros y 2 flynedd ddiwethaf i'w briodoli i lai o adrodd a chyfyngiadau yn ystod y pandemig (o 8605 i 7812).

Yn yr un modd, rhwng 2016/17 a 2018/19, cafwyd cynnydd cyson yn nifer y troseddau domestig a gofnodwyd (o 3603 i 4349). Mae'n debyg hefyd fod y gostyngiad dros y 2 flynedd ddiwethaf i'w briodoli i lai o adrodd a chyfyngiadau yn ystod y pandemig (o 4349 i 3889).

### Digwyddiadau Domestig Cyffredinol yng Nghaerdydd: Siart Tueddiadau Blynnyddol



Ffynhonnell: Heddlu De Cymru

## Trosedd Casineb

Mae troseddau casineb yn ddigwyddiadau neu'n droseddau yn erbyn rhywun ar sail rhan o'i hunaniaeth: anabledd, ethnigrwydd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, neu hunaniaeth rhywedd.

Rhwng 2016/17 a 2017/18, gostwng wnaeth cyfanswm nifer y troseddau casineb a gofnodwyd. Fodd bynnag, ers 2017/18, mae'r niferoedd wedi cynyddu'n gyson, o 774 i 860 yn 2021. Ymhellach, ers 2016/17, arhosodd cyfanswm nifer y troseddau casineb yng Nghaerdydd ar lefelau tebyg (yn amrywio o 1110 i 1053).

Mae nifer y troseddau a'r digwyddiadau yn tueddu i fod ar eu huchaf ym misoedd yr haf.

## Aildrosedd

Caerdydd sydd â'r gyfradd uchaf o aildrosedd (37.2%) (cyfradd gyfunol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion) o gymharu â dinasoedd tebyg yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol Cymru. Mae'r gyfradd ar i'fyny ac mae'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr (26.1%). Fodd bynnag, mae cyfraddau aildrosedd ymhlith pobl ifanc wedi gostwng yn raddol yng Nghaerdydd o 52.5% yn 2017 i 34.4% yn 2019 - sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru (44.1%) ac ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU (33.1%).

Mae'r achosion o aildrosedd, fel gyda throseddau am y tro cyntaf, yn eang eu cwmpas. I droseddwy'r ifanc, mae'r tebygolrwydd o drosedd yn cynyddu os yw'n ddyn, yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd uwch ac wedi cael profiad o'r gwasanaethau plant, Profiadau Plentyndod Niweidiol a chyswllt â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyffuriau (cyfeiriwch at yr adran uchod, 'troseddau ieuentid', yn ogystal â'r bennod 'Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Gael eich Magu' am ragor o fanylion). Yn ogystal, ffactor allweddol a nodwyd gan droseddwy'r ifanc yn Asesiad o Anghenion Uned Atal Trais Cymru - sydd hefyd yn berthnasol i droseddwy'r sy'n oedolion ac a amlygir yn Strategaeth Cyfiawnder Ieuentid Caerdydd 2020-2022 - yw mynediad i'w rhwydweithiau cymorth os ydynt yn y carchar i ffwrdd o'u tref enedigol ac, ar ben hynny, y gallu i gael cymorth proffesiynol ar ôl eu rhyddhau. Heb gymorth, mae'r tebygolrwydd y bydd troseddwy'r yn dychwelyd i'w ffordd o fyw droseddol flaenorol yn cynyddu, gan eu bod yn teimlo nad oes dewis arall. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth parod, hawdd ei gyrraedd ac ystyrlon.

<sup>10</sup> Ceir rhagor o fanylion yn y bennod: Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu.

## Teimlo'n Ddiogel Gartref, wrth Gerdded yn yr Ardal Leol ac wrth Deithio


Mae pa mor ddiogel mae pobl yn teimlo yn bwysig gan ei fod yn aml yn effeithio ar safon byw. Mae pobl sy'n credu eu bod yn debygol o ddioddef o drosedd yn dueddol o ddweud bod ganddynt lefelau lles gwaeth.

Dengys data 2020/21 Arolwg Cenedlaethol Cymru fod Caerdydd wedi mynd yn is na'r cyfartaledd Cymreig o ran teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio.

Wrth edrych ar ganlyniadau Arolwg Holi Caerdydd (o 2016 i 2018), mae

ymatebwyr sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas yn fwy tebygol o deimlo'n annïogel o gymharu â'r rhai sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig y ddinas. Hefyd, ym mhob arolwg o 2017 i 2020, dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded yng nghanol y ddinas wedi iddi dywyllu, gyda'r ganran yn gostwng o 44.2% yn 2017 i 37% yn 2020. Yn 2020, dim ond 25% o'r ymatebwyr gydag anabledd a 30% o ymatebwyr benyw a ddywedodd eu bod yn teimlo'n ddiogel. Nododd y preswylwyr, "yn y nos os ar fy mhen fy hun, fyddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel ar fws/ trên ar ôl iddi dywyllu. Mae'n iawn yn ystod y dydd" a "yn y nos, teimlaf y gallai helynt ddechrau ar unrhyw adeg."

**Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio fesul ardal, 2020-21**



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

## Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throsedd – Beth yw Barn y Trigolion?

Yn ôl data 2020/21 Arolwg Cenedlaethol Cymru, pan ofynnwyd y cwestiwn "i ba raddau y buasech yn cytuno neu'n anghytuno fod yr Heddlu a gwasanaethau cyhoeddus lleol yn delio'n llwyddiannus ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau yn eich ardal leol?", cytunodd tri o bob deg o ymatebwyr fod digon yn cael ei wneud. Mae hyn yn cymharu â 46.6% o ymatebwyr oedd yn anghytuno.

Ymatebwyr oedd yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas oedd leiaf tebygol o gytuno, gyda 66.9% o bobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, o gymharu â 30.7% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Y rhai oedd yn byw yn yr 'Arch Ddeheuol' ac ymatebwyr gwryw oedd leiaf tebygol o gytuno â'r gosodiad hwn (23.4% a 31.9%), gydag ymatebwyr o ethnigrwydd lleiafrifol neu iau na 35 yn fwy tebygol o gytuno (37.4% a 36.6%).

## Bodddhad gydag Ardal Leol fel Lle i Fyw

O ran canran y bobl oedd yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw, mae Caerdydd yn y canol ymysg Awdurdodau Lleol Cymru a mymryn uwchlaw cyfartaledd Cymru. Nid yw lefelau bodddhad yn amrywio llawer ar draws Cymru, gyda gwahaniaeth o 6 phwynt canran rhwng Caerdydd, ar 92%, a Bro Morgannwg, y perfformiwr gorau, ar 98%. Mae'r ganran am Gaerdydd wedi cynyddu o 4 pwynt canran ers 2016/17.






## Canfyddiad o Gydlyn

O ran canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; fod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch, mae Caerdydd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a hi yw'r Awdurdod Lleol trefol Cymreig sydd uchaf - ar 69%. Mae data Arolwg Caerdydd (2020) yn dangos bod bwllch yn y ddinas, fodd bynnag, gyda gwahaniaeth o 32 pwynt canran rhwng y cymunedau mwyaf difreintiedig a'r cymunedau lleiaf difreintiedig.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y Bobl sy'n Cytuno eu bod yn Perthyn i'r Ardal; fod Pobl o Wahanol Gefndiroedd yn Tynnu Ymlaen â'i Gilydd yn dda; a bod Pobl yn Trin ei Gilydd â Pharch, 2020/21 (Awdurdodau Lleol Cymru)



## Ffoduriaid a Cheiswyr Lloches

Yng Nghaerdydd, ceir rhaglenni sefydledig o sylweddol o waith partneriaeth o ran anghenion penodol ffoduriaid a cheiswyr lloches. Mae hyn yn cynnwys dull cydgysylltiedig o sicrhau mynediad at wasanaethau allweddol fel gofaliad iechyd, addysg a llwybrau tai i'r rhai sydd wedi cael statws ffodur neu sydd wedi dod yn amddifad ac sy'n anghymwys i gael cymorth gan y Swyddfa Gartref. Mae hwn yn faes cydweithredu sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac mae Caerdydd wedi bod yn

ganolfan wasgaru lloches fawr ers dros ddau ddegawd.

Y tu hwnt i'r ffocws ar hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus craidd, gan fod ffocws yn cael ei roi ar ddylanwadu'n weithredol ar feysydd cyflenwi a pholisi ehangach er mwyn sicrhau'r lles a'r cynhwysiant mwyaf posibl, er enghraifft, cyflogadwyedd, dysgu iaith, gwirfoddoli a chyfranogiad dinesig, yn ogystal â gwasanaethau sy'n benodol i fenywod.

Yn ogystal â busnes craidd yn y maes hwn, mae Caerdydd ar hyn o bryd yn ddinas sy'n cymryd rhan mewn ymchwil dan arweiniad Prifysgol Rhydychen

ynghylch dulliau cynhwysiant ar gyfer mudwyr ansefydlog. Mae diddordeb y ddinas yn y maes hwn yn adlewyrchu cymhlethdodau a her llywodraeth leol o ran rhoi cymorth i rai grwpiau mudol, yn enwedig ceiswyr lloches a wrthodwyd, a chydabyddiaeth y gall gwaharddiadau gwasanaeth a ddiffinnir gan Lywodraeth y DU danseilio cydlyniant ac amcanion cydraddoldeb ehangach ar lefel leol. Mae'r ymchwil yn cyfnewid arferion lleol gyda dinasoedd Fienna, Awstria a Frankfurt, yr Almaen, gyda'r nod o gryfhau arferion lleol yn y maes hwn.





## Gwirfoddoli

Gall gwirfoddoli gynorthwyo cydlyniant a chysylltiad cymdeithasol, yn ogystal â gwella lles gwirfoddolwyr. Mae effaith lles gwirfoddoli yn arwain at ymdeimlad o bwrpas, hyder yn eich galluoedd eich hun, a ffurfio cysylltiadau cymdeithasol.

O ran canran y sawl sy'n gwirfoddoli yng Nghaerdydd, ers 2016/17, bu gostyngiad canrannol bach o 30% i 26%. Mae Caerdydd fymryn islaw cyfartaledd Cymru. Mae hyn yn cymharu â 33% yng Ngwynedd, yr awdurdod sy'n perfformio orau. Mae cyfraddau hefyd yn debyg ar draws y cymunedau lleiaf a mwyaf diffreintiedig (gwahaniaeth o 9.9 pwynt canran).

Yng Nghaerdydd, mae profiad grwpiau cymunedol yn ystod pandemig Covid-19 yn awgrymu y gall grwpiau sy'n seiliedig ar leoedd a diddordeb helpu i leddfu unigrwydd a darparu ymdeimlad o bwrpas. Ymatebodd dros 1,000 o bobl i'r alwad i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed i gael gafael ar fwyd a chyflenwadau meddygol hanfodol ar ddechrau'r pandemig, gydag ymatebwyr i arolwg Holi Caerdydd 2020 yn nodi bod "ymdeimlad o gymuned leol yn cynyddu" a bod "ysbryd cymunedol yn tyfu."

## Dylanwadu ar Benderfyniadau


Mae bod yn rhan o rwydwaith cymdeithasol cryf a chyfrannu'n weithredol at fywyd cymunedol lleol yn gwella lles pobl, a gall wneud pobl a'u cymunedau yn fwy cadarn. O ystyried twf y ddinas a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysicach nag erioed i gymunedau a phreswylwyr deimlo y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio'r ddinas a'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio.

Yng Nghaerdydd, y ganran o bobl sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud â'u hardal leol oedd 24.9% yn 2020/21, ychydig islaw cyfartaledd Cymru o 25.9%. Mae hyn yn gynydd o ffigur 2018/19<sup>11</sup> o 20.6%.

Roedd canran o 42.7% a bleidleisiodd yn Etholiadau Lleol Cymru yn 2017 fymryn uwchlaw'r cyfartaledd Cymreig. Roedd y ganran a bleidleisiodd fesul ward yng Nghaerdydd yn amrywio o 26.6% yn Trowbridge i 61.9% yn Rhiwbeina.

Yn Etholiad Cyffredinol 2019, pleidleisiodd 68.3% yng Nghaerdydd, oedd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Yn Etholiad y Senedd yn 2021, pleidleisiodd 49.5% yng Nghaerdydd, oed dyn uwch na'r cyfartaledd am Gymru.

### Canran y Bobl sy'n Cytuno y Gallant Ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n Effeithio ar eu Hardal Leol, 2012/13 i 2020/21



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

<sup>11</sup> Nid oes data ar gael ar gyfer 2019/20.

## CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL

- **Mae Caerdydd yn ddinas ddiogel:** Mae'r gyfradd troseddu yng Nghaerdydd wedi parhau i ostwng ers 2002/03 ac, o'i gymharu â Dinasoedd Craidd eraill y DU, Caerdydd sydd â'r gyfradd troseddu gyffredinol isaf ond un. Caerdydd hefyd sydd â'r gyfradd isaf o Droseddau Trais yn Erbyn y Person (fesul mil o'r boblogaeth) o'r holl Ddinasoedd Craidd, ac mae'r gyfradd yn is na chyfartaledd Cymru. Yng Nghymru, fodd bynnag, Caerdydd sydd â'r drydedd gyfradd troseddu uchaf fesul mil o'r boblogaeth, y tu ôl i ardaloedd dinesig Casnewydd a Wrecsam.
  - **Fodd bynnag, mae ofn troseddau yn cynyddu:** O ran ofn troseddau, mae Caerdydd wedi gostwng am y tro cyntaf mewn tair blynedd yn is na chyfartaledd Cymru o ran teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio. Mae pobl yn teimlo'n lleiaf diogel wrth gerdded yng nghanol y ddinas, yn enwedig pobl ag anabledd a menywod. At hynny, mae ymatebwyr sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel o gymharu â'r rhai sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig y ddinas.
  - **Trosedd ac amddifadedd:** Mae lefelau troseddu yn uwch yn ne a dwyrain Caerdydd lle ceir crynodiadau o amddifadedd, gan effeithio ar ansawdd bywyd ac iechyd meddwl y rhai sy'n byw yn y cymunedau hyn.
  - **Troseddau ieuentid:** Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 y prif droseddau y cafodd ieuentid eu harestio ar eu cyfer oedd Troseddau yn Erbyn y Drefn Gyhoeddus, Trais Heb Anafiadau a Masnachu Cyffuriau. O'r rhai a arestiwyd ar gyfer pob categori o drosedd, roedd 80% rhwng 16 a 18 oed a chafodd 27% eu hystyried yn ad-droseddwy.
- Er bod y rhan fwyaf o Blant a Phobl Ifanc sy'n cael eu harestio yn cyflawni mân droseddau, cydnabyddir bod y rhai yr ystyrir eu bod mewn perygl neu'n agored i niwed yn fwy tebygol o fod yn dargedau meithrin perthnasau amhriodol ar-lein a chamfanteisio. Ceir rhagor o fanylion yn y bennod: Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu.
- **Ymddygiad gwrthgymdeithasol:** Er bod y ddinas wedi gweld gostyngiad cyson mewn digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ers 2016/17, Caerdydd sydd â'r gyfradd uchaf o ymddygiad gwrthgymdeithasol holl Awdurdodau Lleol Cymru. Ceir crynodiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 'Arc Ddeheuol' y ddinas.
  - **Cyfraddau aildroseddu cymharol uchel:** Caerdydd sydd â'r gyfradd uchaf o aildroseddu o gymharu â dinasoedd tebyg yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol Cymru. Mae'r gyfradd wedi cynyddu ers 2017 ac mae'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr.
  - **Cydlyniant:** Mae Caerdydd yn perfformio'n uwch na chyfartaledd Cymru a dyma'r awdurdod sy'n perfformio orau yng Nghymru ar draws ystod o ddangosyddion cydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, mae bwlch o fewn y ddinas, gyda phobl o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o gytuno. At hynny, mae cyfanswm nifer y troseddau casineb a gofnodwyd wedi cynyddu'n gyson ers 2017/18.

## Effaith Covid-19:

- Pan roedd y pandemig ar ei anterth, gwelodd Caerdydd ostyngiad sylweddol yn nifer y troseddau cyffredinol. Fodd bynnag, ers llacio'r cyfyngiadau ym mis Mehefin 2021, mae lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi dychwelyd i'r lefelau cyn Covid. Mae hyn wedi arwain at gynydd sylweddol mewn galwadau nad ydynt yn rhai brys i'r Heddlu, gan roi pwysau ar y llinell gymorth 101, yn ogystal â phwysau cynyddol ar wasanaethau'r adran damweiniau ac achosion brys o ran derbyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â Covid.
- Mae'n debygol y bydd cyfnodau clo a chyfyngiadau Covid-19 wedi arwain yn arbennig at dan-adrodd am drais domestig ac anawsterau iechyd meddwl.
- Yn dilyn lansio'r fenter 'Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd', a welodd dros 1,000 o bobl yn gwirfoddoli i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed i gael gafael ar fwyd a chyflenwadau meddygol ar ddechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020, mae lefelau uchel o wirfoddoli wedi parhau. Rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2020, dosbarthwyd 6,212 o barseli bwyd i bobl sy'n agored i niwed.

Amcan Lle 5

---

Prifddinas sy'n  
Gweithio Dros Gymru

---



## Trosolwg

Caerdydd yw pwerdy economaidd Cymru, yn gwneud cyfraniad allweddol at greu swyddi a chyfoeth i bobl y ddinas a'r ddinas-ranbarth ehangach. Mae Caerdydd yn cyfrif am 18% o Werth Ychwanegol Gros Cymru ac mae Prifddinas Ranbarth De-ddwyrain Cymru hefyd yn creu dros hanner cynnyrch economaidd Cymru.

Er bod gan Gaerdydd y blociau adeiladu ar gyfer economi gystadleuol, mae cynhyrchiant dal y tu ôl i nifer o ddinasoedd blaenllaw'r DU, sydd yn ei dro'n effeithio ar enillion. Mae nifer y cyflogwyr sy'n talu'r Cyflog Byw Go Iawn yng Nghaerdydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf; Caerdydd sydd â'r ganran isaf o swyddi sy'n talu llai na'r Cyflog Byw yng Nghymru ac mae ymhlith yr isaf o'r Dinasoedd Craidd. Hefyd mae lefelau incwm gwario yng Nghaerdydd ar y cyfartaledd Cymreig, er bod Gwerth Ychwanegol Gros yn sylweddol uwch. Mae enillion yng Nghaerdydd yn is na chyfartaledd y DU, er eu bod yn codi o ychydig bach.

Cynnig chwaraeon a hamdden Caerdydd, yn ogystal â'i sîn ddiwylliannol a'i diwydiant croeso a manwerthu, yw rhai o'r prif bethau sy'n denu trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, ac mae ganddynt oll ran hanfodol i'w chwarae yn llwyddiant economaidd y ddinas.

Dioddefodd y sectorau hyn yn arw oherwydd y pandemig; ers dyfodiad Covid-19 ym Mawrth 2020, bu'n rhaid i gyrchfannau diwylliannol, llety a siopau gau yn aml er mwyn rheoli lledaeniad y feirws, a chanslwyd digwyddiadau.

Dyblodd y gyfradd cyfrif hawlwr yng Nghaerdydd ar ddechrau'r pandemig, er ei fod wedi gostwng ers hynny. Fodd bynnag, mae'r gyfradd yn sylweddol uwch ym mhumed rhan mwyaf difreintiedig y boblogaeth. Er gwaethaf cyfyngiadau'r cyfnod clo, llwyddwyd i osgoi lefelau uchel cyson o ddiweithdra yng Nghaerdydd, er i'r gyfran godi o 3.7% yn 2020 i 5.1% yn 2021<sup>12</sup>.

Nodwedd groesawgar a deniadol arall o Gaerdydd yw ei seilwaith gwyrdd a glas. Mae gan y ddinas dreftadaeth gyfoethog o seilwaith gwyrdd sy'n rhan annatod o'i chymeriad, o'r parcdir ym Mharc Bute, i'r llwybrau coed a'r mannau gwyrdd sy'n gefndir i'r Ganolfan Ddinesig. At hynny, gellir priodoli llawer o lwyddiant y ddinas i'w chamlesi, ei hafonydd a'i lleoliad ar y glannau. Er bod hyn yn hanfodol o ran gwydnwch yn wyneb y newid yn yr hinsawdd, gyda manteision bioamrywiaeth, mae seilwaith gwyrdd a glas Caerdydd hefyd yn cyfrannu at iechyd a lles meddyliol trigolion.

Gellir dweud fod Caerdydd yn ddinas gyda sgiliau; mae sgiliau lefel uchel uwchlaw'r cyfartaledd a'r nifer o oedolion heb sgiliau o gwbl yn isel.

Gyda thair prifysgol yn y ddinas a'r rhanbarth, maent yn cludo doniau i mewn i economi a bywyd diwylliannol y ddinas. At y dyfodol, bydd angen i'r ddinas ganolbwyntio ar fuddsoddi mewn hyfforddiant sgiliau a chefnogi pobl ifanc, menywod a gweithwyr a ddisodlwyd gan y pandemig i mewn i waith, gan wneud yn siŵr y bydd y gefnogaeth hon ar gael i gymunedau lleiafrifol ethnig er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch mewn gweithgaredd economaidd a chyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod sgiliau'n cydfynd ag uchelgais y ddinas ar gyfer adferiad llewyrchus, gwyrdd a chyfartal. Bydd denu mewnffuddsoddiad i greu swyddi yn niwydiannau gwerth-uchel y dyfodol—gan gynnwys yr economi werdd—yn ogystal â chreu swyddi hygyrch o ansawdd da ar draws cymunedau Caerdydd i wella lles economaidd a chymdeithasol hefyd yn parhau i fod yn hanfodol.

Mae niferoedd ymwelwyr, a'r effaith economaidd a ddaw yn eu sgil, wedi cwympo'n ddramatig oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, yr oedd y niferoedd yn gryf ac yn cynyddu cyn y pandemig a'r gobaith yw y byddant yn dychwelyd wrth i'r pandemig gilio. Bydd angen i waith adfer yng nghanol y ddinas ganolbwyntio ar ddatblygu atyniadau a phrofiadau unigryw i ail-godi niferoedd yr ymwelwyr fydd yn dod yno.


## Cynnyrch Economaidd (Gwerth Ychwanegol Gros)

Mae Gwerth Ychwanegol Gros yn mesur gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, ac yn rhoi syniad felly o ba mor gryf yw'r economi yno. Yn 2019, roedd Gwerth Ychwanegol Gros y pen yng Nghaerdydd yn £32,333, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd Cymreig a fyryn yn uwch na chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, mae bwlch mawr mewn Gwerth Ychwanegol Gros y pen rhwng Caerdydd a rhai Dinasoedd Craidd, sef Manceinion a Chaerdydd, sy'n dangos fod angen i Gaerdydd wneud cynnydd yn y maes hwn. Rhwng 2015 a 2019, cododd Werth Ychwanegol Gros y pen yng Nghaerdydd yn fras o 13% ac y mae wedi parhau'n gyson uwchlaw cyfartaleddau Cymru a'r DU.

## Cynhyrchiant

Mae Caerdydd yn methu â sicrhau'r manteision cynhyrchiant 'cydgrynhoad' posibl o gymharu â dinasoedd Ewropeaidd mawr eraill oherwydd diffyg dwysedd a graddfa.

Dinasoedd Cymru sy'n gwneud y cyfraniad cyfrannol isaf at allbwn rhanbarthol o'i gymharu â holl ranbarthau eraill y DU. Mae'r angen am ddinasoedd cystadleuol yn cael ei ategu gan bwysau sylweddol o waith rhyngwladol. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn nodi, "po fwyaf yw'r cydgrynhoad trefol o fewn rhanbarth, y cyflymaf yw'r twf yn y rhanbarth."



<sup>12</sup> Mae ffigur 2020 wedi'i gymryd o ddata diweithdra seiliedig ar fodel rhwng Gorffennaf 2019 a Mehefin 2020, tra bod ffigur 2021 wedi'i gymryd o ddata diweithdra seiliedig ar fodel rhwng Gorffennaf 2020 a Mehefin 2021.

## Proffil y Farchnad Lafur

Am y flwyddyn sy'n dod i ben ar fis Mehefin 2021, yr oedd dros dri chwarter (77.4%) o boblogaeth Caerdydd 16-64 oed yn economaidd weithgar (naill ai mewn gwaith neu'n mynd ati i chwilio am waith). Fodd bynnag, roedd y gyfradd hon yn amrywio'n fawr yn ôl rhyw; roedd 84.6% o ddynion yn weithgar o gymharu â dim ond 69.9% o fenywod. Mae gwahaniaeth tebyg yn ôl ethnigrwydd, gyda 21.0% o'r boblogaeth wyn 16-64 oed yn economaidd anweithgar (nid mewn cyflogaeth nac yn chwilio am waith), o'i gymharu â 30.6% o'r rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn dangos bod bwlch rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd o ran ymwneud â'r farchnad lafur ar draws y ddinas.


Yn gyffredinol, roedd 55,800 o bobl yng Nghaerdydd (22.6% o'r rhai 16-64 oed) yn cael eu hystyried yn economaidd anweithgar. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros fod yn anweithgar oedd bod yn fyfyrwr (45.5%), yna â salwch tymor-hir (18.1%) a gofalu am y teulu/cartref (16.0%).

Yn 2020, y 3 swydd uchaf, fesul diwydiant, oedd:

1. Gwaith Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol (13.2% o swyddi)
2. Masnach Gyfanwerthu a Manwerthu; Trwsio Cerbydau Modur a Beiciau Modur (10.8%)
3. Gweinyddu Cyhoeddus ac Amddiffyn; Nawdd Cymdeithasol (10.4%)/ Addysg (10.4%)

Rhwng Gorffennaf 2020 a Mehefin 2021, roedd 60.8% o boblogaeth gyflogedig Caerdydd yn y galwedigaethau isod:

1. Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion (10.6%)
2. Galwedigaethau Proffesiynol (28.7%)
3. Proffesiynol a Thechnegol Cysylltiedig (21.3%)




## Diweithdra

Y gyfradd ddiweithdra yng Nghaerdydd yn 2021<sup>13</sup> oedd 5.1%, ychydig uwch na chyfartaledd Prydain Fawr o 5.0% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 4.4%. Ers cyrraedd pegwn o 9.9% yn 2013, tuag i lawr yn gyffredinol y bu tuedd diweithdra yng Nghaerdydd. Adeg yr Asesiad Lles diwethaf yn 2016, roedd y gyfradd ddiweithdra yn 6.0%.

Bu gwahaniaeth mawr ers amser yng nghyfraddau anweithgarwch economaidd trigolion ethnig lleiafrifol a gwyn Caerdydd, gyda'r boblogaeth ethnig lleiafrifol yn llawer mwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar.<sup>14</sup>

**Cyfradd Anweithgarwch Economaidd (16-64 oed) yng Nghaerdydd yn ôl Ethnigrwydd, Gorffennaf 2011-Mehefin 2012 i Orffennaf 2020-Mehefin 2021**



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol y Boblogaeth

<sup>13</sup> Yn seiliedig ar ddata Gorffennaf 2020 i Fehefin 2021.

<sup>14</sup> Mae lwfansau ansicrwydd mawr mewn ffigurau lleiafrifoedd ethnig, ond mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau yn arwyddocaol am y rhan fwyaf o'r cyfnod y mae a wnelo'r siart ag ef

## Enillion Cyfartalog a'r Cyflog Byw

Yn 2021, roedd enillion gros wythnosol cymedrig gweithwyr llawn-amser yng Nghaerdydd yn £586.70, oedd yn fwy na'r cyfartaledd Cymreig, ond eto islaw cyfartaledd y DU (£610.70) a bron bob un o'r Dinasoedd Craidd eraill.

Rhwng 2016 a 2021, cynyddodd enillion gros wythnosol cymedrig pobl oedd yn gweithio yng Nghaerdydd o 10%, yn is na'r cyfraddau cynnydd a welwyd ledled Cymru (14%) a'r DU (13%).

Mae lefelau incwm aelwydydd hefyd yn amrywio ar draws y ddinas, gan aros yn isel mewn sawl rhan. Mae bron i un o bob pump (19.2%), neu 41 o 214 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHiau) yng Nghaerdydd ymysg y 10% mwyaf difreintiedig o ran incwm yng Nghymru. Mae'r ACEHiau hyn i'w gweld yn bennaf yn 'Arc Ddeheuol' y ddinas, lle mae dros draean (35.6%) o'r ACEHiau wedi'u rhestru yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Fel Dinas Cyflog Byw, mae nifer y cyflogwyr sy'n talu'r Cyflog Byw

Gwirioneddol yng Nghaerdydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2021, canran y swyddi â thâl fesul awr islaw'r cyflog byw oedd 11.6%. Mae'r ganran hon yn sylweddol is na chyfartaleddau'r DU gyfan (17.1%) a Chymru gyfan (17.9%) yn ogystal â'r rhan fwyaf o Ddinasoedd Craidd eraill a phob awdurdod lleol arall yng Nghymru. Rhwng 2020 a 2021, gostyngodd canran y swyddi gweithwyr â thâl fesul awr islaw'r cyflog byw gan 2.7 pwynt canran.

## Cymwysterau

Yn 2020, roedd canran poblogaeth oedolion Caerdydd oedd â chymwysterau i NVQ4+ (lefel gradd neu'r hyn sy'n cyfateb) fyfyrn dan 50% (49.2%), sydd ymhell uwchben cyfartaledd Cymru a'r DU, ac yn uwch na mwyafrif y Dinasoedd Craidd eraill. Ers 2004, arhosodd canran y bobl â chymhwyster lefel gradd yng Nghaerdydd yn gyson uwch na chyfartaleddau Cymru a'r DU. Rhwng 2016 a 2020, tuag i fyny ar y cyfan y bu'r duedd hon yng Nghaerdydd.

Yn 2020, yr oedd canran poblogaeth oedolion Caerdydd heb unrhyw gymwysterau ychydig dros 5%, sy'n cymharu'n ffafrio â chyfartaleddau Cymru a'r DU, yn ogystal â'r cyfraddau a welwyd yn y rhan fwyaf o'r Dinasoedd Craidd eraill.




## Busnesau Newydd

Yn 2020, crëwyd 46.0 o fentrau newydd am bob 10,000 o'r boblogaeth yng Nghaerdydd, sef 1,700 busnes. Mae'r gyfradd hon yn uwch na chyfartaledd Cymru (37.6), ond gryn dipyn islaw cyfartaledd y DU (53.3) a'r rhan fwyaf o'r Dinasoedd Craidd; dengys maint y bwlch rhwng Caerdydd a Bryste, Birmingham a Manceinion fod llawer o le i wella yn y maes hwn.

Mae'r gyfradd bresennol yn is nag yr oedd adeg yr Asesiad Lles diwethaf yn 2016 (49.3%).

Busnesau Newydd a Gychwynnwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth, 2015-2020



Ffynhonnell: Demograffeg Busnes/Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol



## Diwylliant

Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae diwylliant wedi cael ei ddefnyddio'n ddyfeisgar i drawsnewid Caerdydd. Felly, mae cynnig diwylliannol y ddinas yn faes o fantais gystadleuol, ac mae ei seilwaith a'i chynnig eang yn cael eu cydnabod gan ddinasyddion fel rhai ymhlith y gorau yn Ewrop. Mae'r sector creadigol yn creu dros £1bn o Werth Ychwanegol Gros i economi Caerdydd bob blwyddyn ac yn cyflogi oddeutu 15,000 o bobl – sy'n cynrychioli traean o'r sector yng Nghymru.

Fel canolfan genedlaethol ar gyfer y celfyddydau a pherfformio, mae'r ddinas yn gartref i leoliadau diwylliannol mawr, gan gynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru, Neuadd Dewi Sant, a'r Theatr Newydd. Mae cerddoriaeth, yn arbennig, yn elfen bwysig o hunaniaeth a hanes y ddinas, gyda Chaerdydd yn gyfrifol am tua 30% o'r cynhyrchiad a 41% o'r swyddi a grëir gan graidd y sector cerddoriaeth Gymraeg. Mae chwaraeon hefyd yn rhan fawr o ddiwylliant y ddinas, o dimau proffesiynol i'r miloedd o dimau a chlybiau llawr gwlad ar draws y ddinas.

Fel yr amlygwyd yn y Papur Briffio Tystiolaeth o Les Diwylliannol Canolfan

Polisi Cyhoeddus Cymru (2021), yn ogystal ag Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 ar gynnydd yr amcanion lles, mae diwylliant yn siapia dinasoedd fel lle i weithio, i fyw ac i ymweld ag ef, ac mae'n cael ei gydnabod fwyfwy fel ased lles allweddol. Yn wir, mae cyfranogiad unigol/cymunedol neu bresenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth yn gysylltiedig â lefelau uwch o les. Cyn y pandemig, roedd cyfranogiad mewn diwylliant yn uchel yng Nghaerdydd ac roedd y ddinas yn arwain Cymru o ran canran ei thrigolion oedd yn cymryd rhan mewn bywyd diwylliannol (gydag 84% yn mynychu o leiaf dri digwyddiad yn ystod 2019-20). Fodd bynnag, mae gwahaniaeth amlwg – o 17.4 pwynt canran - rhwng y rhannau mwyaf a'r lleiaf diffreintiedig o boblogaeth Caerdydd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gyda'r olaf yn llawer mwy tebygol o fynychu gweithgaredd diwylliannol. Felly, mae angen gwaith i gynyddu cyfranogiad drwy sicrhau bod y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a digwyddiadau chwaraeon lleol yn rhesymol hygyrch i bob cymuned.

At hynny, mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar lawer o'r sector diwylliannol, gyda lleoliadau'n cau yn

sgil y cyfyngiadau am dros flwyddyn. Cafodd chwaraeon ei oedi hefyd, gan effeithio ar gyfranogiad ar lefel broffesiynol ac ar lawr gwlad. Mae byw heb y gweithgareddau diwylliannol hyn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd diwylliant a chefnogaeth i fywyd y ddinas, i'r economi ac i les, gydag un preswilydd, mewn ymateb i arolwg Holi Caerdydd 2020 yn nodi ei bod yn hanfodol i "weithio i gynnal cyfleusterau a lleoliadau diwylliannol [y ddinas] ar ôl COVID."

Yn ogystal â chefnogi'r sector diwylliannol drwy gymorth i gael gafael ar grantiau busnes Covid-19, mae'r ddinas wedi gweithio'n agos gyda'r sector i gyfeirio gymorth ychwanegol o'r Cronfeydd Adferiad Diwylliannol a weinyddir gan Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Wrth symud ymlaen, bydd yn hanfodol rhoi diwylliant a chwaraeon wrth wraidd adferiad, gan groesawu'r rôl y mae'r sector yn ei chwarae wrth lunio canol y ddinas – tynnir sylw at sut y bydd Caerdydd yn gwneud hyn yn Strategaeth Adfer ac Adnewyddu Gwyrddach, Tecach, Cryfach y ddinas. Mae'r Adroddiad Dinasoedd Diwylliannol newydd hefyd yn cyfeirio at y ffordd y gall diwylliant gyfrannu at yr ymdrech adfer.

## Twristiaeth

Caerdydd yw'r gyrchfan twristiaeth ac ymwelwyr bwysicaf yng Nghymru o ran enw da, proffil ac effaith; mae'r ddinas yn cyfrannu dros 25% o'r holl wariant a gynhyrchir gan ymwelwyr yng Nghymru ac mae ganddi wariant uwch y pen fesul ymwelydd nag yn unman arall yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod twristiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol yng Nghaerdydd – nid yn unig o ran gwerth economaidd ond o ran manteision cymdeithasol a diwylliannol.


Mae arlwy diwylliannol Caerdydd hefyd yn gwahaniaethu'r ddinas o ddinasoedd eraill i ymwelwyr. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu arlwy unigryw i dwristiaid ac ymwelwyr dydd yn seiliedig ar brofiadau arloesol wedi'u curadu'n arbennig sy'n adlewyrchu cryfderau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon Caerdydd.

Mae Covid-19 yn amlwg wedi effeithio ar nifer yr ymwelwyr. Rhwng 2019 a 2020, cwympodd y niferoedd yn sydyn: yn 2019, derbyniodd Caerdydd dros 21 miliwn o ymwelwyr, o gymharu â thua 8.25 miliwn yn 2020. O ganlyniad, effeithiwyd yn sylweddol ar effaith economaidd ymwelwyr yng Nghaerdydd, gan ostwng tua 65% rhwng 2019 a 2020.

Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas bellach wedi dychwelyd i nifer yr ymwelwyr cyn y pandemig.

Yn fwy cyffredinol, mae'r sector twristiaeth yn rhan hanfodol o adferiad y ddinas ar ôl Covid. Er mwyn sicrhau bod nifer yr ymwelwyr yn dychwelyd i'r arfer, bydd angen i'r ddinas barhau i adeiladu ar ei dull arloesol o ymdrin â thwristiaeth, gan hyrwyddo Caerdydd i gynulleidfaoedd domestig a rhyngwladol.

**Niferoedd Canol y Ddinas**



## Cerddoriaeth

Mae cerddoriaeth yn elfen bwysig o hunaniaeth a hanes Caerdydd, yn ogystal â chryfder a chyfle o fewn y sector creadigol. Yn 2019, ymgymherodd Sound Diplomacy ag Astudiaeth Ecosystem Cerdd yng Nghaerdydd, er mwyn nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio cerddoriaeth i hyrwyddo'r ddinas, sicrhau cefnogaeth i gerddorion a gweithwyr cerdd proffesiynol, a manteisio i'r eithaf ar werth diwylliannol. Cefnogwyd datblygiad yr astudiaeth

gan dystiolaeth a barn pobl sy'n gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth neu ochr yn ochr ag ef.

Canlyniad yr astudiaeth oedd cyfres o argymhellion strategol sydd â'r potensial i gefnogi'r diwydiant cerdd lleol, creu effaith economaidd, a gwella ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn y ddinas, yn ymweld â hi neu'n dewis astudio yn y ddinas. Mae'r argymhellion yn amrywio o gryfhau'r ymgysylltu rhwng y diwydiant cerdd a llunwyr polisi, i hyrwyddo addysg cerdd, sicrhau

ei fod yn cael yr un flaenoriaeth â phynciau eraill, yn ogystal â chefnogi cerddorion sydd â chyfleusterau hygyrch, fforddiadwy a digonol i ymarfer, recordio a pherfformio ynddynt.

Mae'r astudiaeth wedi arwain at sefydlu Bwrdd Cerddoriaeth, i hyrwyddo Caerdydd fel dinas sy'n ystyriol o gerddoriaeth ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal â Rhaglen Waith Strategaeth Cerdd i ddatblygu'r argymhelliad a nodwyd.

## Brexit

Tynnodd y Deyrnas Unedig allan o'r Undeb Ewropeaidd yn swyddogol ar 31 Ionawr 2020, a chafodd 'cyfnod pontio'<sup>15</sup> ei roi ar waith am 11 mis, gan roi amser i gytuno ar berthynas newydd. Arweiniodd hyn at gytuno ar Gytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU ym mis Rhagfyr 2020.

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud – ac wrthi'n cael ei wneud – i baratoi ar gyfer effeithiau Pontio'r UE ar draws y ddinas ac ymateb iddynt. Ochr yn ochr â Covid-19, bydd Brexit yn parhau i gael effaith ddofn ar economi Cymru. Mae ymdrechion i fodelu'r effeithiau tymor byr yn arwain at ganlyniadau ansicr, fodd bynnag, mae modelu helaeth o'r effeithiau tymor canolog posibl yn amcangyfrif y bydd yr effeithiau hyn yn ddyfnach ar rai sectorau nag eraill – fel y nodwyd yn

adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 2020, 'Goblygiadau pontio o'r Undeb Ewropeaidd i sectorau allweddol o Economi Cymru.' Felly, bydd Brexit yn effeithio ar les y rhai a gyflogir yn y sectorau a'r ardaloedd hyn lle maent wedi'u crynhoi'n ddacaryddol.

Y sectorau sydd fwyaf agored i effeithiau pontio o'r UE yw'r rhai sy'n dibynnu ar fewnforio ac allforio i'r UE, megis y sector amaethyddol a bwyd, a'r sectorau gweithgynhyrchu a dur. Mae'r sectorau eraill yr effeithir arnynt yn cynnwys y sector modur; lled-ddargludyddion cyfansawdd; gwasanaethau ariannol; seiberddiogelwch; nwyddau a gwasanaethau digidol a chreadigol; a gwyddorau bywyd. Mae gan Gaerdydd rywfaent o gysylltiad â'r sectorau hyn, er enghraifft y cwmni lled-ddargludyddion pwysig, IQE, yn Llanelwyr, a chyfleusterau awyrodol ar draws y ddinas-ranbarth. Mae gwyddorau

bywyd, seiberddiogelwch a'r economi creadigol hefyd yn sectorau sy'n datblygu yng Nghaerdydd.

Bydd llai o weithwyr tramor hefyd yn effeithio ar economi Caerdydd – yn enwedig gweithwyr o'r UE, sy'n cael eu rhwystro'n benodol gan Brexit. Lleded Cymru, mae hyn eisoes yn arwain at alw arbennig o uchel mewn rhai sectorau, yn enwedig gweithgynhyrchu, trafniadaeth, logisteg a warysau, ac arlwyio a lletygarwch. Gallai llacio rheolau mewnffordd ar ôl Brexit, yn ogystal â buddsoddiad pellach mewn sgiliau a hyfforddiant, helpu i fynd i'r afael â'r prinder hwn yn y tymor hir.


Mae'r sefyllfa ledled Caerdydd – yn ogystal ag ar draws Cymru – yn symud tuag at ymgorffori effeithiau Brexit mewn trefniadau 'busnes fel arfer' ledled y ddinas, gan sicrhau yr eir i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd gan alinio â'r adferiad ar ôl Covid.

## Beth yw barn ein preswylwyr?

Yn 2020, yr oedd ychydig dros 50% o'r trigolion a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod gan Gaerdydd economi lwyddiannus a ffyniannus, sydd yn ostyngiad sylweddol o ryw 15 pwynt canran o gymharu â 2016.

Y pumed ran fwyaf difreintiedig o'r boblogaeth sydd leiaf tebygol o gytuno fod gan Gaerdydd economi lwyddiannus a ffyniannus; mae hyn yn fwllch arwyddocaol o bron i 10 pwynt canran rhwng y pumed ran fwyaf a lleiaf difreintiedig.

*I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn: Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffynnu ac yn llewyrchu? 2020, Pumed Amddifadedd*



Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, 2020

<sup>15</sup> Yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd y DU yn aelod o'r UE mwyach, ond arhosodd yn aelod o'r farchnad sengl a'r undeb tollau.

## CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL

- **Caerdydd yw canolfan economaidd a masnachol Cymru:** Mae Caerdydd yn chwarae rôl hanfodol yn creu swyddi a chyfoeth i bobl y ddinas a'r ddinas-ranbarth ehangach. Fel dinas graidd Cymru, bydd Caerdydd yn parhau i chwarae rôl arweiniol yn economi Cymru ar ôl Covid.
- **Fodd bynnag, mae Caerdydd yn llusgo y tu ôl i rai dinasoedd yn y DU o ran cynhyrchiant:** Mae Caerdydd yn methu â sicrhau'r manteision cynhyrchiant 'cydgrynhoed' posibl i Gymru oherwydd diffyg dwysedd a graddfa. Dinasoedd Cymru sy'n gwneud y cyfraniad cyfrannol isaf at allbwn rhanbarthol o'i gymharu â holl ranbarthau eraill y DU. Mae'r angen am ddinasoedd cystadleuol yn cael ei ategu gan bwysau sylweddol o waith rhyngwladol. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn nodi, "po fwyaf yw'r cydgrynhoed trefol o fewn rhanbarth, y cyflymaf yw'r twf yn y rhanbarth." Mae cydgrynhoed, arloesi a chreadigrwydd yn hanfodol i sbarduno twf economaidd a swyddi wrth symud ymlaen.
- **Mae gan Gaerdydd fwch rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd o ran ymwneud â'r farchnad lafur ar draws y ddinas:** Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, roedd 84.6% o ddynion yn economaidd weithgar (naill ai mewn gwaith neu'n chwilio am waith) o'i gymharu â dim ond 69.9% o fenywod. Mae gwahaniaeth tebyg yn ôl ethnigrwydd, gyda 21.0% o'r boblogaeth wyn 16-64 oed yn economaidd anweithgar (nid mewn cyflogaeth nac yn chwilio am waith), o'i gymharu â 30.6% o'r rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- **Mae lefelau anghydraddoldeb economaidd yn parhau'n uchel:** Oni chymerir camau ar y cyd, bydd yr anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng y cymunedau cyfoethocaf a thlotaf ar draws y dinasoedd yn ehangu. Mae lefelau incwm aelwydydd yn parhau'n isel mewn sawl rhan o'r ddinas. O ystyried y rôl y mae incwm yn ei chwarae ym mhob math o amddifadedd, mae angen twf cynhwysol ledled Caerdydd a'r ddinas-ranbarth.
- **Mae Caerdydd yn Ddinas Cyflog Byw, ond mae lefelau incwm gwario aelwydydd yn parhau'n isel:** Mae nifer y cyflogwyr sy'n talu'r Cyflog Byw Go Iawn yng Nghaerdydd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blyneddoddi diwethaf; Caerdydd sydd â'r ganran isaf o swyddi sy'n talu llai na'r Cyflog Byw yng Nghymru ac mae ymhlith yr isaf o'r Dinasoedd Craidd. Fodd bynnag, mae lefelau incwm gwario yng Nghaerdydd ar lefelau cyfartaledd Cymru er bod gwerth ychwanegol gros yn sylweddol uwch, gan adlewyrchu'r costau ychwanegol (tai yn arbennig) o fyw yn y ddinas.
- **Mae Caerdydd yn Ddinas Fedrus:** Mae Sgiliau Uwch (lefel gradd neu gyfwerth) yn uwch na'r cyfartaledd ac mae nifer yr oedolion heb sgiliau yn isel. Mae gan Gaerdydd hefyd bresenoldeb prifysgol cryf, gyda thair prifysgol, sy'n gartref i arbenigedd ymchwil sy'n arwain y byd.
- **Cynnig chwaraeon a hamdden Caerdydd, yn ogystal â'i sîn ddiwylliannol a'i diwydiant croeso a manwerthu, yw rhai o'r prif bethau sy'n denu trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.** Mae pob un ohonynt yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant economaidd y ddinas, yn ogystal â lles unigolion a chymunedau.

## Effaith Covid-19:

- Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar bob agwedd ar fywyd y ddinas. Effeithiwyd yn arbennig ar swyddi a busnesau lle ceir cyswllt uniongyrchol â pherson, gan gynnwys manwerthu, lletygarwch a gwasanaethau cyswllt agos – mae'r sectorau hyn fel arfer, er nid yn benodol, wedi'u crynhoi yng nghanol y ddinas.
- Rhoddodd y rhan fwyaf o fusnesau yng nghanol y ddinas y gorau i weithredu yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Mae hyn mewn ardal sydd â bron 70,000 o swyddi, clwstwr cyflogaeth mwyaf Cymru, sy'n cynrychioli tua thraean o weithlu'r ddinas ac yn gyfrifol am ddenu'r rhan fwyaf o'r 21 miliwn o ymwelwyr blyneddol i'r ddinas.
- Ledled y DU, mae busnesau wedi bod yn dileu swyddi'n barhaol hefyd. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi bod o ganlyniad i effaith economaidd uniongyrchol y pandemig, tra bod busnesau eraill (yn enwedig rhai cadwyni manwerthu mawr ar y stryd fawr) wedi gweld cynnydd mewn tueddiadau fel siopa ar-lein. Mae canol dinasoedd hefyd wedi gweld effaith cyfyngiadau ar ddigwyddiadau a nifer yr achosion o weithio o gartref i weithwyr swyddfa – roedd 46% o'r gweithlu yn gweithio gartref ar anterth y pandemig.
- Yn ystod 2021, mae nifer yr ymwelwyr â Chanol Dinas Caerdydd bron wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae canol y ddinas yn wynebu heriau a bydd yn parhau i wneud hynny – tra bod trefniadau gweithio hybrid yn parhau ar waith, mae gweithwyr swyddfa yn annhebygol o ddychwelyd i ganol y ddinas ar yr un raddfa, a bydd effeithiau 'Amazonieiddio' y stryd fawr yn parhau. Nid yw effeithiau hirdymor hyn, yn enwedig ar y farchnad lafur, yn hysbys ar hyn o bryd.
- Er gwaethaf cyfyngiadau'r cyfnod clo, llwyddwyd i osgoi lefelau diweithdra uchel a pharhaus yng Nghaerdydd. Y gyfradd diweithdra yng Nghaerdydd yn 2021 oedd 5.1% – er bod hyn yn gynnydd o 3.7% ers 2020. Mae'r gyfradd ychydig yn uwch na chyfartaledd Prydain Fawr, sef 5.0% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 4.4%.
- Daeth cynllun ffyrlo Llywodraeth y DU, a oedd yn diogelu miliynau o swyddi ledled y DU, i ben ym mis Medi 2021. Mae data cychwynnol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn dangos bod nifer y gweithwyr yn y DU ar gyflogres wedi codi gan 160,000 rhwng mis Medi a mis Hydref 2021, fodd bynnag, mae'n debygol na welir effaith lawn dod â ffyrlo i ben am sawl mis arall.
- Gostyngodd nifer yr ymwelwyr a'u heffaith economaidd gysylltiedig yn sylweddol oherwydd y pandemig, ond roedd nifer yr ymwelwyr â Chaerdydd yn dda ac yn codi cyn y pandemig, a disgwylir iddynt ddychwelyd wrth ddod allan o'r pandemig.
- Drwy ddulliau ymgysylltu, mae trigolion yn aml wedi tynnu sylw at bwysigrwydd adferiad economaidd, gydag un preswlydd yn nodi yn Ymgynghoriad Cyllideb 2021, "Mae adferiad economaidd yn hanfodol i les holl ddinasyddion Caerdydd. Heb economi hyfyw, ni ellir mynd i'r afael â'r un o'r materion eraill."

<sup>16</sup> Mae ffigur 2021 wedi'i gymryd rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mehefin 2021, tra bod ffigur 2020 wedi'i gymryd rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mehefin 2020.



Amcan Lles 6

---

Mae Caerdydd yn  
Tyfu mewn Ffordd  
Gadarn

---

## Trosolwg

Newid hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf difrifol o hyd i Gaerdydd gydag effeithiau megis cynnydd yn lefel y môr, mwy o dywydd eithafol a phrinder adnoddau naturiol a chydnerthedd ecosystemau, yn rhoi'r ddinas a lles dinasyddion mewn perygl uniongyrchol. Mae rheoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd gadarn a chynaliadwy yn her hirdymor fawr i Gaerdydd.

Mae effeithiau'r argyfwng hinsawdd eisoes yn cael eu teimlo yng Nghaerdydd, gan gynnwys patrymau tywydd afreolaidd, tywydd poeth, a newidiadau mewn bioamrywiaeth. Mae hyn wedi arwain at gostau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig wrth i fusnesau a dinasyddion gael trafferth gyda materion fel difrod llifogydd ac ymyriadau eraill i'w bywydau bob dydd. Mynegodd ychydig 87% o drigolion bryder am yr Argyfwng Hinsawdd. Nid peth newydd, serch hynny, yw'r daith tuag at ymdrin â'r her, a bu gwaith ar y gweill i leihau allyriadau carbon deuocsid Caerdydd a'i gwneud yn fwy gwydn i wrthsefyll newid hinsawdd ers llawer blwyddyn. Mae mwy o waith i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd yn cael ei wneud

trwy Strategaeth Un Blaned Caerdydd a'r Cynllun Gweithredu ddinas gyfan gan anelu at wneud Caerdydd yn garbon niwtral erbyn 2030.

Gan Gaerdydd y mae'r ffigur ail uchaf am allyriadau CO2 y pen o 'Ddinasoedd Craidd' y DU. Fodd bynnag, bu allyriadau Caerdydd tuag i lawr ers 2016 ac yn gyson islaw'r ffigurau am y DU a Chymru. Allyriadau o drafnidiaeth, ar 41% ac eiddo domestig, ar 27% yw'r rhan fwyaf o ôl troed carbon Caerdydd. Mae hyn yn cymharu â diwydiant ar 14%, y sector masnachol ar 12% a'r sector cyhoeddus ar 6%.

Mae Caerdydd yn parhau i fod â'r cyfaint mwyaf o draffig cerbydau modur fesul awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n cyfrannu at allyriadau carbon Caerdydd. Fodd bynnag, mae'r defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gydag ychydig dros 51% o drigolion Caerdydd bellach yn teithio i'r gwaith trwy ddefnyddio cludiant cynaliadwy.

O'r 130 erw o erddi a pharcdir sydd wedi'u tirlunio ym Mharc Bute, y camlesi, yr afonydd a lleoliad y ddinas ar y glannau, mae gan Gaerdydd dreftadaeth gyfoethog o seilwaith glas a gwyrdd sy'n rhan annatod o'i chymeriad. Caerdydd

sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran hwylustod cerdded i fannau gwyrdd lleol a hi sydd â'r nifer fwyaf o wobrau yng Nghymru o ran Gwobr y Faner Werdd, gyda chyfanswm o 35 safle yn cael eu gwobrwyo. Fodd bynnag, mae bod yn agos at fannau gwyrdd hygyrch yn amrywio ar draws y ddinas.

Yn sgil Covid-19 yn 2020, bu'n rhaid gwneud gwaith brys i drawsnewid canol dinas Caerdydd a chanolfannau ardal yn fannau Covid-ddiogel. Er nad yw'r data diweddaraf sydd ar gael yn llawn ddal y goblygiadau hyn, gwyddom fod y gwaith nid yn unig wedi helpu i ddiogelu trigolion ac ymwelwyr, ond hefyd wedi gwella'r parth cyhoeddus a'r amgylchedd lleol – gan gynnwys gwelliannau i ansawdd aer. Ni wyddom ar hyn o bryd beth fydd y goblygiadau hirdymor, ond byddwn yn parhau i wneud y gorau o'r manteision, lle bo modd, at y dyfodol.

Caerdydd yw'r awdurdod lleol sy'n perfformio waethaf yng Nghymru o ran canran y gwastraff dinesig sy'n cael ei aildddefnyddio/ ailgylchu/ compostio, er ei bod yn perfformio'n well na phob dinas mawr arall y DU. Mae'r ganran yng Nghaerdydd wedi gostwng dros y ddwy flynedd diwethaf i 55.8% yn 2021.

## Newid yn yr Hinsawdd


### Risg Hinsawdd

Rhagwelir y bydd y newidiadau yn yr hinsawdd yr ydym eisoes yn eu profi yn parhau ac yn dwysáu. Yn ail hanner y ganrif, bydd swm y newid yn dibynnu llawer ar ba mor llwyddiannus y byddwn wrth leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ledled y byd<sup>17</sup>.

Yn arolwg Holi Caerdydd 2020, mynegodd mwyafrif mawr o drigolion Caerdydd (87.1%) bryder am yr Argyfwng Hinsawdd, i fyny ychydig o 83.9% a adroddwyd yn 2019.

Mae risgiau newid hinsawdd yn cael effaith ar bob maes lles. Mae risg hyn yn awr ac yn y dyfodol i Gymru yn uchel, a rhaid cymryd camau pellach. Fel y nododd ymatebwyr i'r Ymgynghoriad ar Gyllideb 2021, "Oni bai ein bod yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd mae'r holl flaenoriaethau eraill yn amhosibl ac yn amherthnasol" ac "os nad eir i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, bydd yr holl amcanion eraill yn ddibwrpas."

### Pa mor bryderus ydych chi am yr Argyfwng Hinsawdd? 2020



Ffynhonnell: Holi Caerdydd 2020, Cyngor Caerdydd

<sup>17</sup> Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU: Crynodeb Cymru (UK Climate Risk, 2021)

## Effaith ar Iechyd a Lles a Grwpiau Penodol mewn Cymdeithas

Bydd newid hinsawdd yn cael cryn effaith ar iechyd a lles, yn ogystal ag ar grwpiau poblogaeth mewn cymdeithas.

Golyga newid hinsawdd fod tywydd eithafol, llifogydd a thywydd poeth yn debyg o ddigwydd yn amlach yng Nghymru. Erbyn y 2050au yng Nghymru, rhagwelir y bydd tymhereddau blyneddol yn codi o 1.2 gradd, gyda glawiad yn yr haf yn debygol o ostwng o ryw 15% Rhagwelir y bydd glawiad yn y gaeaf


yn codi o 6% a rhagwelir y bydd lefelau'r môr yn codi o 22cm.

Mae pobl ar incwm isel yn llai tebygol o feddu ar yr adnoddau i addasu neu adfer o lifogydd neu fathau eraill o dywydd eithafol. Gallai bygythiadau i sicrwydd bwyd weld codiadau posib yng nghostau bwyd, ac y mae'r sawl sy'n byw mewn ardaloedd o anfantais cymdeithasol-economaidd yn fwy tebygol o wynebu cyddwysyadau uwch o lygredd aer.

Gallai tywydd mwy eithafol hefyd gael cryn effaith ar bobl hŷn. Yn ogystal ag wynebu mwy o risg o salwch a marwolaeth cysylltiedig â gwres, gall ynysu cymdeithasol gynyddu yn ystod tywydd poeth. Mae pobl hŷn yn arbennig o fregus yn ystod llifogydd

a allai darfu ar eu cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae oedolion hyn hefyd yn fwy agored i effeithiau ansawdd aer gwael.

Mae pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd tymor hir hefyd yn arbennig o fregus yn ystod tywydd poeth a llifogydd. Gall tywydd poeth gael effaith negyddol ar gyflyrau fel problemau iechyd meddwl, clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol, a diabetes. Gall diffyg cwsig yn ystod tywydd poeth hefyd gael cryn effaith.




## Allyriadau CO2

Dengys data BEIS fod gan Gaerdydd y ffigur ail uchaf am allyriadau CO2 y pen o Ddinasoedd Craidd y DU. Fodd bynnag, gostyngodd allyriadau Caerdydd ers 2015, o 5.3t i 4.4t, ac y maent yn gyson wedi bod o dan y ffigurau cyffredinol am y DU a Chymru.

Trafnidiaeth sydd yn cyfrannu fwyaf at allyriadau CO2, sef 41.2%.

Bydd gweithredu prosiectau Caerdydd Un Blaned yn arwain at ostyngiad o 22% y flwyddyn mewn allyriadau. Y gostyngiadau mwyaf arwyddocaol mewn allyriadau y rhagwelir fydd yn digwydd yw'r rhai o weithredu Papur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd, os bydd yn cwrdd â'r uchelgais i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd o deithio ar y ffyrdd gan 50% ar draws y ddinas.

**Allyriadau CO2 Caerdydd yn ôl Prif Fath o Allyriadau (% o Gyfanswm yr Allyriadau), 2015-2019**



Ffynhonnell: BEIS

## Ansawdd Aer

Mae costau cymdeithasol enfawr i ansawdd aer gwael yn sgil ei effeithiau ar iechyd, a'i effeithiau niweidiol ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth. Nid yw unrhyw lefel o lygredd aer yn 'ddiogel' ac er bod ansawdd aer gwael yn effeithio ar bob un ohonom, mae rhai pobl yn fwy agored i niwed nag eraill. I gael rhagor o fanylion am lygredd aer ac anghydraddoldebau, gweler y Bennod 'Iechyd a Lles'.





## Nitrogen Deuocsid<sup>18</sup>

Ar sail data modelu'r DU, gan Gaerdydd y mae'r lefelau llygredd NO<sub>2</sub> uchaf yng Nghymru, gyda lefelau uchel o lygredd amlycaf yng nghanol y ddinas ac o'i chwmpas, a'r rhan o'r M4 gerllaw'r Eglwys Newydd a Thongwynlais.

Fodd bynnag, dengys y data modelu fod lefelau NO<sub>2</sub> Caerdydd wedi gostwng rywfaint ers 2015, o 19 µg/m<sup>3</sup> i 16 µg/m<sup>3</sup> yn 2019.


Ar hyn o bryd, mae 4 Ardal Reoli Ansawdd Aer (ARhAA) wedi eu datgan ar draws Caerdydd, a chawsant oll eu datgan oherwydd bod mesuriadau'n dangos eu bod uwchlaw'r Safon Ansawdd Aer NO<sub>2</sub> blynyddol cymedrig (40 µg/m<sup>3</sup>), a gwyddys fod prif ffynhonnell y llygredd yn deillio o allyriadau trafniadaeth y ffyrdd:

1. Pont Elái
2. Cwrt Stephenson
3. Llandaf
4. Canol Dinas Caerdydd

Dangosodd data monitro a gafwyd yn ystod 2020 fod cyddwysiadu gafodd eu monitro am NO<sub>2</sub> oll yn cydymffurfio â'r amcan cyfartalog blynyddol o 40 µg/m<sup>3</sup>, gan gynnwys pob lleoliad monitro yn yr ARhAAu sefydledig.

Yn dilyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, gwelwyd gostyngiad amlwg o 40% mewn llygredd aer

## NO<sub>2</sub> Blynyddol Cymedrig (µg/m<sup>3</sup>), 2019 (DEFRA)



Ffynhonnell: Data a Fodelwyd gan Defra<sup>19</sup>

yng nghanol Caerdydd o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn (er enghraifft, cyfartaledd o 14.4 µg/m<sup>3</sup> o gymharu â 23.9 µg/m<sup>3</sup> yn Heol Frederic). Roedd gwelliannau o ran ansawdd aer ar draws y ddinas yn parhau i'w gweld yn dilyn cyfnodau clo dilynol.

Gellir cysylltu'r gwelliannau â gostyngiad yn nifer y bobl a oedd

yn teithio mewn ceir i'r gwaith a chanolfannau siopa, a chynnydd mewn cerdded a beicio yn ystod y cyfnodau clo. Mae'n werth nodi bod gostyngiadau'n ymddangos yn fwy mewn ardaloedd llai difreintiedig; mae hyn yn debygol o fod oherwydd bod cyfran uwch o oedolion sy'n gweithio yn gallu gweithio gartref yn yr ardaloedd hyn.

## Deunydd Gronynnol (PM<sub>2.5</sub>)<sup>19</sup>

Gan Gaerdydd y mae'r lefelau llygredd PM<sub>2.5</sub> uchaf a fodelwyd yng Nghymru, gyda lefelau uchel o lygredd yn fwyaf amlwg y tu allan i ganol y ddinas, yn bennaf ym Mhlasnewydd ac Adamsdown.

Gostyngodd lefelau PM<sub>2.5</sub> Caerdydd fymryn ers 2015, o 10 µg/m<sup>3</sup> i 9 µg/m<sup>3</sup> yn 2019.

## Deunydd Gronynnol (PM<sub>10</sub>)<sup>19</sup>

Gan Gaerdydd y mae'r lefelau uchaf o lygredd PM<sub>10</sub> a fodelwyd yng Nghymru, gyda lefelau uchel o lygredd yng nghanol y ddinas ac yn union y tu allan, yn bennaf yn Cathays, Plasnewydd, Adamsdown a Phen-y-lan. Mae lefelau uchel o lygredd hefyd mewn rhannau o Bentwyn, Pontprenau/ Pentref Llanelwyr, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, Radur a Phentre-poeth a Phentyrch.

Gostyngodd lefelau PM<sub>10</sub> Caerdydd fymryn ers 2015, o 15 µg/m<sup>3</sup> i 14 µg/m<sup>3</sup> yn 2019. Mae hyn yn is na gwerth canllaw PM<sub>10</sub> Sefydliad Iechyd y Byd a ddiwygiwyd yn 2021 o 15 µg/m<sup>3</sup>.

Roedd data PM<sub>10</sub> a gafodd ei fonitro o 2020 yng ngorsafoedd monitro AURN Heol Frederic, Richards Terrace a Stryd y Castell yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r amcan ansawdd aer cyfartalog blynyddol am PM<sub>10</sub> o 40 µg/m<sup>3</sup>.

<sup>18</sup> Cefnogir data a fodelwyd gan ddata lleol (sy'n cael ei fonitro) a gesglir fel rhan o ddyletswyddau'r Cyngor dan Reoli Ansawdd yr Aer Lleol.

<sup>19</sup> Mae'r data'n cynrychioli lefelau NO<sub>2</sub> cyfartalog – gall fod gan leoliadau penodol lefelau uwch neu is na'r hyn a nodir ar y map.

## Ecosystem Wydn

Mae colli bioamrywiaeth yn cyflymu ar raddfa ddigynsail yng Nghymru ac yn fyd-eang. Bydd llai o gadernid ecolegol yn effeithio ar sut mae ecosystemau'n adfer ac yn addasu i ddigwyddiadau aflonyddwch fel tanau gwyllt, tywydd eithafol neu glefydau.

Yng Nghymru, mae 8% o rywogaethau ar y rhestr goch sydd dan fygythiad difodiant, ac mae 17% o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddifodiant.

Ar gyfer yr 16 safle cadwraeth gwarchodedig yng Nghaerdydd, nid oes digon o dystiolaeth, adnoddau staff na dealltwriaeth i asesu cyflwr 50% o'r nodweddion gwarchodedig allweddol. O'r nodweddion hynny y gellir eu hasesu, mae

5 o 13 mewn 'cyflwr anffafriol'.

Rhywogaethau Estron Goresgynol yw un o'r pum prif fygythiad ac achosion ddirywiad bioamrywiaeth, ynghyd a newid hinsawdd, newid mewn cynefinoedd, llygredd a cham-fanteisio. Rhwng 2016 a 2019, bu 133 digwyddiad o Rhywogaethau Estron Goresgynol yng Nghaerdydd.

Un o elfennau hanfodol cadernid ecolegol fydd sicrhau bod natur yn gweithio gyda ni a throsom, yn hytrach nag yn ein herbyn. Gellid targedu atebion sy'n seiliedig ar natur at ardaloedd o amddifadedd yn benodol, gan sicrhau bod pobl yn elwa yn y tymor hir ar ecosystemau gwell.

Mae rhagor o fanylion am y goblygiadau i Gaerdydd o ganlyniad i golli bioamrywiaeth, yn ogystal â chynlluniau

presennol y ddinas i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth – gan ddarparu ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol - i'w gweld ym Mlaengynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (DBGE) Caerdydd.

## Adnoddau Naturiol

Mae adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio ar gyfradd anghynaliadwy. Yn fyd-eang, mae gorddefnyddio, dulliau cynhyrchu, ynghyd ag allyriadau, yn arwain at newidiadau yn yr amgylchedd sy'n cael effaith sylweddol ar yr adnoddau naturiol a'r ecosystemau yr ydym yn dibynnu arnynt.

## Diogelu'r Cyflenwad Bwyd

Yn ogystal â thywydd mwy eithafol yn amharu ar gynhyrchu a chyflenwi bwyd yn y DU ac yn rhyngwladol, mae mwy o berygl y bydd plâu, rhywogaethau goresgynol a chlefydau'n effeithio ar gynhyrchu cynydau ac iechyd da byw. Bydd ansawdd pridd gwaeth a llai o ddŵr hefyd yn effeithio ar gynhyrchu cynydau, tra bydd tymheredd dŵr uwch ac asideiddio cefnforoedd yn effeithio ar y pysgod sydd ar gael. Mae Cymru, fel y DU gyfan, yn dibynnu ar fewnforion bwyd o wledydd

eraill ar hyn o bryd, y mae llawer ohonynt yn agored i broblemau yn ymwneud â gostyngiadau mewn cynnyrch cynydau. Yn ogystal â'r risg i cyflenwad bwyd, gallai allyriadau CO2 cynyddol - y mae amaethyddiaeth yn cyfrannu ato i raddau helaeth - effeithio ar fynediad i fwyd maethlon sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd. Dangoswyd bod lefelau uwch o CO2 yn effeithio ar lefelau cynnwys maethol mewn rhai cynydau.

Mae trigolion wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ffynonellau bwyd

cynaliadwy, gydag un ymatebydd i ymgynghoriad Strategaeth Fwyd 2021 dinas gyfan yn nodi, *"Byddai cynhyrchu mwy o fwyd fforddiadwy yn lleol gyda llai o wastraff ac ôl troed carbon yn dda i bawb."*

Ceir rhagor o fanylion o dan y bennod 'Iechyd a Lles'. Bydd materion yn ymwneud â diogelu'r cyflenwad bwyd hefyd yn arwain at gynydd mewn prisiau bwyd a chostau byw a thrafodir hyn yn y bennod 'Cefnogi Pobl allan o Dlodi'.

## Iechyd Dŵr

Mae cyrff dŵr ledled Cymru yn methu ar nifer o fesurau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr; er enghraifft, mae Afon Elái mewn 'cyflwr gwael' tra bod afonydd Taf a Rhymni mewn 'cyflwr cymedrol'. Afon Clun, un o isafonydd Afon Elái, yw'r afon sy'n perfformio waethaf yng Nghymru<sup>20</sup>.

Mae arllwys carthion yn gyfreithiol ac yn anghyfreithlon yn bryder mawr yng Nghaerdydd ac i fyny'r afon. Er enghraifft, yn 2002 gorliffodd Orlif Carthffosiaeth Cyfunol (GCC) ym Maes Hamdden Tongwynlais 206 o weithiau am gyfanswm o 3809 awr<sup>21</sup>.

## Perygl Llifogydd

Mae amllder a difrifoldeb llifogydd yn cynyddu a disgwylir iddo gynyddu ymhellach o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Mae lefelau risg yn debygol o gynyddu ynghyd â nifer yr eiddo yr effeithir arnynt a graddau'r seilwaith sydd mewn perygl.

Ar hyn o bryd mae dros 30,000 o eiddo preswyl yng Nghaerdydd yn wynebu rhyw lefel o berygl llifogydd. Mae'r galw am ymyriadau i leihau'r perygl o lifogydd dŵr wyneb wedi'i ganoli yn yr 'Arc Ddeheuol' – ardal sydd â chrynodiad o amddifadedd. At hynny, pan gyfunir y risgiau o bob ffynhonnell llifogydd (llanw, afonol a dŵr wyneb), mae 5 o'r 33 ardal yng Nghymru y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o fewn Arc Ddeheuol Caerdydd: Llanelw, Y Rhath, Treganna, Glan yr Afon a Grangetown. Felly, mae'r patrwm ar

sail amddifadedd yn glir ac yn gyson. Mae 83% o eiddo yn Ardaloedd Rhybudd am Lifogydd dynodedig CNC yng Nghaerdydd yn gysylltiedig â'i Wasanaeth Rhybudd am Lifogydd.

Bydd newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr hefyd yn achosi peryglon ychwanegol o lifogydd arfordirol. Mae cynefinoedd arfordirol fel morfa heli a gwastadeddau llaid yn chwarae rhan mewn lliniaru perygl llifogydd a darparu manteision ehangach. Fodd bynnag, maent yn cael eu heffeithio ar hyn o bryd gan erydiad a gwasgfa arfordirol, a fydd yn cael eu gwaethgu gan newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys Tredelerch yng Nghaerdydd. Mae yna gyfleoedd i ddefnyddio atebion naturiol i fynd i'r afael â'r pwysau hyn ac i wella bioamrywiaeth strwythurau amddiffyn arfordirol cadarn.

<sup>20</sup> Arsylwi Dyfroedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru)

<sup>21</sup> Is my river fit to play in? (arcgis.com)

<sup>22</sup> Cofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR) (llyw.cymru)


## Trafnidiaeth

Cyn y pandemig, byddai dros 100,000 o bobl yn cymudo i Gaerdydd bob diwrnod - rhyw 80,000 ohonynt mewn ceir<sup>23</sup>. Gyda phoblogaeth yr ardal teithio i'r gwaith fwyaf yng Nghymru, sef 778,000 o drigolion, mae gan Gaerdydd y cyfaint mwyaf o draffig cerbydau modur o bell ffordd o unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Mae trafndiaeth felly yn gyson yn un o'r pynciau pwysicaf i drigolion Caerdydd, gyda thagfeydd traffig, llygredd o draffig a system gludiant cyhoeddus sy'n cael trafferth i roi gwasanaeth digonol i'r bobl sy'n byw a gweithio yn y ddinas oll yn faterion o gryn bwys.

Mae'r ffaith fod cynifer o deithiau gan un person yn unig mewn car i mewn ac o gwmpas Caerdydd yn ychwanegu at ffigurau carbon y ddinas - trafndiaeth sy'n cyfrannu at y rhan fwyaf o allyriadau CO<sub>2</sub>, ar 41.2%, a dyma yw prif achos llygredd aer. Gwelir newid y modd mae pobl yn teithio - gan symud i drafndiaeth gynaliadwy - fel un o'r cyfraniadau mwyaf y gall dinasoedd wneud i leihau'r effaith ar yr hinsawdd. Bydd angen i hyn gael ei gefnogi gan wasanaethau a seilwaith trafndiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon, yn ogystal â lleoli gwasanaethau yn agosach at bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio. Mae hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2021 Llywodraeth Cymru.

Yn yr Arolwg Trafnidiaeth diweddaraf (2019/20), nododd 51.2% eu bod

## Teithio i'r Gwaith yn ôl Dull Trafnidiaeth (%), 2014/15 - 2019/20



Ffynhonnell: Arolwg Trafnidiaeth, Cyngor Caerdydd

yn teithio i'r gwaith trwy ddefnyddio trafndiaeth gynaliadwy, sy'n uwch na'r targed o 50:50. Mae hyn yn gynydd o 6% ers 2016/17. Bu cryn symudiad tuag at feicio fel dull o deithio, o ddim ond 10% yn 2016/17 i 15% yn 2019/20, sy'n cyd-fynd ag ymgynghoedd hyrwyddo a chefnogi teithio llesol y ddinas, megis adeiladu rhwydwaith beicio diogel, ar wahân o ansawdd uchel ledled y ddinas.

Cynyddu ychydig yn unig a wnaeth y defnydd o drafndiaeth gyhoeddus (bysus a rheilffyrdd) rhwng 2016/17 a 2019/20, o 16.8% i 18.1%.

Mae'r newidiadau hyn yn gadarnhaol iawn ac yn cefnogi Hierarchaeth

Trafnidiaeth Gynaliadwy Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr, ac yna trafndiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn, cyn cerbydau modur preifat eraill.

Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd dulliau trafndiaeth glanach a mwy cynaliadwy gan sawl ymatebydd i arolwg Caerdydd sy'n Dda i Blant 2019. Pan ofynnwyd "A oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud i wneud Caerdydd yn lle gwyh i gael eich magu?", nododd unigolion "defnyddio mwy o geir trydan. Defnyddio mwy o fsysus ecogyfeillgar", "gwneud ceir trydan fel nad oes mwy o CO<sub>2</sub> yn mynd i'r atmosffer" a "llai o geir a mwy o drafndiaeth gyhoeddus."

## Galw am Ynni

Mae'r Adroddiad Pweru Dinasoedd y Dyfodol yn rhagweld, o holl ddinasoedd mawr y DU, mai Caerdydd fydd yn cael y cynnydd mwyaf arwyddocaol yn y galw am drydan domestig rhwng 2015 a 2035, ar 44%. Yng Nghaerdydd hefyd y rhagwelir y cynnydd mwyaf yn y galw am nwy domestig, ar 28%. Mae cysylltiad agos rhwng galw am drydan a nwy domestig a thwf yn y boblogaeth yn yr 11 dinas a arolygwyd.



## Ynni Adnewyddadwy

Mae Caerdydd yn 10fed o 22 Awdurdod Lleol Cymru am gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Er bod gallu cyfarpar ynni adnewyddadwy a osodwyd yng Nghaerdydd wedi cynyddu ers 2016, o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru, gan Gaerdydd y mae'r gallu sydd bumed isaf.

O'r cyfarpar ynni adnewyddadwy a osodwyd yng Nghaerdydd, Troi Gwastraff yn Ynni sydd â'r gallu uchaf, ac yna PV Solar a Nwy Carthion. Mae gwaith ailgylchu bwyd Tremorfa yng Nghaerdydd, a agorwyd yn 2017, yn darparu 1.8MW o drydan y flwyddyn.

Adeiladwyd fferm solar 9MW ar hen safle tirlenwi Ffordd Lamby yng Nghaerdydd; nid yw hon eto wedi ei hadlewyrchu yn y data.

Mae'n hanfodol, wrth symud ymlaen, nad yw cynhyrchu/prosiectau ynni adnewyddadwy wedi'u crynhoi mewn ardaloedd mwy cyfoethog yn unig, ond hefyd yn cyrraedd ac yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau mwy diffeintiedig, gan sicrhau bod y manteision o fewn cyrraedd pawb.



<sup>23</sup> These figures were estimated pre-pandemic.



## Man Gwyrdd Naturiol Hygyrch

O ran Gwobr y Faner Werdd, safon y meincnod cenedlaethol am barciau a mannau gwyrdd, Caerdydd yw'r ardal yng Nghymru sydd â'r mwyaf o wobrau, gyda chyfanswm o 35 safle wedi derbyn gwobr (16 safle gyda Gwobr Lawn a 19 safle gyda Gwobr Gymunedol).

Caerdydd hefyd sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran hygyrchedd cerdded at fannau gwyrdd lleol.

Amlygwyd pwysigrwydd mannau gwyrdd Caerdydd i drigolion yn arolwg Holi Caerdydd 2020, gydag un preswlydd yn nodi, "Gwerthfawrogiad o'n mannau gwyrdd, a'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo. Rhaid i ni ddiogelu ardaloedd agored, waeth beth fo'r ysgogiad i ddatblygu."

Fodd bynnag, dim ond 11 (ha) o fannau gwyrdd naturiol hygyrch am bob 1,000 o boblogaeth sydd yng Nghaerdydd. O ran agosrwydd at fannau gwyrdd naturiol hygyrch, mae Caerdydd yn is na'r ffigur cyffredinol am Gymru.

Mae agosrwydd at fannau gwyrdd naturiol hygyrch yn amrywio ar draws y ddinas. Ymysg wardiau sydd ag ardaloedd heb fod yn agos iawn at fannau gwyrdd naturiol hygyrch mae Rhiwbeina, Radur a Phentre-poeth, Cyncoed, Pentwyn, Plasnewydd, Cathays, Gabalfa a Threlái.

At hynny, mae mynediad i fannau gwyrdd dinesig yn anghyfartal ar draws y ddinas. Nid oes gan rannau o Dde a Dwyrain Caerdydd ar hyn o bryd fynediad da at fannau gwyrdd


trefol ac y mae'r galw ar ei uchaf yn yr 'Arc Ddeheuol' ar sail nifer y bobl ac amddifadedd cyffredinol yr ardal.

Mae'n destun pryder bod y cymunedau mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o gael mynediad da i'r ardaloedd gwyrddaf, gan ein bod yn gwybod bod yr amser a dreulir ym myd natur yn effeithio ar ddangosyddion megis iechyd meddwl a lles, cyswllt cymdeithasol, cydlyniant ac integreiddio, lefelau troseddau ac addysg. Cafodd yr anghydraddoldebau o ran mynediad at fannau gwyrdd eu pwysleisio hyd yn oed yn fwy yn ystod

pandemig Covid-19, wrth i bobl droi at fannau gwyrdd i gael mynediad at natur yn ystod y cyfnod clo.

At hynny, yn Arolwg Holi Caerdydd 2020, nododd 79.0% o'r holl ymatebwyr eu bod yn fodlon ar Barciau a Mannau Agored Caerdydd. Roedd ymatebwyr o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn fodlon iawn gyda Pharciau a Mannau Agored Caerdydd, o gymharu â'r rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (gyda gwahaniaeth o 11.7% rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig).

**Sgôr Agosrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch (% o aelwydydd o fewn taith gerdded 5 munud/300 metr): Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Caerdydd (ACEH1au) (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: Data Dangosyddion 2019)**



Ffynhonnell: Data Dangosyddion MALIC 2019

## Seilwaith Glas

Mae llawer o lwyddiannau a thwf Caerdydd fel dinas yn deillio o'i chamlesi, ei hafonydd a'i lleoliad ar y glannau, fodd bynnag, dros y blynyddoedd, mae llawer o'r nodweddion hyn wedi'u tanddefnyddio, wedi'u hadeiladu drosodd neu wedi'u cuddio o'r golwg.

Gallai gwneud defnydd gwell o ffyrdd dŵr a ffyrntiadau dŵr o bosibl ddod â manteision ehangach i'r gymuned, yr economi, yr amgylchedd a bioamrywiaeth, gan helpu i wella iechyd a lles pobl.



<sup>24</sup> Mae ffigurau ar gael am 14 yn unig o'r 22 o ardaloedd Awdurdodau Lleol Cymru.



## CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL

- **Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd:** Rhagwelir y bydd y newidiadau yn yr hinsawdd yr ydym eisoes yn eu profi yn parhau ac yn dwysáu. Mae mwyafrif helaeth (87.1%) o drigolion Caerdydd yn pryderu am yr Argyfwng Hinsawdd ac yn teimlo bod angen mwy o weithredu.
- **Mae'r argyfwng hinsawdd yn debygol o arwain at fwy o dywydd eithafol:** Mae amllder a difrifoldeb lifogydd yn cynyddu a disgwylir iddo gynyddu ymhellach o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. O'r 33 ardal yng Nghymru y nodwyd sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd, mae 5 yn 'Arc Ddeheuol' Caerdydd: Llaneirwg, Y Rhath, Treganna, Glan yr Afon a Grangetown. Mae 83% o eiddo o fewn Ardaloedd Rhybuddio am Lifogydd dynodedig CNC yng Nghaerdydd yn gysylltiedig â'i Wasanaeth Rhybuddio am Lifogydd.
- **Mae colli bioamrywiaeth yn cyflymu ar raddfa ddigynsail yng Nghymru ac yn fyd-eang.** Bydd llai o gadernid ecolegol yn effeithio ar sut mae ecosystemau'n adfer ac yn addasu i ddigwyddiadau aflonyddwch fel tanau gwyllt, tywydd eithafol neu glefyd. Ar gyfer yr 16 safle cadwraeth gwarchodedig yng Nghaerdydd, nid oes digon o dystiolaeth, adnoddau staff na dealltwriaeth i asesu cyflwr 50% o'r nodweddion gwarchodedig allweddol.
- **Mae adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio ar gyfradd anghynaliadwy.** Yn fyd-eang, mae gorddefnyddio, dulliau cynhyrchu, ynghyd ag allyriadau, yn arwain at newidiadau yn yr amgylchedd sy'n cael effaith sylweddol ar yr adnoddau naturiol a'r ecosystemau yr ydym yn dibynnu arnynt.
- **Ni fydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bawb i'r un graddau:** Bydd tywydd eithafol yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles, yn ogystal ag ar grwpiau poblogaeth penodol mewn cymdeithas, gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl ar incwm isel, oedolion hŷn, a phobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor.
- **Trafnidiaeth:** Caerdydd sydd â'r nifer fwyaf o draffig cerbydau modur fesul awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n teithio i'r gwaith ar drafndiaeth gynaliadwy yn cynyddu – mae 51.2% o gymudwyr yn gwneud hynny bellach. Bu newid sylweddol mewn beicio fel dull o deithio, o 10% yn 2016/17 i 15% yn 2019/20. Dim ond ychydig a gynyddodd y defnydd o drafndiaeth gyhoeddus (bws a thrên) yn ystod y cyfnod hwn, o 16.8% i 18.1%.
- **Llygredd aer:** Hefyd, mae ansawdd aer gwael yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth oherwydd lefelau Deunydd Gronynnol. Mae effeithiau llygredd aer ar iechyd wedi eu hymchwilio a'u dogfennu'n dda hefyd. Ynghyd â'n diffyg gweithgarwch dyma yw un o broblemau iechyd mwyaf ein hoes. Mae data modelu yn dangos bod gan Gaerdydd y lefelau uchaf o lygredd Nitrogen Deuocsid (NO<sub>2</sub>) a Deunydd Gronynnol (2.5 a 10) yng Nghymru. Yn wir, mae'r lefelau'n uwch na'r therfynau cenedlaethol a'r UE ar gyfer NO<sub>2</sub> mewn rhai ardaloedd: ar hyn o bryd mae 4 Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) wedi'u datgan ledled Caerdydd.

Er bod ansawdd aer gwael yn effeithio ar bob un ohonom, mae rhai pobl yn fwy agored i niwed. I gael rhagor o fanylion am lygredd aer ac anghydraddoldebau, cyfeiriwch at y bennod: Iechyd a Lles.

- **Llygredd dŵr:** Mae arllwys carthion yn gyfreithiol ac yn anghyfreithlon yn bryder mawr yng Nghaerdydd ac i fyny'r afon. Mae cyrff dŵr ledled Cymru yn methu ar nifer o fesurau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr; er enghraifft, mae Afon Elái mewn 'cyflwr gwael' tra bod afonydd Taf a Rhymni mewn 'cyflwr cymedrol'.
- **Un o brif asedau Caerdydd yw ei seilwaith gwyrdd:** Caerdydd sydd â'r ganran uchaf yng Nghymru o ran y rhai all gyrraedd eu mannau gwyrdd lleol yn hawdd ar droed. Fodd bynnag, mae Caerdydd yn is na'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru o ran agosrwydd at fannau gwyrdd naturiol, sy'n amrywio ar draws y ddinas. At hynny, mae mynediad i fannau gwyrdd dinesig yn anghyfartal ar draws y ddinas. Mae'r galw ar ei uchaf yn yr 'Arc Ddeheuol' yn seiliedig ar nifer y bobl ac amddifadedd cyffredinol yr ardal. Mae'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o gael mynediad da i'r ardaloedd gwyrddaf. Mae'r amser a dreulir ym myd natur yn cael effaith ar ddangosyddion fel iechyd meddwl a lles, cyswllt cymdeithasol, cydlyniant ac integreiddio, lefelau troseddau ac addysg.
- **Mae gan seilwaith glas Caerdydd botensial sylweddol:** Mae llawer o lwyddiant Caerdydd a'i thwf yn deillio o'i chamlesi, ei hafonydd a'i lleoliad ar y glannau. Mae'r ddinas yn cydnabod bod gan ei seilwaith glas y potensial i ddod â manteision ehangach i'r gymuned, yr economi, yr amgylchedd a bioamrywiaeth, gan helpu i wella iechyd a lles pobl.
- **Caerdydd yw'r awdurdod lleol sy'n perfformio waethaf yng Nghymru o ran aildefnyddio/ ailgylchu/ compostio gwastraff dinesig:** Mae'r ganran yng Nghaerdydd wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf i 55.8% yn 2021. Mae hyn yn is na tharged Llywodraeth Cymru o 64% erbyn 2021 a 70% erbyn 2025. Fodd bynnag, mae Caerdydd yn perfformio'n well na holl ddinasoedd mawr y DU.
- **Glendid:** Mae unigolion o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn fwy tebygol o gytuno bod gan Gaerdydd amgylchedd glân o'i gymharu â'r rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae nifer o wardiau, yn enwedig yng nghanol y ddinas ac yn ne'r ddinas, o dan y targed ar gyfer safon uchel neu dderbyniol o lendid.



## Effaith Covid-19:

- Mae'r pandemig wedi newid y ffordd y mae pobl yn defnyddio'r ddinas. Mae Caerdydd wedi gweld newidiadau radical yn y ffordd y mae pobl yn symud o gwmpas, ac mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n beicio yn gysylltiedig â chwymp mawr yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae tagfeydd wedi lleihau ac mae cymudo yn y ddinas-ranbarth yn llai o lawer ers cyn y pandemig.
- Yn dilyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, gwelwyd gostyngiad amlwg o 40% mewn llygredd aer yng nghanol Caerdydd o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn (er enghraifft, cyfartaledd o 14.4 µg/m<sup>3</sup> o gymharu â 23.9 µg/m<sup>3</sup> yn Frederick Street). Roedd gwelliannau o ran ansawdd aer ar draws y ddinas yn parhau i'w gweld yn dilyn cyfnodau clo dilynol.
- Gellir cysylltu'r gwelliannau â gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn teithio mewn ceir i'r gwaith a chanolfannau siopa, a chynnydd mewn cerdded a beicio yn ystod y cyfnodau clo. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod gostyngiadau'n ymddangos yn fwy mewn ardaloedd llai difreintiedig; mae hyn yn debygol o fod oherwydd bod cyfran uwch o oedolion sy'n gweithio yn gallu gweithio gartref yn yr ardaloedd hyn. Mae mwy o deithio llesol a llai o lygredd aer wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd trigolion.
- Ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut y bydd patrymau teithio tymor canolig a hirdymor yn edrych ar ôl y pandemig; mae arolygon cyfredol o fusnesau yn y ddinas ac yn fwy cyffredinol ledled y DU yn awgrymu y bydd patrwm gwaith 'hybrid' yn cael ei weld a fyddai'n gweld pobl yn cymudo i weithio ar lai o ddiwrnodau bob wythnos. Mae gan hyn y potensial i 'gloi' rhai o'r enillion o ran ansawdd aer, ond mae'r patrymau hynny ymhell o fod yn sicr.
- Mae'r cynnydd mewn gweithio gartref wedi arwain at lawer yn darganfod eu cymdogaethau ar garreg eu drws am y tro cyntaf, a mwy o alw am wasanaethau ac amwynderau yn nes at adref. Roedd mannau cyhoeddus a pharciau'r ddinas yn hynod bwysig ar gyfer cael mynediad at fannau gwyrdd a natur yn ystod y cyfnod clo. Fel y nododd un ymatebydd i Ymgynghoriad Cyllideb 2021, *"Parciau a mannau agored yw'r unig beth rydw i wedi gallu ei fwynhau dros y flwyddyn ddiwethaf a beicio i ac oddi mewn y parciau hynny."*

Amcan Lles 7

---

Moderneiddio ac  
Integreiddio ein  
Gwasanaethau  
Cyhoeddus

---

## Trosolwg

Yn wyneb galw cynyddol a chyllidebau sy'n lleihau, pennodd pob un o wasanaethau cyhoeddus Caerdydd raglen foderneiddio a fyddai'n gwella effeithlonrwydd, yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau'n well ac yn hyrwyddo newid cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae her ymateb i Covid-19 wedi cyflymu'r agenda hon yn fawr, yn enwedig o ran defnyddio technolegau digidol a dadansoddi

data wrth ddarparu gwasanaethau, ac wedi gorfodi cyflwyno arloesedd, mewn sefydliadau a rhyngddynt. Yn wir, mae'r 20 mis diwethaf wedi gweld cydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus y ddinas ar ddyfnder a graddfa ddigynsail.

Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol fod gwasanaethau cyhoeddus Caerdydd yn adeiladu ar y llwyfan hwn, gan ddatblygu agwedd newydd fydd yn dwyn ynghyd asedau,

technoleg a'r gweithlu i ddatgloi mwy o arbedion effeithlonrwydd, cynyddu cynhyrchedd a chyflwyno gwell gwasanaethau, ac ymateb ar y cyd yr un pryd i fwy o alw, a materion newydd a chymhleth fydd yn dod i'r amlwg wrth i'r ddinas ddod allan o'r pandemig. Bydd hyn yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus y ddinas i fod yn fwy hyblyg, gan roi gwasanaeth sydd yn gallu ymaddasu a bod yn fwy ymatebol i ddinasyddion.


## Ansawdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghaerdydd

Yn 2020<sup>25</sup>, dywedodd bron i 73% o drigolion Caerdydd a arolygwyd eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd.

Bu boddhad gydag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn codi a gostwng fymryn ers 2014, ond y mae wedi aros yn fras yn gyson. Cynhaliwyd boddhad â gwasanaethau cyhoeddus Caerdydd ar waethaf toriadau sylweddol i'r gyllideb yn ystod y cyfnod hwn. Gwnaed hyn yn bosib trwy fabwysiadu ffyrdd newydd a mwy effeithiol o weithio, gan integreiddio technoleg ddigidol i mewn i gyflwyno gwasanaethau.


Yn 2020, roedd boddhad ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn gyson ar draws y rhan fwyaf o lefelau o amddifadedd, gan adlewyrchu'r ymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da ar gael i bob cymuned ledled y ddinas. Adroddodd pedwar o'r pum grŵp lefelau boddhad uwch o 2019 i 2020, gyda lefel boddhad y grŵp arall yn cwmpo o 0.4% yn unig.

Pa mor fodlon ydych chi ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd? 2020



Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, 2020

Pa mor fodlon ydych chi ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd? 2020, Pumed Amddifadedd



Ffynhonnell: Arolwg Holi Caerdydd, 2020


<sup>25</sup> Ni ellir cymharu ffigurau 2020 yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newid yng ngeiriad y cwestiwn.



## Gallu i Gyrraedd/ Cyrchu Gwasanaethau a Chyfleusterau

Yn 2020/21, Caerdydd oedd y seithfed ymysg Awdurdodau Lleol Cymru o ran boddhad gyda mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, ar 90.1%. Nid oedd yr awdurdod lleol a berfformiodd orau, Bro Morgannwg, ond 3.1 pwynt canran yn uwch.

Canran y Bobl sy'n Fodlon â'u Gallu i Gyrraedd/Cyrchu'r Cyfleusterau a'r Gwasanaethau Maent eu Hangen, 2020/21 (Awdurdodau Lleol Cymru)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## CRYNODEB O'R MATERION ALLWEDDOL

- **Boddhad â gwasanaethau cyhoeddus:** Mae'r 20 mis diwethaf wedi gweld cydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus y ddinas ar ddyfnder a graddfa ddigynsail. Yn 2020, dywedodd bron i 73% o drigolion Caerdydd a arolygwyd eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd. Roedd boddhad hefyd yn gyson ar draws y rhan fwyaf o lefelau o amddifadedd, gan adlewyrchu'r ymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da ar gael i bob cymuned ledled y ddinas.

Mae Caerdydd hefyd yn perfformio'n dda iawn ymhlith Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer pobl sy'n fodlon ar fynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, gyda 90.1% yn fodlon yn 2020/21.

## Effaith Covid-19:

- Bydd angen ymrwymiad a gweithredu mewn partneriaeth i barhau i reoli'r pandemig a llawer o'r problemau mwyaf cymhleth sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn yr amgylchedd ar ôl Covid. Yn fwy cyffredinol, bydd angen y trefniadau partneriaeth a chydweithio cryfach er mwyn ymateb i'r galw cynyddol a phroblemau newydd a chymhleth a fydd yn codi wrth i'r ddinas ddod allan o'r pandemig.
- Bydd y newid tuag at ddefnyddio gwasanaethau ar-lein fel y gwelwyd yn ystod y pandemig yn parhau ar draws pob sector. Mae darparu ystod well o wasanaethau ar-lein yn hanfodol, lle mae pawb sy'n gallu defnyddio llwybrau digidol i wasanaethu yn dewis gwneud hynny. Mae sicrhau hygyrchedd yn rhan allweddol o hyn, fel yr amlygwyd gan un ymatebydd i Arolwg Map Ffyrdd Dinas Glyfar 2020, "Yn gyntaf, rhaid i chi sicrhau bod gan bawb fynediad at wasanaethau digidol a deall sut i'w defnyddio."
- Mae ymateb y ddinas i'r pandemig wedi dibynnu ar gasglu, cyflwyno a dadansoddi data amser real yn gyflym ac yn gadarn ar draws y system gwasanaethau cyhoeddus i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae ymgorffori'r newid hwn yn eang yn hanfodol er mwyn rheoli perfformiad a mewnwelediad corfforaethol yn well ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

---

# Atodiad A

---

## Atodiad A: Y Data a'r Llenyddiaeth a Adolygwydd<sup>26</sup>

Mae Asesiad Lles Lleol Caerdydd wedi'i ddatblygu ar yr un pryd â'r [Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg \(2022\)](#).

### Demograffeg

Gellir gweld y setiau data a ddadansoddwyd drwy [glicio yma](#).

#### Setiau Data:

|                                                                            |                                                                                                                 |
